

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research


Number: 30/2013



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (CAWG)



# **Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (CAWG)**

**Awdur: Nia Bryer, Old Bell 3 Cyf**

Barn yr ymchwilydd ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Julie Owens

Cangen Ymchwil a Gwerthuso

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Cyffordd Llandudno

Conwy

LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5484

E-bost: [Julie.Owens@wales.gsi.gov.uk](mailto:Julie.Owens@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, blwyddyn

ISBN 978-0-7504-9361-1

© Hawlfraint y Goron 2013

## Tabl o'r Cynnwys

<b>CRYNODEB GWEITHREDOL .....</b>	<b>5</b>
<b>1. CYFLWYNIAD .....</b>	<b>11</b>
1.1 Diben yr Adroddiad .....	11
1.2 Dull a Rhaglen Waith .....	12
1.3 Strwythur yr Adroddiad .....	14
<b>2. CEFNDIR CAWG .....</b>	<b>16</b>
2.1 Cyflwyniad .....	16
2.2 Nodau ac Amcanion .....	16
2.3 CAWG o fewn Addysg Uwch .....	18
2.4 CAWG o fewn Addysg Bellach a Chymraeg i Oedolion .....	19
2.5 Gweithredu a Rheoli'r Cynllun .....	21
2.6 Grwpiau Cynghori a Rhwydweithiau CAWG .....	22
<b>3. Y RHESYMEG A'R ANGEN AM CAWG ADDYSG UWCH .....</b>	<b>24</b>
3.1 Cyflwyniad .....	24
3.2 Ffit gyda chymorth statudol a dewisol i fyfyrwyr .....	24
3.3 Ffit CAWG gyda chymorth statudol a dewisol .....	28
3.4 Rhesymeg ac angen .....	30
3.5 Materion Cyd-destun .....	30
<b>4. YMAGWEDD SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH AT CAWG .....</b>	<b>33</b>
4.1 Cyflwyniad .....	33
4.2 Cynllun Llywodraeth Cymru .....	33
4.3 Polisiâu CAWG Sefydliadau Addysg Uwch .....	35
<b>5. DEFNYDD CAWG YN Y SECTOR ADDYSG UWCH .....</b>	<b>40</b>
5.1 Cyflwyniad .....	40
5.2 Defnydd CAWG yn y sector Addysg Uwch): Dadansoddiad o ddata .....	40
5.3 Defnydd CAWG yn y sector Addysg Uwch: Adborth gwaith maes .....	50
<b>6. CAWG A DARPARIAETH GIG .....</b>	<b>54</b>
6.1 Cyflwyniad .....	54

6.2	Pecyn Cymorth Ariannol GIG .....	54
6.3	Sut mae myfyrwyr GIG yn cael mynediad i CAWG .....	55
6.4	Pa mor briodol yw bod cymorth CAWG ar gael i fyfyrwyr GIG .....	56
<b>7.</b>	<b>CAWG YN Y SECTOR ADDYSG BELLACH .....</b>	<b>58</b>
7.1	Cyflwyniad .....	58
7.2	Cymorth Ariannol Statudol a Dewisol i Fyfyrwyr Addysg Bellach .....	58
7.3	Canfyddiadau o 'ffit' CAWG Addysg Bellach .....	59
7.4	Rhesymeg ac Angen .....	60
7.5	Materion Cyd-destun .....	60
<b>8.</b>	<b>YMAGWEDD SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH AT CAWG .....</b>	<b>62</b>
8.1	Cyflwyniad .....	62
8.2	Cynllun Llywodraeth Cymru .....	62
8.3	Polisiâu CAWG Addysg Bellach .....	63
<b>9.</b>	<b>DEFNYDD CAWG YN Y SECTOR ADDYSG BELLACH .....</b>	<b>70</b>
9.1	Cyflwyniad .....	70
9.2	Defnydd CAWG yn y sector Addysg Bellach: dadansoddiad o ddata .....	70
9.3	Defnydd CAWG yn y sector Addysg Bellach: adborth gwaith maes .....	79
<b>10.</b>	<b>CAWG YN Y SECTOR CYMRAEG I OEDOLION .....</b>	<b>84</b>
10.1	Cyflwyniad .....	84
10.2	Dyraniadau Cyllid CAWG CiO .....	84
10.3	Cymorth CAWG i Fyfyrwyr CiO .....	85
10.4	Darpariaethau CiO a ariannwyd gan CAWG .....	86
10.5	Gwariant CiO CAWG .....	87
10.6	Rheolaeth a Gweinyddiaeth CAWG CiO .....	89
10.7	Y gwahaniaeth a wnaed i fyfyrwyr CiO .....	91
<b>11.</b>	<b>GWEINYDDU CAWG MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH A SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH .....</b>	<b>93</b>
11.1	Cyflwyniad .....	93
11.2	Dull Rheoli .....	93
11.3	Marchnata a Hyrwyddo mewn Sefydliadau Addysg Uwch .....	94
11.4	Marchnata a Hyrwyddo mewn Sefydliadau Addysg Bellach .....	95



## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (CAWG) sydd ar gael i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn cynnwys myfyrwyr Cymraeg i Oedolion yng Nghymru. Diben y gwerthusiad yw asesu effaith ac effeithlonrwydd y Cronfeydd er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer eu cyfeiriad yn y dyfodol ac ystyried os yw dyraniad CAWG ar wahân ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn parhau'n briodol.

Pan mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'gynllun statudol', mae hyn yn golygu ei fod yn gynllun sydd wedi'i osod mewn deddfwriaeth (e.e. rheoliadau) sy'n rhoi'r hawl i rai myfyrwyr dderbyn lefel benodol o gymorth. Pan mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'gynllun anstatudol' neu 'gynllun dewisol', mae hyn yn golygu cynllun gweinyddol (h.y. cynllun nad yw wedi'i osod mewn rheoliadau ond sydd er hynny hefo sail statudol) sy'n caniatáu mwy o ryddid ynghylch a gaiff myfyriwr dderbyn cymorth a lefel y cymorth.

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2012 oedd yn cynnwys adolygiad desg o ddogfennau a setiau data Llywodraeth Cymru yn ogystal â gwybodaeth gan Sefydliadau Addysg Uwch/Sefydliadau Addysg Bellach unigol. Roedd hefyd yn cynnwys datblygu offerynnau ymchwil a chynnal gwaith maes gyda Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y gwaith maes yn cynnwys ymweliadau i bum Sefydliad Addysg Uwch a naw Sefydliad Addysg Bellach (yn cynnwys grwpiau ffocws/cyfweliadau gyda chyfanswm o 152 myfyriwr), yn ogystal â chyfweliadau ffôn gyda chynrychiolwyr pump o'r chwe Sefydliad Addysg Uwch arall a'r deg Sefydliad Addysg Bellach arall.

Cyflwynwyd CAWG am y tro cyntaf yn 1991 i gefnogi myfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch oedd yn wynebu anawsterau ariannol ac a oedd, heb gymorth, yn debygol o adael eu haddysg. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian CAWG yn flynyddol i sefydliadau unigol i'w gweinyddu i'w myfyrwyr ar sail ddewisol. Mae'r cyllid i sefydliadau ar gael drwy ddau gynllun ar wahân, sef y Cynllun Addysg Uwch a'r Cynllun Addysg Bellach. Gwnaed £9.1 miliwn ar gael drwy'r cynllun ar sail flynyddol ers 2010/11. Dyrannwyd £2.1 miliwn i Sefydliadau Addysg Uwch a £7.0m i Sefydliadau Addysg Bellach ym mhob un o'r ychydig flynyddoedd diwethaf. Gostyngodd swm y cyllid a ddyrannwyd i Sefydliadau Addysg Uwch gan tua 60% yn 2010/11 o

gymharu â blynyddoedd academaidd blaenorol oherwydd y gwelliannau a wnaed i ddarpariaeth statudol cyllid myfyrwyr yn fwy cyffredinol. Caiff swm bychan o gyllid (£64,000) ei neilltuo o fewn Cynllun CAWG Addysg Bellach i'w ddefnyddio gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion (CiO) i gefnogi eu myfyrwyr. Cafodd y dull hwn ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn ystod 2008 pan sefydlwyd chwe Chanolfan CiO newydd, pump ohonynt o fewn Sefydliadau Addysg Uwch ac un o fewn Sefydliad Addysg Bellach.

Ar draws y sector Addysg Uwch derbyniodd ychydig dros 6,000 o fyfyrwyr gymorth CAWG yn ystod 2010/11 gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn fyfyrwyr israddedig llawn-amser. Defnyddiwyd cyfran sylweddol o gronfa CAWG Addysg Uwch i gefnogi costau byw cyffredinol, a ddilynydd gan gostau llety a llyfrau/offer. Gwrthodwyd cyllid i tua 1,500 o fyfyrwyr Addysg Uwch yn ystod 2010/11. Ar draws y sector Addysg Bellach cefnogwyd 18,815 o fyfyrwyr drwy gynllun CAWG Addysg Bellach yn ystod 2010/11 ac roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn fyfyrwyr llawn-amser. Roedd ychydig dros eu hanner (55%) yn 16-18 oed. Roedd dwy ddarpariaeth yn cyfrif am bron dri chwarter yr holl wariant ar draws y cynllun CAWG Addysg Bellach yn ystod 2010/11 sef gofal plant (ar 41%) gyda chlodiant yn dilyn (ar 32%). Cafodd 2,300 o geisiadau eu gwrthod gan y sefydliadau gweinyddu.

Canfu ein gwerthusiad fod rhesymeg glir dros ddarparu cymorth ariannol dewisol i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar adegau neilltuol o angen yn ystod eu hastudiaethau. Dangosodd ein gwaith maes fod CAWG yn ategu'r cymorth ariannol statudol a dewisol cymhleth sydd ar gael i fyfyrwyr a bod ei weinyddu'n lleol gan sefydliadau unigol yn un o'i gryfderau allweddol gan y gall sefydliadau ymateb i amgylchiadau penodol myfyrwyr. Ar ôl dweud hyn, defnyddir CAWG i 'lenwi' bylchau neilltuol o fewn darpariaeth statudol, yn arbennig ar draws y sector Addysg Uwch, lle caiff ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth gofal plant a diwallu anghenion myfyrwyr a ariannir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae hefyd yn wir y defnyddir CAWG i gael gwared ag anghysonderau yn y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr mewn gosodiadau Addysg Bellach o gymharu gyda rhai mewn chweched dosbarth ysgolion - megis ar gyfer defnyddio CAWG i dalu am gostau teithio myfyrwyr a thalebau cinio.

Canfu'r gwerthusiad ei fod yn gyffredin defnyddio CAWG yn y sector Addysg Bellach i ariannu costau rhagweladwy yn gysylltiedig gydag astudio ar gyfer rhai categorïau o fyfyrwyr (yn gyffredinol yn seiliedig ar incwm aelwydydd) yn hytrach na chefnogi anghenion argyfwng ariannol myfyrwyr. Nid yw hyn yn golygu nad yw CAWG yn addas i'r diben gan fod y dystiolaeth yn awgrymu fod CAWG yn arf pwysig wrth alluogi recriwtio a chadw unigolion a allai fel arall gael eu hallgau o gyfleoedd addysgol. Yn hytrach credwn y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod

defnydd cyllid yn y ffordd hon drwy ei gynllun CAWG Addysg Bellach yn y dyfodol.

Daethom i'r casgliad y dylid cadw CAWG fel cynllun dewisol er y gallai fod yn werth ymchwilio ffyrdd mwy effeithlon o ariannu rhai o'r darpariaethau a ddaw ar hyn o bryd o fewn CAWG ar draws y Sector Addysg Bellach megis cludiant a gofal plant myfyrwyr Addysg Bellach (yn neilltuo o gofio fod gofal plant yn rhoi galw anghymesur ar gyllid CAWG ar lefel Addysg Bellach). Daethom i'r casgliad hefyd y dylid cadw'r cynlluniau Addysg Uwch ac Addysg Bellach fel cynlluniau ar wahân i raddau helaeth oherwydd y caiff y cynlluniau eu defnyddio mewn ffyrdd mor wahanol i'w gilydd fel y byddai anfanteision uno yn fwy nag unrhyw fanteision.

Un o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad oedd y gwahaniaethau sylweddol yn y ffyrdd y mae sefydliadau unigol yn trin CAWG, yn arbennig yn y sector Addysg Bellach. Mae'r adroddiad yn cyflwyno llawer o'r gwahaniaethau hyn yn nhermau cymhwyster myfyrwyr a phrofiad myfyrwyr o wneud cais am gyllid ac yn gwneud argymhelliad penodol bod y sector yn gweithio tuag at ddull mwy cyffredin o weinyddu CAWG yn seiliedig ar yr arfer da presennol. Ar ôl dweud hyn credwn y dylai sefydliadau gadw'r hyblygrwydd cyffredol a roddir gan gynllun Llywodraeth Cymru yn nhermau sut y gweinyddant y cynlluniau ar lefel leol.

Dangosodd y gwaith maes nad oedd sefydliadau yn gyffredinol wedi gweld y fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i sefydliadau ac o'r herwydd credwn y byddai'n werth rhoi mwy o dryloywder yn ogystal â chynnal adolygiad sylfaenol o'r fethodoleg yma. Daethom hefyd i'r casgliad ei bod yn briodol i ffi gweinyddu (ar y lefel bresennol) fod ar gael i sefydliadau tuag at y costau o weinyddu cynlluniau CAWG.

Canfu ein gwerthusiad fod anghenion myfyrwyr a ariannir gan y GIG yn rhoi galw anghymesur ar gyllid CAWG ar lefel Addysg Uwch, a bod y galw wedi cynyddu ers y gwnaed newidiadau i ddarpariaeth statudol ddechrau 2012/13. Cytunwn gyda barn mwyafrif y rhai a gyfwelwyd y dylai'r grŵp yma o fyfyrwyr fedru parhau i gael mynediad i gymorth CAWG ond awgrymwn y dylai'r sector drafod gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd o fewn y sector GIG i ganfod os oes ffyrdd gwell o drin unrhyw ddiffygion mewn gymorth ariannol GIG i'w myfyrwyr drwy ddarpariaeth statudol.

Cododd yr astudiaeth hefyd gwestiynau am y rhesymeg dros ddarparu cyllid yn uniongyrchol i Ganolfannau CiO ac amlygu'r ffaith fod cyllid yn rhy hael ar hyn o bryd o'i gymharu â galw myfyrwyr. Ni chawsom ein darbwyllo o'r angen i neilltuo cyllid ar gyfer y grŵp arbennig yma o fyfyrwyr fodd bynnag credwn y dylai fod ganddynt fynediad i gymorth CAWG os ydynt yn



bodloni gofynion y cynllun. Yn hyn o beth gall fod yn fanteisiol ymchwilio os gellid darparu ar gyfer anghenion myfyrwyr CiO drwy arian CAWG eu sefydliadau lletya (fel yn wir mae myfyrwyr Addysg Bellach sy'n astudio mewn rhai Sefydliadau Addysg Uwch yn ei wneud) neu ddefnyddio dull mwy canoledig fel y medrir darparu'n well ar gyfer galw myfyrwyr.

Yn olaf, daeth y gwerthusiad i'r casgliad fod CAWG i raddau helaeth yn addas i'r diben yn y sector Addysg Bellach a hefyd y sector Addysg Uwch, er mewn ffyrdd gwahanol iawn, gan fod sefydliadau'n defnyddio cyllid i gyflawni'r amcanion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dangosodd ein gwaith maes gwerthuso fod y cyllid yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad a chadw myfyrwyr. Yn achos y sector Addysg Bellach, mae'r gronfa'n gwneud gwahaniaeth i ymrestriad, mynychiad a chadw myfyrwyr ac mae'r adborth gan gyfweleion o Sefydliadau Addysg Bellach a myfyrwyr yn rhoi tystiolaeth o hyn. Mewn Addysg Uwch, dengys y dystiolaeth fod CAWG yn ddull effeithlon wrth gadw myfyrwyr a lle'r oedd tystiolaeth ar gael gallai Sefydliadau Addysg Uwch ddangos fod cyfraddau gadael rhai a dderbyniodd gyllid CAWG yn is na'u cyfraddau gadael cyffredinol. Fodd bynnag mae'n glir, yn fwy felly mewn Addysg Uwch, fod darpariaeth cyngor ac arweiniad ariannol yr un mor bwysig i'r myfyrwyr â'r cyllid ei hunan a chyfaddefodd llawer o fyfyrwyr a gafodd eu cyfweld mai dim ond opsiwn os oedd popeth arall wedi methu oedd gadael eu cwrs. Fodd bynnag dangosodd y gwerthusiad ychydig o ddi-fuddiant gydag adborth gan rai myfyrwyr yn dangos y byddent wedi ymrestru neu wedi parhau gyda'u hastudiaethau p'un ai oeddent wedi cael cymorth CAWG neu beidio.

Gwnawn gyfanswm o 16 argymhelliad, sef bod:

1. Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu cynlluniau CAWG ar draws y sector Addysg Uwch a hefyd y sector Addysg Bellach, tra'n cydnabod fod ffocws y gynllun fel y'i defnyddir ar hyn o bryd o fewn Sefydliadau Addysg Bellach ar ddiwallu anghenion rhagweladwy grwpiau penodol o fyfyrwyr yn hytrach nag ar argyfyngau. Dylai cyllid barhau i fod ar gael yn uniongyrchol i sefydliadau unigol i'w weinyddu ar sail ddewisol;
2. Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu'r fethodoleg sylfaenol ar gyfer darparu cyllid i sefydliadau unigol ac yn ei addasu fel sydd angen i adlewyrchu'n well niferoedd y myfyrwyr a ragwelir ar gyfer y dyfodol, demograffeg myfyrwyr, natur wledig a lefelau amddifadedd pob sefydliad;
3. Llywodraeth Cymru yn cadw dau gynllun CAWG ar wahân ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach;
4. Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi hysbysiadau mwy amserol o gylchlythyrau blynyddol cynllun CAWG a hefyd ddyraniadau ariannol i Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch;

5. Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthbwysu rhai o gostau Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch wrth weinyddu cynlluniau CAWG a chadw'r cyfraddau ffioedd presennol;
6. Yn yr hirdymor Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad gyda'i phartneriaid yn ymchwilio dulliau eraill o ariannu darpariaethau teithio ar gyfer myfyrwyr 16-18;
7. Yn yr hirdymor byddai'n well darparu ar gyfer costau gofal plant myfyrwyr Addysg Bellach drwy ddarpariaeth statudol fel sy'n digwydd gyda myfyrwyr Addysg Uwch. Yn y cyfamser argymhellwn fod y sector Addysg Bellach yn cydweithio i ddefnyddio dull mwy cyson o ddyfarnu cyllid gofal plant;
8. Llywodraeth Cymru yn cadw'r grwpiau blaenoriaeth a ddynodwyd o fewn y cynllun ond yn ystyried cynnwys 'gofalwyr' fel grŵp blaenoriaeth newydd.
9. Llywodraeth Cymru, mewn trafodaeth gyda Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch, yn ystyried os byddai'n well darparu'n lleol yn y Sefydliad Addysg Bellach ei hunan ar gyfer anghenion myfyrwyr Addysg Uwch gyda ffransais sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac os felly, eu hariannu'n unol â hynny;
10. Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei gynllun CAWG y dylai pob Sefydliad Addysg Uwch a Sefydliad Addysg Bellach gael eu cynrychioli ar Grwpiau Cyngori CAWG Addysg Uwch ac Addysg Bellach a bod y camau gweithredu a gynigir ac a gytunir yn y grwpiau hyn yn cael eu mabwysiadu'n fwy cyffredinol ar draws y sector;
11. Sefydliadau Addysg Bellach yn cydweithio gyda Grŵp Cyngori CAWG yn ogystal â Chymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA) lle'n berthnasol, i gydweithio wrth ddatblygu dull gweithredu mwy cyson ar gyfer CAWG yn arbennig yn nhermau asesu cymhwyster myfyrwyr a phrosesau cais. Yn yr un modd argymhellwn fod Sefydliadau Addysg Uwch yn cydweithredu yn yr un modd i sicrhau dull gweithredu mwy cyson ar gyfer cynllun CAWG.
12. Y sector yn cysylltu gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i drafod sut y gellid darparu'n well ar gyfer gofynion cymorth ariannol myfyrwyr a ariannir gan y GIG un ai drwy ddarpariaeth statudol neu drwy i'r Asiantaeth wneud cyfraniad priodol tuag at gyllidebau CAWG ar lefel sefydliad unigol er mwyn llacio'r pwysau ar CAWG ar gyfer y gofynion hyn.
13. Dileu'r model presennol o ddarparu cyllid wedi'i neilltuo i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion unigol a bod anghenion y myfyrwyr hynny un ai'n cael eu diwallu drwy arian CAWG y sefydliad lletya neu drwy ddull canoledig wedi'i ariannu'n llai hael. Credwn y dylai'r Canolfannau CiO gytuno rhyngddynt pa opsiwn fyddai orau ar gyfer anghenion eu myfyrwyr;

14. Sefydliadau'n symud tuag at fabwysiadu arfer da cyfredol drwy ddweud y byddai'n *ddymunol* i'r rhai sy'n derbyn CAWG i gyfrannu at y costau a ariannir drwy CAWG ac yn mabwysiadu arfer o ariannu gwir gostau yn hytrach na chostau tybiannol neu amcangyfrif o gostau darpariaeth lle mae'n ymarferol gwneud hynny;
15. Llywodraeth Cymru yn annog Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch drwy'r ddau Grŵp Cynghori i fabwysiadu uchafswm lefel mynegol o gyllid fesul myfyriwr drwy'r cynllun CAWG;
16. Na ddylai Sefydliadau Addysg Uwch fel mater o drefn ariannu'r rhan 15% o'r costau sy'n ofynnol iddynt dan y Grant Gofal Plant ond yn hytrach wneud cyfraniad o'r fath lle mae diffyg ariannol clir yng nghyllideb yr ymgeisydd.

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Diben yr Adroddiad

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (CAWG) sydd ar gael i Addysg Uwch ac Addysg Bellach, yn cynnwys myfyrwyr Cymraeg i Oedolion yng Nghymru. Diben y gwerthusiad yw asesu effaith ac effeithlonrwydd y Gronfa er mwyn bod yn sail i'w gyfeiriad yn y dyfodol.

Pan mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'gynllun statudol', mae hyn yn golygu ei fod yn gynllun sydd wedi'i osod mewn deddfwriaeth (e.e. rheoliadau) sy'n rhoi'r hawl i rai myfyrwyr dderbyn lefel benodol o gymorth. Pan mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'gynllun anstatudol' neu 'gynllun dewisol', mae hyn yn golygu cynllun gweinyddol (h.y. cynllun nad yw wedi'i osod mewn rheoliadau ond sydd er hynny hefo sail statudol) sy'n caniatáu mwy o ryddid ynghylch a gaiff myfyriwr dderbyn cymorth a lefel y cymorth.

Cyflwynwyd CAWG gyntaf yn 1991 i gefnogi myfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch oedd yn wynebu anawsterau ariannol ac a oedd, heb gymorth, yn debygol o adael eu haddysg. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid yn flynyddol i sefydliadau unigol eu gweinyddu i'w myfyrwyr ar sail ddewisol. Yn ystod 2010/11 dyfarnwyd £9.1 miliwn o gyllid drwy CAWG, a gwnaed 6,055 dyfarniad i fyfyrwyr Addysg Uwch am £2.1 miliwn a 23,580 dyfarniad i fyfyrwyr Addysg Bellach am £7.0 miliwn.

Cynhaliwyd y gwerthusiad yma rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2012 a'i brif nod oedd:

'Gwerthuso'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn (CAWG) mewn Addysg Bellach a hefyd Addysg Uwch yn cynnwys Cymraeg i Oedolion ac ystyried os yw dyraniad CAWG ar wahân ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn parhau'n addas. Caiff y canfyddiadau a'r argymhellion eu defnyddio wedyn i fod yn sail i gyfeiriad y Gronfa yn y dyfodol a bwydo i mewn i asesiad cyffredinol o ddarpariaeth cefnogaeth ariannol ar gyfer myfyrwyr mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach <sup>1</sup>.'

Amlinellwyd amcanion penodol ym manyleb y gwerthusiad, yn cynnwys:

- Ymchwilio ffit CAWG gyda chynnyrch statudol a dewisol arall o gymorth i fyfyrwyr a'r agenda cymorth i fyfyrwyr yn ehangach;
- Mapio defnydd CAWG a sut y caiff y gronfa ei gweinyddu ar draws gwahanol

---

<sup>1</sup> Manyleb y Gwerthusiad, Tudalen 4

sefydliadau a dynodi gwahaniaethau a materion sy'n gyffredin;

- Asesu addasrwydd y meini prawf cymhwyster CAWG a osodwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Asesu sut y caiff CAWG ei farchnata a'i gyfathrebu i fyfyrwyr a rhieni;
- Ymchwilio materion penodol i Addysg Uwch yn cynnwys defnydd CAWG ar gyfer myfyrwyr a ariannir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chostau gofal plant a llety;
- Ymchwilio materion penodol i Addysg Bellach yn cynnwys defnyddio cyllidebau wedi'u neilltuo, defnyddio CAWG ar gyfer gofal plant, cludiant a dysgwyr gydag anghenion ychwanegol;
- Dynodi meysydd o arfer gorau a meysydd ar gyfer gwella o ran sut y caiff CAWG ei reoli a'i gyflenwi ar draws sefydliadau;
- Asesu i ba raddau y mae CAWG yn addas i'r diben;
- Asesu effaith CAWG ar gyfranogiad a chadw myfyrwyr;
- Ymchwilio beth fyddai wedi digwydd pe na bai CAWG yn bodoli;
- Ymchwilio gwahanol fodelau ar gyfer cyflenwi CAWG yn y dyfodol.

## 1.2 Dull a Rhaglen Waith

Mae'r rhaglen waith sy'n sylfaen i'r adroddiad yma wedi cynnwys yr elfennau dilynol:

- Cyfnod sefydlu yn cynnwys cyfarfod dechreuol gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad oedd yn cynnwys swyddogion polisi ac ymchwil Llywodraeth Cymru yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sectorau Addysg Bellach, Addysg Uwch a Chymraeg i Oedolion (CiO). Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys cyfweiliadau cwrmpas gydag aelodau allweddol o Grŵp Llywio'r Gwerthusiad, yn cynnwys dogfennau perthnasol a setiau data CAWG ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11 a drafftio a chytuno ar Adroddiad Sefydlu;
- Cynnal adolygiad desg o:
  - Ganllawiau CAWG Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd i sefydliadau a dogfennau eraill yn ymwneud â gweinyddu'r gronfa;
  - Y ddarpariaeth cyllid myfyrwyr bresennol sydd ar gael i fyfyrwyr yn astudio yng Nghymru;
  - Setiau data CAWG a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddefnyddio CAWG yn ystod 2010/11;
  - Polisiâu, canllawiau a ffurflenni cais CAWG a dderbyniwyd gan Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach a Chanolfannau CiO yng Nghymru i ddeall sut y gweinyddir y cynllun ar lefel sefydliadol.
- Datblygu'r offerynnau ymchwil dilynol a chytuno arnynt gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad:

- Canllaw pynciau wedi'i led-strwythuro ar gyfer rhanddeiliaid (yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru) sydd â diddordeb yn CAWG;
- Canllaw pynciau grwpiau ffocws wedi'i led-strwythuro ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ogystal â holiadur papur byr i'w lenwi gan bob sefydliad;
- Canllaw pwnc grwpiau ffocws wedi'i led-strwythuro i'w ddefnyddio gyda chynrychiolwyr pob Canolfan CiO yn ogystal â holiadur byr ar bapur i bob Canolfan ei lenwi ei hunan;
- Canllawiau pwnc grwpiau ffocws i'w ddefnyddio gyda myfyrwyr a gafodd gymorth CAWG;
- Canllawiau pwnc grŵp ffocws wedi'i led-strwythuro ar gyfer ei ddefnyddio gyda myfyrwyr a wnaeth gais am CAWG ond na ddyfarnwyd cyllid iddynt.
- Cynnal cyfweiliadau (yn bennaf ar sail wyneb i wyneb) gyda chyfanswm o 11 o randdeiliaid 'allanol'<sup>2</sup>;
- Cynnal pecyn o waith maes ar draws pum Sefydliad Addysg Uwch<sup>3</sup> a naw Sefydliad Addysg Bellach<sup>4</sup> oedd fel arfer yn cynnwys cyfweiliadau gyda:
  - Unigolion uwch gyda chyfrifoldeb am CAWG (e.e. Cyfarwyddwyr Cyllid, Cofrestryddion Academaidd);
  - Personél yn ymwneud â chynghor ac arweiniad i fyfyrwyr (megis Penaethiaid Gwasanaethau Myfyrwyr/Cymorth i Fyfyrwyr a Chynghorwyr Ariannol Myfyrwyr);
  - Cynrychiolwyr Undebau Myfyrwyr;
  - Aelodau staff gyda gwybodaeth o unrhyw ddarpariaeth a ariannir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ile'n berthnasol);
  - Grwpiau bach o fyfyrwyr blwyddyn un sy'n derbyn cymorth CAWG;
  - Grwpiau bach o fyfyrwyr blwyddyn dau yn ceisio cymorth CAWG;
  - Grwpiau bach o fyfyrwyr a wnaeth gais am gymorth CAWG ond a gafodd eu gwrthod.

Ni allai'r holl sefydliadau yr ymwelwyd â hwy ddarparu ar gyfer y gofynion a nodir uchod ar gyfer myfyrwyr, ac mewn llawer o achosion cyfwelwyd â grwpiau cymysg o fyfyrwyr ac mewn rhai achosion ni chafodd unrhyw fyfyrwyr nad oedd yn derbyn cymorth eu recriwtio i'r grwpiau ffocws. Ymhellach cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn ychwanegol gydag 11 o fyfyrwyr CiO gan na chymerodd unrhyw fyfyrwyr CiO ran yn ein grwpiau ffocws myfyrwyr mewn sefydliadau unigol. Cyfwelwyd â chyfanswm o 152 o fyfyrwyr - gyda 125

---

<sup>2</sup> Yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, Colegau Cymru, NUS Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Ymarferwyr Anabledd, Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Arian Myfyrwyr a Grŵp Swyddogion Cyllid Awdurdodau Lleol

<sup>3</sup> Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Glyndŵr

<sup>4</sup> Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Sir Benfro, Coleg Castell Nedd Port Talbot, Coleg Powys, Coleg Gŵyr a Choleg Merthyr

ohonynt wedi'u cefnogi drwy'r CAWG a'r 27 arall un ai wedi eu gwrthod neu'n dal i ddisgwyl canlyniad eu cais. Myfyrwyr Addysg Uwch oedd 32 o'r 152 hyn, 109 yn fyfyrwyr Addysg Bellach a'r 11 arall yn fyfyrwyr CiO;

- Cynnal cyfweiliadau ffôn gyda chynrychiolwyr pump o'r chwe Sefydliad Addysg Uwch arall<sup>5</sup> a'r deg Sefydliad Addysg Bellach arall<sup>6</sup>;
- Cynnal grŵp ffocws gyda chynrychiolwyr pump o'r chwe Chanolfan CiO;
- Cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg i gyfarfod o Grŵp Llywio'r Gwerthusiad ar 11 Rhagfyr;
- Drafftio'r adroddiad gwerthuso yma.

### 1.3 Strwythur yr Adroddiad

Yng ngweddill yr adroddiad hwn, nodwn gefndir y Cynlluniau CAWG (Pennod 2), cyn troi i drafod y rhesymeg a'r angen am CAWG yn y sector Addysg Uwch (Pennod 3), ymagwedd Sefydliadau Addysg Uwch at y Cynllun (Pennod 4) a'r defnydd o'r Cynllun ar draws y sector Addysg Uwch (Pennod 5). Rydym wedyn yn trafod defnyddio CAWG ar gyfer myfyrwyr GIG Addysg Uwch (Pennod 6), cyn canolbwyntio ar y rhesymeg a'r angen am CAWG yn y sector Addysg Bellach (Pennod 7). Mae Pennodau 8 a 9 yn ymchwilio ymagwedd Sefydliadau Addysg Bellach at y Cynllun CAWG a'r defnydd o CAWG ar draws y sector Addysg Bellach ac mae Pennod 10 yn canolbwyntio ar y defnydd o CAWG o fewn y sector CiO. Mae'r adroddiad wedyn yn canolbwyntio ar weinyddu'r Cynlluniau o fewn sefydliadau (Pennod 11) yn ogystal â chyllid a gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru (Pennod 12) cyn symud ymlaen i edrych ar effeithiau'r Cynlluniau CAWG (Pennod 13) a'i ddyfodol (Pennod 14). Yn olaf (ym Mhennod 15), cyflwynwn ein casgliadau ac argymhellion.

Mae Atodiadau 1 i 5 (a gyflwynir mewn dogfennau ar wahân yn yr iaith y cawsant eu defnyddio) yn cynnwys yr holiadur/canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd i gyfweled â Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch (Atodiad 1), rhanddeiliaid (Atodiad 2), Canolfannau CiO (Atodiad 3), myfyrwyr a dderbyniodd CAWG (Atodiad 4) a myfyrwyr a wnaeth geisiadau aflwyddiannus am CAWG (Atodiad 5). Mae'r canllawiau pwnc yn Atodiadau 1, 2 a 3 yn trafod:

- Y rhesymeg a'r angen am CAWG yn cynnwys ei ffit gyda darpariaeth cymorth arall sydd ar gael i fyfyrwyr;
- Sut y defnyddir CAWG a'r gwahaniaeth a gaiff ar gyfranogiad a chadw myfyrwyr;
- Gweithredu CAWG gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau unigol;

---

<sup>5</sup> Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (a gynhwyswyd mewn cyfweiliadau cwmpas), Y Brifysgol Agored a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

<sup>6</sup> Coleg Penybont, Coleg Sir Gâr, Coleg Ceredigion, Coleg Harlech WEA, Coleg Ystrad Mynach, Coleg Morgannwg, Coleg Pabyddol Dewi Sant, WEA De, Coleg Iâl a YMCA.

- Os yw CAWG yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn addas i'r diben;
- Cyfeiriad CAWG yn y dyfodol ac os dylai'r cynlluniau gael eu huno a/neu ddod yn statudol.

Mae'r canllawiau pwnc yn Atodiadau 4 a 5 yn cynnwys:

- Sut y clywodd myfyrwyr am CAWG a sut y gwnaethant gais amdano;
- Barn myfyrwyr am y broses gais;
- Pa wahaniaeth a wnaeth y cronfeydd i'r myfyrwyr a'i derbyniodd;
- Beth fyddai'r myfyrwyr a dderbyniodd gyllid wedi ei wneud hebdo;
- Y rhesymau pam na wnaethpwyd dyfarniad i ymgeiswyr aflwyddiannus;
- Yr hyn a wnaeth ymgeiswyr aflwyddiannus oherwydd absenoldeb y cyllid.



## 2. CEFNDIR CAWG

### 2.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon nodwn gefndir CAWG. Yn gyntaf ystyriwn ddiben CAWG yn cynnwys ei nodau ac amcanion ar gyfer Addysg Uwch a hefyd Addysg Bellach (Adran 2.2), yna amlinellwn sut y bwriedir defnyddio'r cronfeydd ar draws y sector Addysg Uwch (Adran 2.3) a'r sector Addysg Bellach (Adran 2.4) cyn troi i amlinellu model gweithredu cyffredinol y cynllun (Adran 2.5) a'r gwahanol grwpiau cynghori sy'n bodoli i gefnogi CAWG (Adran 2.6).

### 2.2 Nodau ac Amcanion

Bu CAWG ar gael ers 1991 i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. Nod y Gronfa yw rhoi help ariannol i fyfyrwyr y gallai eu mynediad i addysg bellach neu addysg uwch gael ei lesteirio gan ystyriaethau ariannol neu sy'n wynebu anawsterau ariannol yn ystod eu hastudiaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid CAWG yn flynyddol i sefydliadau unigol i'w gweinyddu i'w myfyrwyr ar sail ddewisol. Mae cyllid i sefydliadau ar gael drwy ddau gynllun ar wahân, sef y Cynllun Addysg Uwch a'r Cynllun Addysg Bellach, gyda gofynion pob cynllun yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol i'r ddau sector.

Mae amcanion eang CAWG fel y'u hamlinellwyd yng nghynllun Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd diweddar wedi parhau'n gyson, sef:

- Mewn gosodiadau Addysg Uwch, gweinyddir y gronfa ar gyfer diben sefydlu cyllid dewisol i'w defnyddio i roi cymorth ariannol i'r myfyrwyr hynny sydd angen help ychwanegol i dalu am gostau nad ydynt yn cael eu talu eisoes o ffynonellau eraill o gyllid; darparu taliadau argyfwng yng nghyswllt argyfyngau annisgwyl; a chynorthwyo mewn achosion lle gall myfyriwr fod yn ystyried gadael addysg uwch oherwydd problemau ariannol<sup>7</sup>.
- Mewn gosodiadau Addysg Bellach (yn cynnwys canolfannau Cymraeg i Oedolion), defnyddir y gronfa i roi help ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai eu mynediad i addysg bellach gael ei lesteirio gan ystyriaethau ariannol, neu sydd yn wynebu anawsterau ariannol am ba bynnag reswm, yn cynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall<sup>8</sup>.

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (Hydref 2012) *Financial Contingency Fund 2012/13 – Scheme (2012 No 37) Higher education institutions* Tudalen 1

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru (Hydref 2012) *Financial Contingency Fund 2012/13 – Scheme (2012 No.38) Further education institutions and Welsh for Adults Centres* Tudalen 1

## Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn

Gwnaed £9.1 miliwn ar gael drwy'r cynllun ar sail flynyddol ers 2010/11. Dyrannwyd £2.1 miliwn i Sefydliadau Addysg Uwch a dyrannwyd £7.0m i Sefydliadau Addysg Bellach ym mhob un o'r ychydig flynyddoedd diwethaf. Gostyngodd swm y cyllid a ddyrannwyd i Sefydliadau Addysg Uwch yn 2010/11 gan tua 60% o gymharu gyda blynyddoedd academaidd blaenorol oherwydd gwelliannau i ddarpariaeth statudol cyllid myfyrwyr - yn cynnwys cynnydd yn y grant cynhaliaeth oedd ar gael i fyfyrwyr Addysg Uwch (a gynyddwyd i £5,000), cynnydd yn y trothwy incwm uchaf ar gyfer aelwydydd ar gyfer myfyrwyr a ddaeth yn gymwys am y grant cynhaliaeth (a godwyd i £50,000) a chyflwyno cymorth dyled a arweiniodd at ganslo rhannol hyd at £1,500 o fenthyciad cynhaliaeth myfyrwyr. Bu swm y cyllid a ddyrannwyd i Sefydliadau Addysg Bellach yn fwy cyson dros tua'r degawd diwethaf, ar wahân i gwmp bychan yn ystod 2008/09 a 2005/06.

Tabl 1: Dyraniadau Blynyddol CAWG (£)

Blwyddyn Academaidd	Dyraniad Addysg Bellach	Dyraniad Addysg Uwch	Cyfanswm Dyraniad
2012/13	£2.1m	£7.0m	£9.1m
2011/12	£2.1m	£7.0m	£9.1m
2010/11	£2.1m	£7.0m	£9.1m
2009/10	£5.2m	£7.0m	£12.2m
2008/09	£4.8m	£6.5m	£11.3m
2007/08	£6.4m	£7.0m	£13.4m
2006/07	£5.1m	£7.0m	£12.1m
2005/06	£5.1m	£6.5m	£11.6m
2004/05	£5.0m	£7.0m	£12.0m
2003/04	£5.0m	£7.0m	£12.0m

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

Caiff cyllid i Sefydliadau Addysg Uwch ei gyfrif ar sail fformiwla'n gysylltiedig â niferoedd myfyrwyr yn ogystal â lefelau amddifadedd. Mae cyllid i Sefydliadau Addysg Bellach yn seiliedig ar hyn o bryd ar ddyraniadau hanesyddol flwyddyn-ar-flwyddyn yn hytrach na gweithredu fformiwla: mae diffyg eglurder am sail wreiddiol y dyraniad, a etifeddwyd gan y cyn ELWa<sup>9</sup> a methodd ceisiadau i ddatblygu fformiwla oherwydd pryderon am yr effeithiau niweidiol ar y Sefydliadau Addysg Bellach hynny a welai doriad mewn cyllid.

Mae'n werth nodi y neilltuwyd swm bychan o gyllid o fewn Cynllun CAWG Addysg Bellach i'w ddefnyddio gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion i gefnogi eu myfyrwyr. Mabwysiadwyd y dull gweithredu yma gyntaf yn ystod 2008/09 pan sefydlwyd chwe chanolfan CiO newydd, gyda phump ohonynt wedi eu seilio o fewn Sefydliadau Addysg Uwch ac un o fewn Sefydliad Addysg

<sup>9</sup> Roedd ELWa yn gorff cyhoeddus a noddwyd gan y Cynulliad yn gyfrifol am ddysgu ôl-16 yng Nghymru rhwng 2000 a 2006.

Bellach.

### 2.3 CAWG o fewn Addysg Uwch

Dengys adolygiad o gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Uwch fod cynlluniau CAWG ar hyn o bryd yn bwriadu cefnogi rhai grwpiau blaenoriaeth (ac mae'r grwpiau hyn yn amrywio ychydig rhwng sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch). Yn y sector Addysg Uwch, mae'r cynllun yn anelu i roi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n fwy tebygol o fod dan bwysau ariannol er y gall sefydliadau ychwanegu at y rhestr os teimlant fod hynny'n addas. Y grwpiau blaenoriaeth presennol, ond nid yr unig rai, yw:

- Myfyrwyr gyda phlant;
- Myfyrwyr gydag ymrwymadau ariannol hanfodol;
- Myfyrwyr anabl;
- Rhai sy'n gadael gofal;
- Myfyrwyr blwyddyn olaf mewn anhawster ariannol, yn cynnwys rhai sy'n methu gwneud gwaith ar dâl oherwydd pwysau academiaidd;
- Preswylwyr llety foyer a myfyrwyr digartref arall;
- Myfyrwyr sy'n anghymwys am gymorth dan Reoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad a Benthyciadau (Addysg Uwch) (Cymru) 2011 neu dan gynllun cymorth myfyrwyr cyfwerth a ariannir gan y llywodraeth neu ddeddfwriaeth.

Mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011/12 a 2012/13 yn nodi rhai meini prawf sylfaenol ar gymhwyster ar gyfer defnyddio cyllid CAWG sydd, ar gyfer y sector Addysg Uwch, yn cynnwys:

- Caledi ariannol yn gysylltiedig gyda chostau byw cymwys myfyrwyr;
- Costau rhesymol gan fyfyrwyr anabl cymwys a myfyrwyr cymwys gyda dibynyddion anabl yng nghyswllt profion diagnostig rhagarweiniol neu offer na ddaw o fewn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl;
- Costau cwrs megis gofal plant, teithio, llyfrau ac ymweliadau maes ond nid ffioedd hyfforddi myfyrwyr (heblaw am fyfyrwyr rhan-amser cymwys ar incwm isel y mae eu cymorth ffi arall yn annigonol i dalu am ffioedd hyfforddiant llawn);
- Costau eithriadol megis atgyweiriadau i offer hanfodol aelwydydd, sefyllfaoedd argyfwng a chymorth gyda dyledion blaenoriaeth;
- Costau byw megis rhent, taliadau morgais, bwyd, biliau cyfleustod yn ogystal â dillad a golchi dillad;
- Costau cwrs a ffioedd hyfforddiant ar gyfer modiwlau blasu israddedigion.

Mae'r cynllun hefyd yn dweud y bernir fod myfyrwyr mewn gosodiadau Addysg Uwch yn gymwys os ydynt yn ddinasyddion y Deyrnas Unedig neu fel arfer yn breswyl o fewn y Deyrnas Unedig<sup>10</sup> ac un ai'n fyfyrwr israddedig, ôlraddedig neu addysg bellach llawn-amser neu ran-amser. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ychwaith ar iddynt wneud cais fwy nag unwaith yn ystod unrhyw un flwyddyn academaidd.

Dim ond mân newidiadau a wnaed i gylchlythyrau cynllun CAWG Addysg Bellach rhwng 2011/12 a 2012/13, yn arbennig symud y gofyniad i fyfyrwyr fod yn astudio am o leiaf 50% o'u hamser. Gwnaed newidiadau sylweddol i'r nodiadau canllaw mewn blynyddoedd blaenorol - er enghraifft dywedodd canllawiau blaenorol (fel y rhai ar gyfer 2010/11) fod yr uchafswm dyfarniad CAWG i unrhyw un myfyriwr wedi'i osod ar £3,500 (nid oes unrhyw uchafswm ar hyn o bryd) ac roedd y canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn llawer mwy cynhwysfawr.

#### **2.4 CAWG o fewn Addysg Bellach a Chymraeg i Oedolion**

Y grwpiau myfyrwyr blaenoriaeth a ddynodwyd ar gyfer y sector Addysg Bellach yng nghynllun Llywodraeth Cymru yw:

- Myfyrwyr sydd angen help gyda chostau gofal plant, yn arbennig rieni unigol;
- Myfyrwyr sy'n cyrraedd 20 oed cyn iddynt gwblhau eu lefelau A neu gyrsiau eraill Addysg Bellach ac sy'n wynebu anawsterau ariannol neilltuol oherwydd y bydd eu teuluoedd yn peidio derbyn budd-dal plant ac ychwanegiadau dibynyddion mewn budd-daliadau credydau treth nawdd cymdeithasol ar gyfer y myfyrwyr hyn ar ôl eu 20fed pen-blwydd;
- Myfyrwyr a fu mewn gofal, ar brawf neu a gaiff eu hystyried fel arall i fod mewn risg;
- Myfyrwyr ar incwm isel neu o deuluoedd incwm isel, yn cynnwys dysgwyr ifanc nad ydynt yn gymwys am gymhorthdal incwm, pobl ddi-waith yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith a'r rhai sy'n derbyn budd-dal gwladol y mae prawf modd arno megis y Credyd Treth Gwaith a'u dibynyddion digyflog;
- Myfyriwr o Ardal Gynnyrch Ehangach gyda lefel o amddifadedd addysgol uwchben trothwy penodol<sup>11</sup>.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi fod CAWG mewn sefyllfa dda i wasanaethu'r myfyrwyr hynny sydd ar 'ymyl dibyn' cyllid h.y. ychydig iawn y tu allan i'r meini prawf cymhwyster ar gyfer Grant

---

<sup>10</sup> Gan nad oes unrhyw gyfyngiadau ar eu harhosiad neu a fu'n breswyl yn y Deyrnas Unedig am dair blynedd yn union cyn dechrau eu cwrs. Mae hefyd yn cynnwys ffoaduriaid a rhai a gafodd ganiatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros yn y Deyrnas Unedig.

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru (Hydref 2012) *Financial Contingency Fund 2012/13 – Scheme (2012 No.38) Further education institutions and Welsh for Adults Centres* Tudalen 1

Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) neu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ond sydd serch hynny yn ei chael yn anodd yn ariannol. Fel gydag CAWG Addysg Uwch, gall sefydliadau ychwanegu at y rhestr hon os teimlant ei bod yn addas gwneud hynny.

Bu canllawiau Addysg Bellach mewn blynyddoedd blaenorol rywfaint yn llai eglur na'r canllawiau ar gyfer Addysg Uwch am yr hyn y gellir ei ariannu. Fodd bynnag mae cynllun 2012/13 yn fwy eglur wrth nodi y gellir defnyddio'r gronfa i helpu myfyrwyr i dalu am gostau cysylltiedig â chwrs (megis gofal plant, teithio, llyfrau, ymweliadau maes, ffioedd megis ffioedd arholiadau a chofrestru yn ogystal â chostau offer a deunyddiau yr ystyrir eu bod yn hanfodol ar gyfer eu cwrs) yn ogystal â chyfeirio at gostau yn deillio o anabledau am y tro cyntaf. Yn draddodiadol bu'n fwy eglur am yr hyn na all CAWG ei gefnogi ac mae'r cylchlythyrau blynyddol ar gyfer 2011/12 a 2012/13 yn dweud na ellir defnyddio CAWG i gefnogi:

- Cynlluniau hawl prawf modd megis cynlluniau bwrsariaeth;
- Myfyrwyr sy'n dod o fewn band incwm neilltuol heb ystyried angen y myfyrwyr unigol hynny;
- Cyfleusterau grŵp neu gymunol, neu i wneud addasiadau i adeiladau (er y gall Sefydliadau Addysg Bellach ddefnyddio'r Gronfa i ddarparu gwasanaethau cludiant a gaiff eu caffael ar sail grynsyth ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw bwrcasau cyfalaf);
- Dirwyon ac ernesau;
- Ffioedd dysgu (heblaw ar gyfer myfyrwyr rhan-amser Addysg Uwch sy'n gwneud modiwlau blasu a myfyrwyr Addysg Bellach sy'n gwneud modiwlau blasu o lai na 12 credyd).

Yn yr un modd ag Addysg Uwch, bernir bod myfyrwyr Addysg Bellach yn gymwys am CAWG os ydynt fel arfer yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig. Nid yw eraill, yn cynnwys myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd, yn gymwys fel arfer am gymorth os nad ydynt yn dod i gategoriâu penodol eraill<sup>12</sup>. Mae myfyrwyr yn gymwys os ydynt yn un ai'n fyfyrwyr Addysg Bellach 16 oed a throsodd ac yn dilyn cyrsiau llawn-amser neu ran-amser neu fyfyrwyr Addysg Uwch sy'n dilyn cyrsiau llawn-amser neu ran-amser nad ydynt yn dod o fewn cwmpas Addysg Uwch CAWG.

Mae'r cynllun Addysg Bellach hefyd yn dweud na ddylai sefydliadau ddefnyddio CAWG roi cymhelliant i ddenu dysgwyr o sefydliadau eraill cyfagos ac yn rhoi llyw clir mai dim ond os yw popeth arall wedi methu ac y dylai cyllid o ffynonellau eraill o gymorth ariannol i fyfyrwyr megis y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad Addysg Bellach, yn ogystal â

---

<sup>12</sup> Yn cynnwys ffoaduriaid ac aelodau eu teulu, pobl gyda chaniatâd i ddod i mewn neu aros ac aelodau eu teulu, gweithwyr mudol Ardal Economaidd Ewrop a'u teuluoedd a dinasyddion eraill yr Undeb Ewropeaidd a fu fel arfer yn breswyl yn y Deyrnas Unedig am y tair blynedd flaenorol.

chefnogaeth ariannol fwy generig megis credydau treth a buddion nawdd cymdeithasol, gael eu hystyried cyn gwneud cais i'r CAWG.

Gwnaed rhai newidiadau i gynllun Addysg Bellach CAWG dros gyfnod - gydag ymestyn cyllid i fyfyrwyr rhan-amser yn ystod 2007/08 a chyflwyno cyllid wedi ei neilltuo ar gyfer Canolfannau CiO y newidiadau amlycaf.

## **2.5 Gweithredu a Rheoli'r Cynllun**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid CAWG i sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru. Rhoddir manylion y cynllun anstatudol yn flynyddol i'r sefydliadau sy'n derbyn CAWG.

Dan delerau'r cynllun bernir mai pennaeth pob Sefydliad Addysg Bellach neu Sefydliad Addysg Uwch yw'r swyddog cyfrifeg ac mae'n atebol am gynghori corff llywodraethu ei sefydliad ei hun am ei gyfrifoldebau i gyflenwi'r cyllid yn unol â'r telerau ac amodau polisi a amlinellir yn y cynllun. Maent yn gyfrifol am roi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli'r cynlluniau CAWG (ymchwilir ym Mhenodau 4 a 8). Ychydig iawn mae'r cynlluniau'n ei nodi yn nhermau'r hyn a ddisgwylir gan sefydliadau yn y cyswllt yma.

Fel arfer mae cyllid ar gael ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd ac mae'n ofynnol i bob sefydliad weithredu cyfrif ar wahân sy'n talu llogau y mae Llywodraeth Cymru'n gwneud taliad iddo. Caiff unrhyw logau a geir eu cadw gan y sefydliad fel rhan o'i gyllid CAWG. Gall sefydliadau gario swm bychan o unrhyw gyllid a llogau (dim mwy na 10%) na chafodd eu gwario i'r flwyddyn academiaidd ddilynol a gallant ddefnyddio cyfran fach (hyd at 3% neu £525, pa bynnag sydd fwyaf) i weinyddu a rhoi cyhoedduswydd i'r cynllun.

Gellir gwneud taliadau CAWG i fyfyrwyr fel grantiau neu fenthyciadau tymor byr; ac yn achos Addysg Bellach yn unig, fel bwrsariaethau. Yn y sector Addysg Uwch, gellir dyfarnu benthyciadau tymor byr fel benthyciad argyfwng lle cafodd taliad benthyciad myfyriwr cyntaf yr unigolyn ei ohirio tu hwnt i ddechrau'r tymor, ac argymhellir na ddylai benthyciad CAWG fod yn fwy na phedair wythnos o daliad benthyciad myfyriwr. Gall Sefydliadau Addysg Uwch hefyd neilltuo 10% o'u CAWG i ddarparu bwrsariaethau ar gyfer myfyriwr.

Yn gyffredinol, mae cynllun Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais cryf ar:

- weinyddu cyllid i fyfyrwyr yn ôl angen;
- bod â pholisïau ysgrifenedig yn nodi trefniadau gweithredol ar gyfer dyfarnu cyllid ac ar

gyfer delio gydag apeliadau;

- peidio talu i'r myfyriwr nes bod y myfyriwr wedi dechrau eu cwrs (er y gellir cytuno ar daliadau mewn egwyddor cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd);
- peidio ymrwymo unrhyw ddyfarniadau blwyddyn ar flwyddyn i fyfyrwyr;
- prosesu ceisiadau o fewn cyfnod rhesymol (gyda sôn am dair wythnos fel bod yn dderbyniol i'r sector Addysg Bellach ond ni awgrymwyd amserlen ar gyfer y sector Addysg Uwch);
- gallu gwneud taliad yn uniongyrchol i'r myfyriwr, neu drydydd parti ar gyfer darpariaeth gwasanaethau;
- ystyried cynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr yn y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer dyfarnu cyllid (Addysg Uwch yn unig).

Disgwylir i bob sefydliad roi adroddiad yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut y defnyddiwyd CAWG, gyda disgwyl i Sefydliadau Addysg Uwch roi adroddiad ar y flwyddyn academiaidd flaenorol yn ystod mis Ionawr a Sefydliadau Addysg Bellach yn ystod mis Rhagfyr.

## **2.6 Grwpiau Cyngori a Rhwydweithiau CAWG**

Bu dau grŵp cyngori yn goruchwyllo gweithrediad CAWG ar draws sefydliadau, sef Grŵp Cyngori CAWG Addysg Uwch a Grŵp Cyngori CAWG Addysg Bellach. Mae'r ddau grŵp (a drafodir yn fanwl yn 2.6.1 a 2.6.2) yn rhannu'r un cylch gorchwyl a chawsant eu sefydlu i argymhell a rhannu arfer gorau ymysg y rhai sy'n dosbarthu cyllid i fyfyrwyr.

Yn ogystal â'r grwpiau cyngori hyn, mae dau rwydwaith 'anffurfiol' arall sy'n deillio o'r sector ei hun - un yw'r Rhwydwaith Addysg Bellach (a sefydlwyd cyn Grŵp Cyngori CAWG Addysg Bellach ac a fynychir gan reolwyr cymorth myfyrwyr neu ddysgwyr Addysg Bellach) a'r llall yw'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen CAWG Cymraeg i Oedolion (a gyfarfu am y tro cyntaf yn ystod mis Rhagfyr 2012 yn bennaf mewn ymateb i adolygiad Llywodraeth Cymru o CAWG).

### **2.6.1 Grŵp Cyngori CAWG Addysg Uwch**

Dengys y cofnodion o gyfarfodydd Grŵp Cyngori Addysg Bellach iddo gael ei fynychu gan gynrychiolwyr Uned Addysg Uwch ac Adran Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Cymru yn ogystal â chynrychiolwyr o bum prifysgol yng Nghymru. Mae'r cofnodion a adolygwyd yn dangos fod ffocws y cyfarfodydd yn cynnwys datblygu ac adolygu cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp, trafod newidiadau posibl i gynllun CAWG Addysg Uwch a materion perthnasol i'r gwerthusiad yma. Cytunodd y grŵp hefyd ymestyn gwahoddiad i'r NUS i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

### *2.6.2 Grŵp Cyngori CAWG Addysg Bellach*

Yn yr un modd â Grŵp Cyngori CAWG Addysg Bellach, mae cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn mynychu Grŵp Cyngori Addysg Bellach yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Sefydliadau Addysg Bellach a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion (CiO). Mae'r grŵp yn cwrdd yn ddeufisol a dengys adolygiad o gofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2011 a Mai 2012 fod pum Sefydliad Addysg Bellach ac un Ganolfan CiO yn mynychu fel arfer. Dechreuodd cynrychiolydd NUS Cymru hefyd fynychu yn dilyn gwahoddiad gan y grŵp. Yn yr un modd â Grŵp Cyngori CAWG Addysg Uwch, mae Grŵp Cyngori Addysg Bellach wedi trafod y materion y dylai'r gwerthusiad hwn eu hystyried a'u hymchwilio.

O ddiddordeb neilltuol i'r gwerthusiad hwn fu'r drafodaeth ac adborth ar ddatblygu Canllawiau Arfer Da gan y Rhwydwaith Addysg Bellach fyddai'n cynnwys safoni elfennau o CAWG megis y ffurflenni cais a ddefnyddir gan sefydliadau, mabwysiadu meini prawf asesu cyffredin a throthwyon incwm cyffredin ar gyfer myfyrwyr cymwys y gallai sefydliadau eu defnyddio ar gyfer 2013/14. Mae cofnodion o gyfarfod Mai 2012 yn awgrymu y byddai'r Canllawiau Arfer Da yn cael eu cwblhau yn ystod dechrau hydref 2012 ond deallwn ei fod yn dal i fod ar ffurf drafft.

Yn ein barn ni mae'r grwpiau hyn wedi canolbwyntio ar faterion perthnasol i'r sector ac wedi gweithredu fel cyfrwng effeithlon i'r sector ymgysylltu'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru. Canmolir y cynnydd a wnaed gan y grŵp Addysg Bellach yn neilltuol i ddatblygu canllaw arfer da ar gyfer y sector. Er y gwahoddwyd pob Sefydliad Addysg Bellach a Sefydliad Addysg Uwch i enwebu cynrychiolydd i fynychu'r grwpiau hyn, gallai aelodaeth y ddau grŵp yma fod wedi bod yn gryfach er mwyn galluogi mwy o gyfraniad gan nifer fwy o sefydliadau.



### **3. Y RHESYMEG A'R ANGEN AM CAWG ADDYSG UWCH**

#### **3.1 Cyflwyniad**

Rydym yn troi'n awr at ganfyddiadau ein hymchwil ar draws y sector Addysg Uwch, gan ddefnyddio ein hymchwil desg yn ogystal â'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid, sefydliadau academaidd a myfyrwyr.

Yn y bennod yma, edrychwn ar y rhesymeg am CAWG o fewn y sector Addysg Uwch. Yn gyntaf cyflwynwn drosolwg o gymorth statudol a dewisol i fyfyrwyr yng Nghymru (Adran 3.2) cyn ystyried, ar sail ein hadolygiad desg, i ba raddau y mae CAWG yn ffitio o fewn y cyd-destun yma (Adran 3.3). Wedyn (yn Adran 3.4) ymchwiliwn ganfyddiadau'r cyfweleion o'r 'ffit' yma a'r rhesymeg sylfaenol a'r angen am y gronfa (Adran 3.5).

#### **3.2 Ffit gyda chymorth statudol a dewisol i fyfyrwyr**

Mae strwythur cyllid myfyrwyr Addysg Uwch yng Nghymru yn gymhleth ac mae wedi newid yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn yr adran yma rydym yn crynhoi'r cyllid presennol sydd ar gael i fyfyrwyr ar draws addysg uwch.

##### *3.2.1 Grant Ffioedd Dysgu*

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru strwythur grant ffi newydd ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n dewis astudio un ai yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban o 2012/13 ymlaen. Fe'i cyflwynwyd mewn ymateb i benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i alluogi prifysgolion Lloegr i godi hyd at uchafswm o £9,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau addysg uwch llawn-amser. O fis Medi 2012, gall myfyrwyr cymwys o Gymru sy'n mynychu cyrsiau llawn-amser yn unrhyw brifysgol neu goleg yn y Deyrnas Unedig gael mynediad i fenthyciad ffi dysgu heb brawf modd o hyd at £3,465 (£3,575 o fis Medi 2013) a grant ffi dysgu heb brawf modd i lanw'r gwahaniaeth rhwng yr uchafswm benthyciad ffi dysgu sydd ar gael a'r ffi dysgu a godir gan y brifysgol. Mae uchafswm grant o £5,535 (£5,425 o fis Medi 2013) os yw'r brifysgol yn codi'r uchafswm ffi dysgu o £9,000. Gall myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs rhwng 2006/07 a 2009/10 barhau i gael mynediad i Grant Ffioedd Dysgu o hyd at £2,085 i helpu talu am unrhyw swm o ffioedd dysgu dros £1,380 y mae prifysgol neu goleg yn ei godi yn ogystal â Benthyciad Ffioedd Dysgu i dalu am y £1,380 cyntaf o ffioedd dysgu a godir. Nid yw myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs un ai yn 2010/11 neu 2011/12 yn gymwys am Grant Ffioedd Dysgu.

### 3.2.2 Benthyciadau Ad-daladwy Myfyrwyr

Gall myfyrwyr gael mynediad i fenthyciad ad-daladwy myfyrwyr ar gyfer ffioedd dysgu a/neu tuag at gostau byw tra byddant yn astudio. Gall myfyrwyr gael mynediad i'r benthyciadau neu grantiau dilynol drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru (sefydliad partneriaeth sy'n darparu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr Cymru). Yn y ddau achos mae awdurdodau lleol Cymru yn gyfrifol am asesu cymhwyster myfyrwyr ac mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gwneud taliadau ar ran Llywodraeth Cymru:

- Benthyciad Ffioedd Dysgu: Benthyciad ad-daladwy o hyd at £3,465 i dalu am gostau Ffioedd Dysgu. Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn talu'r ffioedd yn uniongyrchol i brifysgol neu goleg.
- Benthyciad Cynhaliath (costau byw): Benthyciad ad-daladwy i helpu myfyrwyr i dalu am gostau byw megis llety, bwyd, dillad, teithio a chostau byw eraill. Mae'n rhaid i fyfyrwyr cymwys fod dan 60 oed ar ddechrau eu cwrs. Gosodwyd uchafswm cyfraddau ar gyfer benthyciadau cynhaliath sydd tua £6,648 yn 2012/13 ar gyfer myfyrwyr sy'n byw ymaith o gartref eu rhieni ac yn astudio yn Llundain, £4,745 ar gyfer myfyrwyr sy'n byw ymaith o gartref eu rhieni ac yn astudio mewn man arall a £3,673 ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng nghartref eu rhieni. Mae'r cyfraddau yn is ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf.

### 3.2.3 Grantiau heb fod yn ad-daladwy ar gyfer myfyrwyr llawn-amser

Gall myfyrwyr llawn-amser newydd a phresennol gael mynediad i dri phrif fath o grant heb fod yn ad-daladwy os ydynt yn gymwys am gymorth - mae cymhwyster yn dibynnu ar incwm aelwyd y myfyrwyr. Y tri grant sydd ar gael i fyfyrwyr yw:

- Grant Dysgu'r Cynulliad (y cyfeirir ato'n aml fel grant cynhaliath neu grant costau byw). Uchafswm y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a ddechreuodd eu cwrs un ai yn 2012/13 neu 2011/12 yw £5,000 y flwyddyn gyda'r swm a roddir yn dibynnu ar incwm aelwyd y myfyrwyr. Gall myfyrwyr o aelwydydd gydag incwm o £18,370 neu lai dderbyn y grant llawn o £5,000 ac nid yw rhai o aelwydydd gydag incwm o dros £50,020 yn derbyn unrhyw gyllid grant. Mae myfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs yn 2009/10 neu'n gynharach yn gymwys am uchafswm grant cynhaliath o £2,960;
- Grant Cymorth Arbennig: Cyflwynwyd y grant yma yn lle Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer myfyrwyr llawn-amser a all fod yn gallu hawlio rhai budd-daliadau cysylltiedig ag incwm. Ni all myfyrwyr dderbyn Grant Dysgu'r Cynulliad yn ogystal â'r Grant Cymorth Arbennig. Mae myfyrwyr sydd fel arfer yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn cynnwys rhieni unigol, myfyrwyr anabl, rhai sy'n analluog am waith am o leiaf 28 wythnos neu sydd yn 60 oed neu drosodd. Mae swm y cymorth yr un faint ag sydd ar gael drwy Grant Dysgu'r

Cynulliad.

- Cynllun Bwrsariaeth Cymru: Mae bwrsariaethau yn help ariannol ychwanegol sydd ar gael gan brifysgol neu goleg yng Nghymru y gall myfyrwyr gael mynediad iddo os ydynt yn talu'r ffi dysgu llawn o £3,465 a hefyd yn derbyn y swm llawn o Grant Dysgu'r Cynulliad neu'r Grant Cymorth Arbennig. Yr uchafswm sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd hon (2012/13) yw £347 a dim ond i fyfyrwyr sy'n parhau y mae ar gael.

#### *3.2.4 Grantiau heb fod yn ad-daladwy i fyfyrwyr rhan-amser*

- Gall myfyrwyr rhan-amser gael mynediad i Grant Ffioedd Dysgu heb fod yn ad-daladwy o hyd at £1,025 i dalu am gostau ffioedd a godir gan eu sefydliad addysg a thalir hyn yn uniongyrchol i'r sefydliad. Mae'r swm y mae myfyrwyr yn ei dderbyn yn dibynnu ar incwm eu haelwyd a'r math o gwrs. Nid yw myfyrwyr sydd eisoes â gradd anrhydedd yn derbyn cymorth fel arfer.
- Grantiau Cwrs: Mae grantiau cwrs o hyd at £1,155 ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yn dibynnu ar incwm eu haelwyd. Gall myfyrwyr o aelwydydd gydag incwm o hyd at £26,095 fel arfer gael mynediad i'r grant cwrs llawn ac ni all rhai gan aelwydydd gydag incwm dros £28,181 gael mynediad i'r gronfa. Caiff y grant ei dalu'n uniongyrchol i'r myfyrwyr mewn un cyfandaliad.

#### *3.2.5 Grant Gofal Plant*

Mae grant gofal plant ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser gyda phlant dibynnol dan 16 oed (17 oed os yw eu plentyn wedi cofrestru fel bod ag anghenion addysgol arbennig) a bod y plant hynny mewn gofal plant hynny mewn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Mae'r Grant Gofal Plant yn talu am 85% o gyfanswm costau gofal plant myfyrwyr yn ystod y tymor a hefyd yn y gwyliau, ac mae'r swm sydd ar gael yn dibynnu ar incwm pob aelwyd ac (ar gyfer myfyrwyr rhan-amser) y math o gwrs. Gall myfyrwyr llawn-amser dderbyn hyd at £161.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu hyd at £274.55 yr wythnos ar gyfer mwy nag un plentyn. Gall myfyrwyr rhan-amser dderbyn hyd at £206 yr wythnos os oes ganddynt ddau blentyn ac yn astudio 75% neu fwy o'r cwrs llawn-amser cyfwerth. Fel arfer talir grantiau mewn tri rhandaliad yn uniongyrchol i'r myfyrwr.

#### *3.2.6 Lwfans Dysgu i Rieni*

Mae'r Lwfans Dysgu i Rieni ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser gyda phlant dibynnol i helpu gyda chostau cysylltiedig â chwrs. Mae'r swm sydd ar gael yn dibynnu ar incwm aelwyd y myfyrwyr ac (i fyfyrwyr rhan-amser) y math o gwrs a astudir. Gall myfyrwyr llawn-amser dderbyn hyd at £1,508 y flwyddyn tra gall myfyrwyr rhan-amser gael mynediad i hyd at £1,131 y flwyddyn

os ydynt yn astudio 75% neu fwy o'r cwrs llawn-amser cyfwerth. Caiff grantiau eu talu mewn tri rhan-daliad yn uniongyrchol i'r myfyriwr.

### *3.2.7 Grant Oedolion Dibynnol*

Mae'r grant hwn ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser gydag oedolyn sy'n aelod o'u teulu, heblaw oedolyn sy'n blentyn iddynt, sy'n dibynnu arnynt yn ariannol. Yn amodol ar incwm eu haelwyd mae uchafswm grant o £2,647 ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a £1,985 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (sy'n amrywio yn ôl math y cwrs rhan-amser a astudir). Caiff y grant yma ei dalu'n uniongyrchol i fyfyrwyr mewn tri rhandaliad.

### *3.2.8 Lwfans i Fyfyrwyr Anabl*

Mae'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ar gael i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser i helpu talu am gostau ychwanegol a all fod ganddynt yng nghyswllt eu cwrs fel canlyniad uniongyrchol i anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Gall myfyrwyr gael mynediad i lwfans ar gyfer offer arbenigol (o hyd at £5,166 ar gyfer y cwrs llawn), lwfans cymhorthwyr heb fod yn feddygol (o hyd at £20,520 y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr llawn-amser a £15,390 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser) a lwfans cyffredinol (o hyd at £1,729 y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr llawn-amser a £1,296 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser). Nid oes prawf modd ar y lwfansau hyn gan na roddir ystyriaeth i incwm y myfyriwr neu'r aelwyd pan ddyfernir y cyllid.

### *3.2.9 Cyllid Dewisol*

Mae llawer o Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnig cronfeydd dewisol. Roedd enghreifftiau o hynny a welwyd yn ystod ein gwaith maes yn cynnwys:

- Cronfeydd rhanbarthol megis Ymddiriedolaeth Addysg Thomas Howell sy'n darparu grant heb brawf modd o rhwng £100 a £500 i fyfyrwyr is-raddedig blwyddyn gyntaf dan 25 oed ac sy'n breswyl yng Ngogledd Cymru;
- Ysgoloriaethau/bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i fyfyrwyr sy'n dilyn rhan neu'r cyfan o'r cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- Ysgoloriaethau Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am hyd at £1,000 y flwyddyn ar gyfer unigolion sy'n astudio eu gradd drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cronfeydd Ehangu Cyfranogiad Sefydliadau Addysg Uwch a weinyddir gan nifer o Sefydliadau Addysg Uwch i ddarparu grantiau a/neu fwrsariaethau i fyfyrwyr israddedig ac ôlraddedig o gymunedau mwy difreintiedig, yn ogystal â myfyrwyr sy'n gadael gofal neu sy'n ddigartref;

- Bwrsariaethau Prifysgol<sup>13</sup> sydd ar gael i fyfyrwyr llawn-amser o aelwydydd incwm isel;
- Bwrsariaethau Dechreuol i rai sy'n gadael gofal a foyer yn ystod eu blwyddyn gyntaf o astudio;
- Cronfeydd Caledi, yn cynnwys Cronfeydd Alumni, ar gyfer grwpiau neu ddibenion penodol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:
  - Cronfa Aberystwyth sydd ar gael i bob myfyriwr, p'un ai'n rhan-amser neu llawn-amser, yn breswyl yn y Deyrnas Unedig neu dramor, ar anawsterau ariannol yn gysylltiedig ag argyfyngau;
  - Cronfa Prifysgol Bangor i gefnogi myfyrwyr blwyddyn olaf mewn caledi ariannol;
  - y Gronfa Amgylchiadau Eithriadol ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant i helpu myfyrwyr rhyngwladol gyda chostau ariannol annisgwyl;
- Dyfarniadau Rhagoriaeth Academaidd a ddyfernir i'r myfyrwyr llawn-amser cyflawniad uchaf sy'n mynd i brifysgolion, yn seileidig ar eu sgôr tariff UCAS;
- Cronfa galedi Undebau Myfyrwyr sy'n darparu symiau bach a thymor byr o gymorth ariannol i fyfyrwyr sydd mewn caledi ariannol;
- Bwrsariaethau dilyniant Addysg Bellach/Addysg Uwch i fyfyrwyr sy'n symud ymlaen o Addysg Bellach i Addysg Uwch.

### 3.3 Ffit CAWG gyda chymorth statudol a dewisol

Mae ein hadolygiad desg o gymorth ariannol statudol a dewisol i fyfyrwyr Addysg Uwch ac adborth o'n gwaith maes yn awgrymu fod CAWG i raddau helaeth yn ategu darpariaethau o'r fath. Yn neilltuol:

- Caiff y swm o gyllid y gall myfyrwyr gael mynediad iddo o becynnau cymorth ariannol ei asesu fel arfer gan incwm trethadwy eu haelwyd cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs, ond efallai nad yw hyn bob amser yn rhoi darlun cywir o wir lefel incwm y myfyriwr yn ystod eu cyfnod astudiaeth, yn neilltuol os nad ydynt yn cael unrhyw gyfraniad gan eu rhieni. Dywedodd rhai a gyfwelwyd fod y cynllun CAWG yn canolbwyntio ar sefyllfa uniongyrchol y myfyriwr: 'mae'n delio gyda pethau fel y maent yn awr - nid yw'n cael ei gyfrif ymlaen llaw';
- Mae dulliau eraill o gymorth ariannol ar gael fel arfer ar ddechrau'r flwyddyn neu dymor academaidd ac felly ni ellir disgwyl eu bod yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wariant annisgwyl neu newid yn amgylchiadau myfyrwyr, yn wahanol i CAWG sydd â'r hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer y materion hyn. Dywedodd rhai fod CAWG yn seiliedig ar angen ariannol gan y rhoddir ystyriaeth i wir wariant y myfyriwr o gymharu â'u hincwm - os yw cyfrifiad myfyriwr yn dangos gwarged, yna nid oes cyllid CAWG ar gael fel arfer: 'mae'n

---

<sup>13</sup> Megis Prifysgolion Y Drindod Dewi Sant, Aberystwyth a Bangor

gronfa dda iawn am allu edrych ar amgylchiadau unigol. .... mae'n ein galluogi i edrych ar amgylchiadau unigolyn ar bwynt penodol' ac fel canlyniad dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd 'mae llai o gyllid ar yr amser cywir yn fwy effeithlon na mwy o gyllid ymlaen llaw';

- Heblaw'r Cynllun Bwrsariaeth Addysg Uwch, caiff cyllid statudol i fyfyrwyr ei weinyddu gan un ai Cyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr neu awdurdodau lleol - ar y llaw arall caiff CAWG ei weinyddu'n lleol gan sefydliadau ac, mewn egwyddor felly, dylai fod yn rhwyddach i fyfyrwyr gael mynediad iddo ac mae'n cyd-fynd yn well gydag amgylchiadau lleol. Dywedodd cyfweleion fod CAWG yn cynnig hyblygrwydd mawr i gefnogi myfyrwyr mewn ffyrdd nad yw darpariaeth statudol yn ei wneud - y brif enghraifft yw gallu cefnogi myfyrwyr Addysg Uwch sy'n hwyr yn derbyn taliadau gan Cyllid Myfyrwyr Cymru (am amrywiaeth o resymau);
- Dywedodd nifer o'r gyfweleion sy'n gweithio mewn Sefydliadau Addysg Uwch hefyd mai un o gryfderau allweddol CAWG yw fod ganddo ymagwedd holistig at amgylchiadau myfyrwyr Addysg Uwch nad yw'n wir gyda mathau eraill o gymorth sydd ar gael drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru neu Awdurdodau Lleol;
- Dywedwyd yr ystyrir CAWG yn opsiwn os yw popeth arall wedi methu ar gyfer myfyrwyr sy'n gorfod dangos eu bod wedi dihybyddu pob dull arall o gymorth, yn cynnwys darpariaeth statudol, cronfeydd dewisol eraill, yn ogystal â chyfleusterau gorddrafft banc ac incwm o waith rhan-amser;
- Dywedodd nifer fach o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch eu bod wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o gyllid CAWG ar gyfer cefnogi anghenion myfyrwyr anabl gan fod y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, a gyflwynwyd yn 2003, fel arfer yn ddigon ar gyfer y costau yn gysylltiedig gyda'u hanghenion;
- Mae mwyafrif Sefydliadau Addysg Uwch sy'n defnyddio cronfeydd CAWG Addysg Uwch i ddarparu'r cyfraniad 15% gofal plant sydd ei angen gan y myfyrwyr hynny sy'n derbyn Grant Gofal Plant Myfyrwyr os gallant gyflawni canllawiau cymhwyster y Cynllun. Credai'r rhan fwyaf o gyfweleion ei bod yn briodol defnyddio CAWG yn y ffordd yma.

Fodd bynnag tynnodd ein hadolygiad desg a'n gwaith maes sylw at rai meysydd o aliniad gwael:

- Ymddengys fod darpariaeth dda ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch gydag anghenion ychwanegol yn nhermau gofal plant, anabledau a dibynyddion drwy ddarpariaeth statudol er y gellir defnyddio cynllun CAWG Addysg Uwch i dalu am y costau hyn;
- Ymddengys fod y cymorth sydd eisoes ar gael i fyfyrwyr yn darparu'n gyffredinol dda ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch llawn-amser o aelwydydd incwm isel, gan awgrymu cyn belled â'u bod yn rheoli eu cyllid yn effeithlon ac nad ydynt yn gorfod talu am unrhyw

gostau nas rhagwelwyd, na ddylai myfyrwyr o'r fath roi galw sylweddol ar adnoddau CAWG.

- Roedd un mater allweddol i ddod i'r amlwg o'n gwaith maes yn gysylltiedig â'r ffaith fod Sefydliadau Addysg Uwch yn defnyddio cronfeydd CAWG Addysg Uwch yn gyson i ategu'r cyllid statudol sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a chydabuwyd yn eang nad oedd cymorth ariannol myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr rhan-asmer, er yn hael, bob amser yn talu am eu holl gostau.

### **3.4 Rhesymeg ac Angen**

Dangosodd ein gwaith maes ymateb llethol fod angen am yr CAWG ar draws y sector Addysg Uwch. Ar draws Sefydliadau Addysg Uwch, credai'r rhai a gyfwelwyd fod 'angen pendant' am CAWG fel 'rhan o gynllun holistig' a gynlluniwyd i gynorthwyo cadw myfyrwyr. Credai llawer o gyfweleion fod argaeledd cronfa ddewisol, a weinyddir yn lleol i fyfyrwyr, yn arf hanfodol y dylid ei gynnal. Ni chredai unrhyw un o'r cyfweleion y dylid dileu'r cynlluniau CAWG. Dywedodd un o gyfweleion Sefydliad Addysg Uwch fod 'y ffaith i ni ddefnyddio ein holl ddyraniad CAWG y llynedd' yn arwydd o'r angen am y gronfa ymysg myfyrwyr.

Tybid bod yr CAWG yn arf allweddol ar gyfer cyrraedd myfyrwyr sy'n wynebu amrywiaeth o anawsterau yn ogystal â chaledi ariannol megis chwalfa deuluol neu anawsterau academaidd. Credid bod yr ymgyrch ddiweddar i ehangu mynediad wedi arwain at recriwtio mwy o fyfyrwyr gydag amgylchiadau cymhleth. Fodd bynnag, roedd rhai yn awyddus i nodi fod nifer y ceisiadau CAWG a gawsant mewn blynyddoedd diweddar wedi gostwng i raddau helaeth fel canlyniad i gyflwyno incwm ychwanegol ar gyfer rhai myfyrwyr yn hanu o Gymru drwy Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Grant Cymorth Arbennig.

### **3.5 Materion Cyd-destun**

#### *3.5.1 Colegau neu Brifysgolion yn uno*

Arweiniodd yr uno cyfredol rhwng Coleg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan at adolygiad o ddulliau'r ddau sefydliad o weinyddu cronfa CAWG Addysg Uwch ac ystyriaeth o gryfderau a gwendidau'r systemau a ddefnyddir gan y ddau sefydliad. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (enw'r sefydliad wedi'i uno) yn gweithredu un CAWG ar draws pob campws, er y caiff ceisiadau eu hystyried gan ddau bwyllgor ar wahân, yn seiliedig ar yr hen sefydliadau. Sicrheir cysondeb yng ngwaith y pwyllgorau hyn drwy gael yr un person yn gadeirydd arnynt.

Roedd cyfweleion ym Mhrifysgol Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg yn ymwybodol y byddai'n rhaid iddynt hwythau adolygu eu dull o weithredu cronfeydd CAWG Addysg Uwch yn ystod y broses uno bresennol, er na chynhaliwyd unrhyw drafodaethau penodol adeg ein gwaith maes. Ni fynegodd y naill brifysgol na'r llall bryderon sylweddol am y broses hon, i raddau helaeth oherwydd y tybient fod y brifysgol arall yn gweithredu CAWG mewn ffordd debyg iddynt hwy eu hunain.

### *3.5.2 Toriadau mewn cyllid Addysg Uwch*

Cafodd y toriad helaeth mewn cyllid CAWG i Sefydliadau Addysg Uwch yn ystod 2010/11, i raddau helaeth oherwydd cyflwyno darpariaeth statudol ychwanegol, effaith sylweddol ar ymagwedd Sefydliadau Addysg Uwch at CAWG. Cafodd y dyraniadau eu haneru mewn llawer o achosion. Cwynodd nifer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch am yr hyn a dybid oedd natur 'munud olaf' y toriadau, a ddaeth fel 'sioc sylweddol'. Soniodd rhai ohonynt am allu defnyddio eu 10% tanwariant o'r flwyddyn flaenorol i wrthbwysu rhai o'r toriadau yn ystod 2010/11, ond roeddent wedyn wedi wynebu problemau gwirioneddol yn ystod 2011/12 gan nad oedd ganddynt glustog i syrthio'n ôl arno ac mewn un achos o leiaf, roedd y sefydliad wedi gorfod defnyddio peth o'i gyllid mewnol ei hunan er mwyn ateb y galw ymysg myfyrwyr.

Gweithredodd Sefydliadau Addysg Uwch mewn gwahanol ffyrdd yn eu hymdrechion i drin toriadau cyllid 2010/2011 gyda rhai Sefydliadau Addysg Uwch yn rhoi llai o ddyfarniadau i fyfyrwyr (h.y. canolbwyntio ar y rhai sydd 'wirioneddol angen cymorth ariannol') ac eraill yn dyfarnu symiau is o gyllid i fyfyrwyr. Mewn rhai achosion, siaradodd Sefydliadau Addysg Uwch am orfod defnyddio'r ddau ddull mewn ymdrech i gadw o fewn eu dyraniadau diwygiedig.

Soniodd cyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch am rai newidiadau penodol a weithredwyd, yn cynnwys:

- Gwneud darpariaethau penodol yn anghymwys ar gyfer cyllid e.e. gwnaed cyfraniad ariannol tuag at asesiadau ddyslecsia yn anghymwys ym Mhrifysgol Bangor gyda'r Brifysgol yn talu am rai o'r costau hyn ei hunan a gwneud costau cadw gwyliau gofal plant yn anghymwys ym Mhrifysgol Casnewydd;
- Cyflwyno prawf modd i gael mynediad i'r cyfraniad 15% gofal plant sydd ei angen tuag at y Grant Gofal Plant;
- Rhoi blaenoriaeth i gymorth i grwpiau neilltuol - fel arfer rhoi blaenoriaeth i rai gyda phlant a dibynyddion yn hytrach na myfyrwyr sengl, er y penderfynodd un Sefydliad Addysg Uwch roi blaenoriaeth i fyfyrwyr o aelwydydd incwm canol oherwydd eu bod yn dangos mwy o ddiffygion ariannol na myfyrwyr gyda chyllid statudol llawn;



- Codi'r bar ar gyfer cymorth gyda chostau llety - mewn un Sefydliad Addysg Uwch, nododd un cyfwelai fod 'myfyrwyr yn gorfod bod ar bwynt cael eu troi allan o'u llety cyn y rhoddwn gymorth llety iddynt';
- Gostwng yr uchafswm cyllid y gall unrhyw un myfyriwr gael mynediad iddo dan y cynllun CAWG e.e. ym Mhrifysgol Morgannwg cafodd yr uchafswm grant ei haneru o £1000 i £500 a chafodd uchafswm y benthyciad argyfwng hefyd ei ostwng.

Roedd profiad un Sefydliad Addysg Uwch yn adleisio profiad nifer o rai eraill gan eu bod wedi gorfod 'ffrwyno cryn dipyn ar ein methodoleg' fel y gallai'r Brifysgol gefnogi'r rhai oedd fwyaf o angen cymorth ariannol. Mae'n glir na fyddai myfyrwyr oedd efallai heb achos cryf i ddangos diffyg ariannol wedi cael cymorth yn ystod 2010/11, tra gallent fod wedi cael cymorth mewn blynyddoedd blaenorol. Er nad oeddent wedi croesawu'r toriadau, roedd rhai cyfweleion yn barod i gyfaddef ei fod wedi gwneud iddynt ailasesu eu dull o ddyfarnu cyllid a defnyddio meini prawf mwy llym ar gymhwyster. Soniodd rhai Sefydliadau Addysg Uwch hefyd eu bod wedi gorfod talu costau gweinyddol uwch fel canlyniad i orfod defnyddio gweithdrefnau monitro tynnach mwy beichus yn ogystal â gorfod treulio mwy o amser gyda myfyrwyr unigol i roi cymorth (un ai wrth wneud cais am CAWG neu eu cyfeirio i fan arall). Gyda synnwyr trannoeth, dywedodd ychydig o Sefydliadau Addysg Uwch bod y toriadau wedi cyflwyno mwy o synnwyr o drylwyrdeb i'r cynllun ar draws y sector. Soniodd o leiaf ddau Sefydliad Addysg Uwch hefyd y bu gostyngiad mewn gweithgaredd hyrwyddo ers y toriadau mewn ymdrech i reoli disgwyliadau.

## **4. YMAGWEDD SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH AT CAWG**

### **4.1 Cyflwyniad**

Mae Adran 4.2 y bennod hon yn delio gyda barn y sector ar Gynllun Llywodraeth Cymru a gyhoeddir i Sefydliadau Addysg Uwch (yn neilltuol y canllawiau am grwpiau blaenoriaeth a gofynion preswyliaeth). Aiff y bennod ymlaen i drafod rhai o'r polisiau cyffredinol a ddefnyddir gan Sefydliadau Addysg Uwch i ddyfarnu cyllid (Adran 4.3).

### **4.2 Cynllun Llywodraeth Cymru**

Roedd cytundeb yn gyffredinol ymhlith y rhai a gyfwelwyd fod y cynllun yn rhoi hyblygrwydd digonol i sefydliadau i reoli'r Gronfa fel y gwelant yn dda, er bod galwad am gyfarwyddyd ar yr hyn ddylai gael ei ariannu. Soniodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd fod y canllawiau a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn fwy defnyddiol na chanllawiau diweddar - er y gwyddom fod newid y sail ar gyfer gweinyddu'r Gronfa yn ganlyniad adolygiad mewnol o'r cynllun gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Galwodd nifer o gyfweleion am gyngor am nifer o faterion megis uchafswm o £3,500 ar yr hyn y gallai unrhyw un myfyriwr ei dderbyn, a'r diffiniad o fyfyrwr rhan-amser, yn ogystal â mwy o eglurdeb yn hytrach na chanllawiau disgrifiadol y gellid eu dehongli mewn llawer o ffyrdd. Dadleuwyd y byddai hyn yn rhoi darpariaeth decach i fyfyrwyr ledled Cymru.

Yn wir, dywedodd nifer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy eu bod wedi cydymffurfio gyda rhai o'r gofynion a nodir yn y canllawiau cynharach er nad oeddent wedi'u cynnwys yn y canllawiau cyfredol gan y bu hyn yn ddull gweithredu diogel i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, credai rhai o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch y gall sefydliadau wyro o rai o'r dulliau gweithredu cyffredin anysgrifenedig hyn. Galwodd llawer ohonynt ar i Lywodraeth Cymru gadw ei hyblygrwydd, fodd bynnag, yn nhermau sut y dylai sefydliadau weinyddu'r cynllun.

#### **4.2.1 Grwpiau Blaenorol**

Cafwyd amrywiaeth barn gan gyfweleion am y grwpiau blaenoriaeth a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei gynllun CAWG Addysg Uwch. Credai'r rhan fwyaf o gyfweleion o'r sector Addysg Uwch eu bod yn addas ac yn cyd-fynd gyda'r grwpiau y disgwyliai Llywodraeth Cymru i'r sector eu cyrraedd a'u cefnogi drwy eu hagenda ehangu mynediad: 'maent yn eitha agos at eu lle ond 'dyw e ddim yn wyddoniaeth roced yw e?' Ni ddangosodd ein gwaith maes unrhyw ddymuniad o'r tu fewn i'r sector Addysg Uwch i osod trefn blaenoriaeth ar gyfer y

grwpiau a ddylai gael eu cefnogi gan CAWG.

Cydnabuwyd yn eang fod y grwpiau blaenoriaeth yn 'ddangosol' ac felly na ddylent achosi gormod o anawsterau ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch wrth ddarparu ar gyfer anghenion grwpiau eraill o fyfyrwyr. Dywedodd un cyfwelai o Sefydliad Addysg Uwch, er enghraifft, 'dydyn ni byth yn gwrthod unrhyw un' oherwydd nad oeddent yn ffitio i'r grwpiau blaenoriaeth. Ymhellach dywedodd llawer fod y disgrifiad o grwpiau blaenoriaeth yn ddigon eang o ran cwrmpas i roi rhywfaint o hyblygrwydd i Sefydliadau Addysg Uwch o ran dyfarnu cyllid.

Holodd lleiafrif am berthnasedd a gwerth grwpiau blaenoriaeth o gofio y dyfernir CAWG yn bennaf ar sail amgylchiadau unigolion yn hytrach nag ar p'un ai os oedd myfyrwyr yn dod o fewn categorïau neilltuol ai peidio. Ymhellach, holodd cwpl o gyfweleion am y rhesymeg dros gynnwys 'myfyrwyr nad ydynt yn gymwys am gefnogaeth statudol' a oedd yn grŵp newydd a ychwanegwyd yn ystod 2011/12. Yn gyffredinol teimlid y dylid diffinio'r grŵp blaenoriaeth yma yn well. Fel y safai roedd ei gynnwys yn golygu y gallai prifysgolion yn awr gefnogi myfyrwyr oedd yn ailadrodd blwyddyn o astudiaeth (ar ôl ei methu'n flaenorol) ond maent hefyd yn cefnogi myfyrwyr sy'n astudio ail radd (a fyddai'n anghymwys am gymorth statudol). Holodd cyfwelai arall o'r sector Addysg Bellach am werth cadw'r grwpiau blaenoriaeth hyn oedd yn derbyn gwasanaeth da gan ddarpariaeth statudol (yn neilltuol fyfyrwyr gyda phlant a myfyrwyr anabl) ac awgrymodd un arall gynnwys 'gofalwyr' fel grŵp blaenoriaeth newydd (o gofio fod un Sefydliad Addysg Uwch wedi mabwysiadu'r grŵp hwn fel blaenoriaeth yn eu canllawiau eu hunain yn ystod 2011/12).

Mae cynnwys grwpiau blaenoriaeth yn cael effaith ar lefelau'r cyllid y gall myfyrwyr ddisgwyl ei dderbyn mewn rhai sefydliadau - er enghraifft, cyfyngir dyfarniadau Prifysgol Glyndŵr i 50% o ddiffyg y myfyriwr os ydynt yn dod tu allan i grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, o gymharu gyda 80% i'r rhai sy'n dod o'u mewn. Yn yr un modd gall myfyrwyr grŵp blaenoriaeth Prifysgol Morgannwg ddisgwyl derbyn hyd at £500 at eu diffyg ariannol o gymharu gyda hyd at £400 ar gyfer grwpiau heb fod yn flaenoriaeth.

#### *4.2.2 Gofynion Preswyliaeth*

Dadleuodd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd fod y gofynion preswyliaeth a nodir yng nghynllun Llywodraeth Cymru yn briodol, ac na ddylid eu newid gan eu bod yn gydnaws â gofynion preswyliaeth statudol ar gyfer y sector Addysg Uwch. Yn wir dywedodd llawer o'r cyfweleion, gan fod cronfeydd caledi eraill (yn aml wedi'u hariannu'n uniongyrchol gan y Sefydliad Addysg Uwch) yn aml ar gael ar gyfer anghenion myfyrwyr rhyngwladol nad oedd yn gymwys am

CAWG, nad oedd angen diwygio gofynion CAWG yn y cyswllt hwn (er y credai cwpl o gyfweleion Addysg Uwch y dylai CAWG fod ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol). Pwysleisiodd rhai cyfweleion y byddai newid yng ngofynion preswyliaeth CAWG yn cymhlethu pethau i Sefydliadau Addysg Uwch a chreu dryswch ymysg myfyrwyr a sefydliadau dyfarnu yn yr hirdymor. Dywedwyd hefyd y byddai'n rhoi pwysau ychwanegol ar ddyraniadau CAWG Addysg Uwch na allai Sefydliadau Addysg Uwch 'fforddio eu hariannu' o fewn CAWG.

Pan ofynnwyd am bosibiliadau cyfyngu CAWG i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn unig, lleisiodd y rhan fwyaf o gyfweleion wrthwynebiad ('ni fyddai'n opsiwn - byddai'n codi materion moesegol a byddai'n achosi rhaniadau mawr') ac roedd y gweddill yn wylidwrus ar y mater: 'Fe fyddwn i eisïau i Lywodraeth Cymru feddwl yn ofalus cyn iddo fod ar gael ar gyfer myfyrwyr yn hanu o Gymru yn unig'. Ni ddywedodd unrhyw un a gyfwelwyd y dylid cyfyngu CAWG Addysg Uwch yn y ffordd hon. Roedd un rheswm a roddwyd yn cyfeirio at y ffaith fod cyfran sylweddol o fyfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru nad oeddent yn hanu o Gymru ac ofnai Sefydliadau Addysg Uwch y gallai unrhyw gyfyngiadau a roddir ar CAWG annog myfyrwyr o'r fath rhag astudio yn eu sefydliadau (er y cydnabuwyd yn eang gan y sector na ddylid defnyddio'r gronfa fel dull recriwtio ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch). Yn ail, dywedodd nifer o gyfweleion na fyddai cyfyngiad o'r fath yn gydnaws gydag ethos cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr.

### **4.3 Polisiau CAWG Sefydliadau Addysg Uwch**

Mae dull gweithredu Sefydliadau Addysg Uwch yn gymharol gyson drwy fod ceisiadau CAWG yn cael eu hystyried ar sail unigol i asesu os oes gan fyfyrwyr ddiffyg yn eu gwariant yn erbyn eu hincwm. Yn bennaf, dim ond i rai a all ddangos diffyg ariannol y mae cyllid ar gael. Roedd cwpl o gyfweleion o Sefydliadau Addysg Uwch yn awyddus i bwysleisio mai dim ond i fyfyrwyr y bernir eu bod yn 'ariannol hyfyw' y dyfernir cyllid gan na fydd cymorth CAWG yn datrys y problemau sy'n wynebu myfyrwyr sydd â phroblemau dyled sylweddol na fedrir eu datrys.

Derbyniwyd yn gyffredinol fod y myfyrwyr hynny oedd yn cael mynediad i gymorth statudol llawn fel arfer yn cael eu hariannu'n dda ac, ar bapur, na ddylent fod angen cymorth CAWG. Fodd bynnag, mae cynllun CAWG yn galluogi sefydliadau i fod yn hyblyg a darparu ar gyfer amgylchiadau eithriadol e.e. dangosodd ein gwaith maes un enghraifft lle'r oedd myfyriwr wedi derbyn cymorth CAWG er iddo gael y cymorth statudol llawn ar gael gan ei fod wedi defnyddio ei fenthyciad a grant myfyriwr i dalu am gostau angladd rhiant. Dywedodd nifer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch y disgwylir i ymgeiswyr fod wedi dihysbyddu pob opsiwn arall o gymorth cyn i gyllid CAWG fod ar gael gan ddadlau'n gyson mai dim ond 'gwariant hanfodol' yr oeddent yn ei ystyried wrth benderfynu os oedd gan ymgeisydd ddiffyg ariannol. Nid oedd yr

ymagwedd yma bob amser yn cael ei chroesawu gan ymgeiswyr (yn neilltuol fyfyrwyr aeddfed oedd wedi arfer â ffordd neilltuol o fyw, a fynnai'n gynyddol y byddai costau hanfodol yn cynnwys costau ffôn symudol neu gostau car) ac nid oedd bob amser yn rhwydd i Sefydliadau Addysg Uwch benderfynu os oedd rhai costau yn hanfodol neu'n gostau ffordd o fyw.

Mae'n werth nodi nad yw'r Cynllun CAWG Addysg Uwch bob amser yn cael ei alw'n hynny gyda Phrifysgol Casnewydd, er enghraifft, yn cyfeirio at y gronfa fel y 'Gronfa Mynediad'.

Er y dull cyffredin hwn, daw llawer o wahaniaethau i'r amlwg yn nhermau'r hyn a gaiff ei ariannu a sut y caiff ei ddsbarthu gan Sefydliadau Addysg Uwch unigol. Er enghraifft:

- Mae rhai'n gosod uchafswm sefydlog (e.e. £400 neu £500 ym Mhrifysgol Morgannwg) neu uchafswm cymesur tuag at y diffyg a ddynodwyd (e.e. cyfraniad o 50% ym Mhrifysgol Glyndŵr) ar swm y cyllid y gall unrhyw un myfyriwr gael mynediad iddo fel arfer ar gyfer cefnogaeth caledi ariannol;
- Mae rhai'n gweithredu uchafswm uwch (e.e. £3,500 ym Mhrifysgol Glyndŵr) sy'n rhoi ystyriaeth i bob cronfa yn cynnwys gofal plant, tra bo eraill yn gosod uchafswm cymesurol neu sefydlog ar ddarpariaethau neilltuol (e.e. mae Prifysgol Aberystwyth yn rhoi uchafswm ar gostau llety a chostau byw wythnosol, ac mae uchafswm ar symiau gofal plant dyddiol ym Mhrifysgol Casnewydd);
- Bydd rhai'n rhoi blaenoriaeth i gyllid CAWG ar gyfer grwpiau neilltuol (e.e. ym Mhrifysgol Caerdydd rhoddir blaenoriaeth i rai gyda chostau gofal plant a theithio);
- Mae rhai'n disgwyl i fyfyrwyr (heblaw myfyrwyr blwyddyn olaf) allu gwneud cyfraniad (e.e. gosodwyd ar £1,000 ym Mhrifysgol Caerdydd) drwy waith rhan-amser ac os na all fyfyrwyr ganfod gwaith mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod wedi ceisio cael hynny (e.e. ym Mhrifysgol Abertawe);
- Mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch yn disgwyl i fyfyrwyr ddefnyddio eu cyfleusterau gorddrafft banc cyn gwneud cais am gyllid CAWG er bod swm y gorddrafft y gall myfyriwr ei gael wedi gostwng yn sylweddol mewn blynyddoedd diweddar (yn ôl un cyfwelai o Sefydliad Addysg Uwch, cafodd hyn ei dorri o tua £3,000 i uchafswm o £500);
- Dywedodd un Sefydliad Addysg Uwch nad ydynt fel arfer yn caniatáu i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf wneud cais i'r gronfa tan ar ôl fis Rhagfyr gan na ddisgwyliid iddynt gael anawsterau ariannol yn ystod eu tymor cyntaf yn y Brifysgol;
- Mae rhai ond nid y cyfan o'r Sefydliadau Addysg Uwch yn gweithredu isafswm ar gyfer dyfarniad CAWG oedd yn amrywio o £50 ym Mhrifysgolion Y Drindod Dewi Sant, Morgannwg a Chasnewydd i £100 ym Mhrifysgol Abertawe er enghraifft;
- Mae'r gyfran o gyllid CAWG a ddyrennir fel arfer cyn neu yn ystod y tymor academaidd

cyntaf yn amrywio'n sylweddol o tua 4% i 70% fel y dangosir yn Nhabl 2 islaw:

Tabl 2: Cyfran o gyllid CAWG a ddyrennir fel arfer cyn neu yn ystod y tymor academaidd cyntaf

	Cyfran
Y Brifysgol Agored	Tua 70
Prifysgol Morgannwg	66
Prifysgol Cymru, Casnewydd	59
Prifysgol Bangor	54
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	45
Prifysgol Aberystwyth	35
Prifysgol Caerdydd	33
Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant	27
Prifysgol Abertawe	25
Prifysgol Glyndŵr	10 (ymlaen llaw)
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	Anhysbys

Ffynhonnell: Holiaduron a lenwyd gan Sefydliadau Addysg Uwch

#### 4.3.1 Ystyriaeth i ymgeiswyr rhan-amser a llawn-amser

Nid oedd unrhyw Sefydliad Addysg Uwch wedi gosod unrhyw gyfyngiadau ar fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser rhag gwneud cais am gyllid CAWG (dim ond myfyrwyr rhan-amser wnaeth gais yn y Brifysgol Agored). Cydnabuwyd yn gyffredinol fod y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yn hael ond nad oedd bob amser yn ddigonol i dalu rhai costau megis costau cwrs a chostau byw. Mewn rhai sefydliadau, golygai polisïau CAWG mai dim ond am ddarpariaethau neilltuol y gallai myfyrwyr rhan-amser wneud cais amdanynt - yn achos Prifysgol Bangor, er enghraifft, dim ond am gostau gofal plant neu deithio y gall myfyrwyr rhan-amser wneud cais gan y disgwylir iddynt allu talu am wariant arall drwy fudd-daliadau neu incwm gwaith. Yn yr un modd ym Mhrifysgol Abertawe, fel arfer dim ond ar gyfer ffioedd cwrs a chostau teithio y mae cyllid ar gael i fyfyrwyr rhan-amser.

#### 4.3.2 Ymgeiswyr sydd eisoes wedi cael CAWG yn y gorffennol

Nid oes unrhyw Sefydliad Addysg Uwch yn gweithredu polisi lle na all myfyrwyr a dderbyniodd CAWG yn y gorffennol wneud cais eto am gyllid yn y dyfodol. Yn wir, soniodd llawer o Sefydliadau Addysg Uwch am fyfyrwyr gydag amgylchiadau neilltuol (e.e. rhieni unigol) y disgwylid iddynt wneud cais i'r Gronfa ar sail flynyddol, ond siaradodd dau am geisio cyfyngu ceisiadau i unwaith y flwyddyn. Roedd Sefydliadau Addysg Uwch yn fwy gwyliadwrus am dderbyn ceisiadau lluosog gan fyfyrwyr a wnaeth gais i'r Cynllun CAWG oherwydd eu bod wedi cam-reoli eu hincwm yn flaenorol - er na fyddent yn cael eu gwahardd rhag gwneud cais, roedd

disgwyliad y byddai myfyrwyr o'r fath yn gallu'r cyngor a gawsant ar reoli arian ar waith fel na fyddai angen iddynt ail-ymgeisio.

#### *4.3.3 Gofyniad i wneud cyfraniad myfyrwyr*

Nid oes gan Sefydliadau Addysg Uwch bolisiâu eglur sy'n ei gwneud yn ofynnol i wneud cyfraniad cymesur tuag at ddarpariaeth benodol gan fod Sefydliadau Addysg Uwch yn cymryd golwg mwy holistig o incwm a gwariant myfyrwyr. Fodd bynnag, derbynnir i raddau helaeth fod angen i fyfyrwyr Addysg Uwch wneud eu cyfraniadau eu hunain tuag at ariannu'r cyrsiau un ai drwy waith rhan-amser, cyfleusterau gorddrafft, cymorth teuluol neu ffynonellau statudol a dewisol eraill.

#### *4.3.4 Cymorth i fyfyrwyr Addysg Bellach*

Nododd cyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch fod myfyrwyr yn astudio cyrsiau lefel Addysg Bellach mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn gyffredinol yn gallu cael mynediad i gymorth drwy Gynllun CAWG Addysg Uwch a chredid bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda mewn sefydliadau o'r fath. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr Addysg Bellach yn tueddu i ddefnyddio CAWG ar gyfer cymorth yn ymwneud â llety ac offer.

#### *4.3.5 Defnyddio benthyciadau*

Roedd saith o'r Sefydliadau Addysg Uwch a gymerodd ran yn yr ymchwil yn gweinyddu benthyciadau fel rhan o'u cynnig CAWG ac fel arfer yn defnyddio rhwng 1% a 31% o'u dyraniadau blynyddol ar gyfer dibenion benthyciadau (fel y dangosir yn Nhabl 3). Roedd y sefydliadau hyn yn tueddu i ddweud fod y cyfleuster benthyciadau yn neilltuol o ddefnyddiol ar gyfer cefnogi myfyriwr a fyddai fel arall yn anghymwys am gymorth cyllid grant. Er enghraifft, efallai y byddai cyfrifiad incwm-gwariant myfyriwr penodol yn dangos gwarged ac felly ni fyddai'n gymwys am gymorth grant - eto byddai cymorth benthyciad yn ei helpu i drin amrywiadau mewn llif arian megis benthyciadau diwrnod cyflog neu filiau cyfleustod.

Gan bennaf defnyddir benthyciadau i gefnogi myfyrwyr yr oedd eu benthyciadau myfyrwyr yn hwyr yn cyrraedd. Mae rhai sefydliadau'n gosod uchafswm ar benthyciadau o'r fath (e.e. ym Mhrifysgol Aberystwyth mae uchafswm o £50 yr wythnos ar y benthyciadau hyn; ym Mhrifysgol Bangor mae benthyciadau o hyd at £250 ar gael fel arfer, tra bod Prifysgol Morgannwg fel arfer yn cynnig benthyciadau o hyd at £400 - er y gallai mwy fod ar gael mewn amgylchiadau eithriadol). Rhoddir benthyciadau i fyfyrwyr hefyd yn achlysurol ar gyfer costau gofal plant a gafwyd yn ystod mis cyntaf cwrs myfyriwr gan y gall fod nad yw myfyrwyr wedi derbyn eu Grant Gofal Plant mewn pryd ar gyfer dechrau'r cwrs, fel sy'n digwydd ym Mhrifysgol Glyndŵr. Mae'n

ddiddorol i o leiaf dri o'r Sefydliadau Addysg Uwch ddweud fod gwariant benthyciad yn cael ei ddsbarthu dan y categori 'arall' ar gyfer ffurflenni Llywodraeth Cymru.

Nid oedd tri Sefydliad Addysg Uwch yn darparu cyfleuster benthyciadau drwy eu cynllun CAWG. Mae Prifysgol Caerdydd, er enghraifft, yn gweinyddu ei chronfa benthyciadau ei hun a sefydlwyd cyn y cynllun CAWG. Felly nid oes gan y sefydliad angen i ddefnyddio arian CAWG yn y ffordd hon. Roedd Prifysgol Casnewydd yn arfer darparu cyllid ar gyfer benthyciadau drwy'r cynllun CAWG ond rhoddodd y gorau i wneud hynny oherwydd y cyfraddau ad-dalu isel ar y symiau a fenthycwyd a'r ffaith nad oedd cost gweinyddu cynllun benthyciadau yn cynnig gwerth am arian. Er y byddai sefydliadau eraill yn cydnabod y pwynt hwn, roedd rhai'n awyddus i ddweud y gall benthyciadau yn aml fod yn ffordd o addysgu myfyrwyr sut i drin eu harian yn fwy effeithlon.

Tabl 3: Cyfran cyllid CAWG a ddyrennir fel benthyciadau fel arfer

	Cyfran
Prifysgol Glyndŵr	31
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	25
Prifysgol Morgannwg	7
Prifysgol Aberystwyth	6
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	4
Prifysgol Bangor	1
Prifysgol Abertawe	1
Prifysgol Cymru Casnewydd	0
Prifysgol Caerdydd	0
Y Brifysgol Agored	0
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	D/G

Ffynhonnell: Holiaduron a lenwyd gan Sefydliadau Addysg Uwch



## 5. DEFNYDD CAWG YN Y SECTOR ADDYSG UWCH

### 5.1 Cyflwyniad

Yn yr adran yma trafodwn sut y defnyddiwyd CAWG ar draws y sector Addysg Uwch, yn gyntaf yn edrych ar y data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2010/11 (Adran 5.2) cyn troi i drafod yr adborth o'n gwaith maes (Adran 5.3).

### 5.2 Defnydd CAWG yn y sector Addysg Uwch: Dadansoddiad o ddata

Mae £2.1m o gyllid ar gael ar hyn o bryd i 11 Sefydliad Addysg Uwch a thri Sefydliad Addysg Bellach sy'n cyflenwi darpariaeth Addysg Oedolion. Prifysgol Caerdydd sy'n derbyn y dyraniad mwyaf, gyda Phrifysgol Morgannwg a Phrifysgol Abertawe yn dilyn. Profodd tri sefydliad ostyngiad yn eu dyraniadau ariannol rhwng 2010/11 a 2012/13, tra bu cynnydd mewn dau. Parhaodd dyraniadau ar gyfer y chwe sefydliad arall yr un fath (gweler Tabl 4).

Tabl 4: Dyraniad Ariannol Blynyddol CAWG Addysg Uwch yn ôl Sefydliad

Sefydliad (£)	2012/13	2011/12	2010/11
Prifysgol Caerdydd	411,553	393,907	412,980
Prifysgol Morgannwg <sup>14</sup>	378,295	402,538	410,500
Prifysgol Abertawe	252,003	257,171	254,860
Prifysgol Bangor	197,731	195,873	165,010
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	176,989	179,562	186,410
Prifysgol Cymru, Casnewydd	173,123	179,562	174,670
Prifysgol Aberystwyth	164,725	148,670	146,570
Prifysgol Glyndŵr	117,350	113,466	115,340
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	109,140	116,752	113,690
Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant	74,664	75,066	72,710
Y Brifysgol Agored	31,634	31,634	31,630
Grŵp Llandrillo Menai <sup>15</sup>	19,777	10,927	9,850
Coleg Sir Gâr	3,127	5,583	6,420
Castell-nedd Port Talbot	1,889	2,313	1,930
(Coleg Menai)	D/G	D/G	D/G
Coleg Gŵyr Abertawe	0	32	150
Cyfanswm	2,103,000	2,103,000	2,103,000

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

<sup>14</sup> Yn cynnwys dyraniad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

<sup>15</sup> Yn flaenorol Coleg Llandrillo a Choleg Menai

Defnyddiwyd bron y cyfan (95%) o gyllid CAWG Addysg Uwch i gefnogi myfyrwyr llawn-amser, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn astudio ar lefel israddedig (gweler Tabl 5). Heblaw ar gyfer y Brifysgol Agored (lle'r oedd myfyriwr rhan-amser yn cyfrif am holl wariant CAWG), roedd hyn yn batrwm cyffredinol ar draws pob Sefydliad Addysg Uwch a Sefydliad Addysg Bellach, er y dyrannwyd cyfran uwch o wariant CAWG i fyfyrwyr rhan-amser Addysg Uwch yng Ngholeg Llandrillo<sup>16</sup> (13%), Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<sup>17</sup> (10%) a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (8%). Drwyddi draw, roedd gwariant CAWG Addysg Uwch ar israddedigion yn 89%, ôlraddedigion yn 8% ac Addysg Bellach yn 3%. Adroddodd rhai prifysgolion lefelau uwch na'r cyfartaledd o wariant ar fyfyrwyr ôlraddedig nag eraill; sef Prifysgol Bangor (16%), Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (12%) a Phrifysgol Abertawe (12%).

Tabl 5: Gwariant CAWG Addysg Uwch yn ôl Dull Astudio

2010/11 (£)	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfanswm
Israddedig	2,023,640	96,730	2,120,380
Ôlraddedig	175,720	27,150	202,870
Addysg Bellach	83,390	1,010	89,400
Cyfanswm	2,287,760	124,890	2,412,650 <sup>18</sup>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Yn nhermau'r darpariaethau a ariannwyd, dengys Tabl 6 y defnyddir cyfran sylweddol o gronfa CAWG Addysg Uwch i gefnogi costau byw cyffredinol (ar 30%). Dilynir hynny gan gostau llety (19%) a llyfrau/offer (10%). Mae myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol o ddefnyddio CAWG ar gyfer cefnogaeth ffi ychwanegol (gyda 23% o'r gwariant ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y diben hwn) a ddilynir gan fodiwlau blasu (17%).

<sup>16</sup> Now Grŵp Llandrillo Menai

<sup>17</sup> UWIC bryd hynny

<sup>18</sup> Mae gwariant blynyddol CAWG ychydig yn uwch na'r dyraniadau blynyddol oherwydd fod y gwariant yn cynnwys unrhyw gyllid a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol, llogau a gronwyd ac unrhyw fenthyciadau a ad-dalwyd o'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 6: Gwariant CAWG Addysg Uwch yn ôl Darpariaethau

2010/11 (£)	Llawm-amser	Rhan--amser	Cyfanswm
Costau byw cyffredinol	697,580	23,560	721,130
Llety	464,670	6,230	470,900
Llyfrau ac Offer	218,910	19,060	237,970
Gofal Plant	164,830	1,380	166,210
Arall	149,250	1,990	151,250
Cludiant	147,500	7,360	154,860
Bancio Argyfwng	94,000	200	94,200
Cynllun Bwrsariaeth	77,880	2,250	80,130
Costau Cyfleustod	75,420	1,700	77,120
Profion Diagnostig	71,110	8,920	80,030
Cymorth gyda chostau Anabledd	70,070	1,000	71,070
Dyled Blaenoriaeth	52,040	880	52,920
Cymorth Ffi Ychwanegol	4,500	29,170	33,670
Modiwlau Blasu	0	21,200	21,200
Peidio â chodi ffioedd/Trefniadau trosiannol	0	0	0
Cyfanswm	2,287,760	124,890	2,412,650

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wrth edrych ar y gwariant ar y darpariaethau hyn gan sefydliadau unigol, mae'n werth tynnu sylw at rai patrymau ar gyfer y Sefydliadau Addysg Uwch:

- Costau byw cyffredinol oedd y gwariant mwyaf mewn pump Sefydliad Addysg Uwch (Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd), a dim ond mewn dau y cofnodwyd unrhyw wariant ar gostau byw (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru Casnewydd);
- Costau llety oedd y gwariant mwyaf mewn tri Sefydliad Addysg Uwch (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe) a dyma hefyd yr ail faes gwariant mwyaf mewn nifer o Sefydliadau Addysg Uwch eraill, megis Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru Casnewydd;
- Yn anarferol, llyfrau/offer oedd y gwariant uchaf ym Mhrifysgol Cymru Casnewydd, gyda 40% o gyllideb CAWG Addysg Uwch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y diben yma;
- Roedd proffil gwariant ym Mhrifysgol Glyndŵr yn wahanol i Sefydliadau Addysg Uwch gan y dyrannwyd cyfran anarferol o uchel (26%) o'r gwariant i ddarpariaethau eraill (gyda hyn y maes uchaf o wariant) gyda chostau byw cyffredinol yn dilyn;
- Yn yr un modd roedd proffil gwariant yn y Brifysgol Agored yn wahanol i'r norm drwy fod

gwariant wedi'i gyfyngu i bedwar maes. Modiwlau blasu oedd y gwariant mwyaf (ar 33%) gyda chymorth ffioedd ychwanegol, llyfrau ac offer a phroffion diagnostig yn dilyn;

- Prifysgol Aberystwyth a'r Brifysgol Agored oedd yr unig Sefydliadau Addysg Uwch na wariodd unrhyw gyllid ar ddarpariaeth gofal plant ac roedd hefyd yn gyfran fach iawn o wariant (llai na 1%) ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant;
- Nid oedd cyllid bwrsariaeth ar gael drwy CAWG Addysg Uwch mewn saith Sefydliad Addysg Uwch (Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Prifysgol Cymru Casnewydd a'r Brifysgol Agored);
- Nid oedd cyllid dyled blaenoriaeth ar gael mewn pum Sefydliad Addysg Uwch (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru Casnewydd a'r Brifysgol Agored);
- Roedd cymorth ffi ychwanegol yn uwch na'r cyfartalog ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ar 6% ac, fel y disgwyliid, fe'i dyrannwyd i fyfyrwyr rhan-amser yn unig;
- Roedd cymorth gyda chostau anableded yn anarferol o uchel ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe ac yn cyfrif am 22% o'i gwariant (a'r gwariant ail uchaf ar ôl llety);
- Roedd profion diagnostig yn cyfrif am rhwng dim (e.e. Prifysgol Glyndŵr) a thua 5% (e.e. Prifysgol Cymru Casnewydd) o wariant Sefydliadau Addysg Uwch.

Ar draws y tri Sefydliad Addysg Uwch a ariannwyd yn ystod 2010/11, dyrannwyd cyllid CAWG Addysg Uwch i ddau faes - y mwyaf yw llyfrau ac offer gyda chostau byw cyffredinol yn dilyn.

Cafodd cyfanswm o 6,055 o fyfyrwyr eu cefnogi drwy Gynllun CAWG Addysg Uwch yn ystod 2010/11. Mae hyn yn cynrychioli 3.6% o'r holl fyfyrwyr sy'n astudio yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn ystod y flwyddyn honno. Yn unol â phatrymau gwariant, roedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr a gefnogir yn astudio'n llawn-amser fel israddedigion. Tra cefnogwyd 5% o'r holl fyfyrwyr israddedig drwy CAWG, roedd y gyfran o fyfyrwyr addysg bellach, ar 0.7% yn llawer is (fel y dangosir yn Nhabl 7 islaw).

Tabl 7: Nifer myfyrwyr Addysg Uwch yn derbyn cymorth CAWG

2010/11	Cymorth CAWG			Pob Myfyriwr		
	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfanswm	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfanswm
Israddedig	4,795	655	5,450	75,695	33,495	109,190
Ôlraddedig	335	75	410	16,130	14,770	30,900
Addysg Bellach	190	5	195	5,775	23,180	28,955
Cyfanswm	5,320	735	6,055	97,600	71,445	169,045

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru a Stats Cymru

Ym Mhrifysgol Caerdydd yr oedd y nifer uchaf o fyfyrwyr a gefnogwyd, gyda Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Morgannwg yn dilyn, gyda niferoedd is ym Mhrifysgol Bangor a'r Brifysgol Agored. Mae'r patrwm hwn i raddau helaeth yn adlewyrchu cyfanswm nifer y myfyrwyr yn y sefydliadau hyn. Yn ddiddorol, cafodd cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser (fel cyfran o'r holl fyfyrwyr a gefnogwyd drwy'r CAWG) eu cefnogi ym Mhrifysgol Abertawe (ar 26%), ac mae'n ddealladwy o gofio am broffil myfyrwyr y Brifysgol Agored fod yr holl fyfyrwyr a gefnogwyd yn fyfyrwyr rhan-amser. Cymharol ychydig (ychydig dros 1%) o'r myfyrwyr a gefnogwyd drwy CAWG ym Mhrifysgol Caerdydd oedd yn fyfyrwyr rhan-amser, fel y dangosir yn Nhabl 8 islaw.

Tabl 8: Nifer myfyrwyr a dderbyniodd gymorth drwy Gynllun CAWG Addysg Bellach yn ôl Sefydliad

Sefydliad 2010/11	(Cymorth CAWG)			(Pob Myfyriwr)
	Llawm-amser	Rhan-amser	Cyfanswm	Cyfanswm
Prifysgol Caerdydd	1,150	15	1,165	30,955
Prifysgol Abertawe	710	245	950	19,330
Prifysgol Morgannwg <sup>19</sup>	700	40	745	29,875
Prifysgol Cymru Casnewydd	525	55	580	10,295
Prifysgol Glyndŵr	485	10	495	8,960
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	460	20	480	6,160
Prifysgol Aberystwyth	370	5	375	14,955
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	335	35	370	13,605
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	280	20	300	6,740
Y Brifysgol Agored	0	285	285	9,085
Prifysgol Bangor	245	* <sup>20</sup>	250	19,090
Pob Sefydliad Addysg Bellach	60	*	65 <sup>21</sup>	D/G
Cyfanswm	5,320	735	6,055	169,050

Dengys Tabl 9 y gwnaed 7,260 dyfarniad yn ystod 2010/11, sy'n golygu y derbyniodd bron un ym mhob pump o'r myfyrwyr (1,205) fwy nag un dyfarniad CAWG Addysg Uwch. Mae myfyrwyr ôlraddeg yn llawer mwy tebygol nag israddedigion neu fyfyrwyr Addysg Bellach o dderbyn mwy nag un dyfarniad.

<sup>19</sup> Yn cynnwys dyraniad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

<sup>20</sup> Caiff rhifau dan 5, ond dim yn sero, eu dangos gan '\*'.

<sup>21</sup> Oherwydd talgrynnu, efallai nad yw symiau rhai rhesi neu golofnau yn adio i roi'r cyfanswm a roddir

Tabl 9: Dyfarniadau CAWG Addysg Bellach

2010/11	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfanswm
Israddedig	5,775	745	6,520
Ôlraddedig	455	125	580
Addysg Bellach	150	10	160
Cyfanswm	3,680	885	7,260

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wrth edrych ar broffil oedran myfyrwyr a dderbyniodd ddyfarniadau, mae Tabl 10 yn dangos gwasgariad gweddol wastad o ddyfarniadau a wnaed i rai dan 21 oed (28%), rhai rhwng 21 a 24 oed (33%) a rhai 25 oed a throsodd (38%). Roedd myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol na myfyrwyr llawn-amser i ddod o fewn y grŵp dros 25. Wrth edrych ar y data ar lefel sefydliad, gellir gweld bod Prifysgol Cymru Casnewydd yn cefnogi cyfran uwch na'r cyfartalog o fyfyrwyr dan 21 oed; roedd Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe yn cefnogi cyfran uwch o rai 21-24 oed a Phrifysgol Abertawe, Prifysgol Glyndŵr a'r Brifysgol Agored yn cefnogi cyfran uwch o fyfyrwyr dros 25 oed.

Tabl 10: Myfyrwyr Addysg Uwch yn derbyn Cymorth CAWG yn ôl Oedran

2010/11	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfanswm
Dan 21	1,605	10	1,620
21-24	1,860	50	1,910
25+	1,575	630	2,205
Cyfanswm <sup>22</sup>	5,050	690	5,735

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

£421 oedd gwerth cyfartalog dyfarniad CAWG Addysg Uwch yn ystod 2010/11, er bod hyn yn amrywio ar draws sefydliadau (gweler Tabl 11): roedd gwerth cyfartalog y dyfarniadau ar ei uchaf ym Mhrifysgol Morgannwg (ar £721 fesul dyfarniad) a Phrifysgol Bangor (£632) ac ar ei isaf ym Mhrifysgol Glyndŵr (£236) a'r Brifysgol Agored (£115). Yn wir ar draws pob Sefydliad Addysg Uwch, roedd mwyafrif y dyfarniadau a wnaed am werthoedd rhwng £100 a £999 yn ystod y flwyddyn honno. Dim ond 720 dyfarniad a wnaed ar gyfer symiau llai na £100 ac roedd sefydliadau Prifysgol Abertawe, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Glyndŵr i gyfrif am y rhan fwyaf o'r rhain. Ar yr eithaf arall, dim ond pum dyfarniad a wnaed am symiau o £3,500 a throsodd a

<sup>22</sup> Lle cafwyd data ar oedran

Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn

chafodd pob un o'r rhain eu dyfarnu gan Brifysgol Cymru Casnewydd.

Tabl 11: Dyfarniadau CAWG Addysg Bellach a ddsbarthwyd yn ôl gwerth<sup>23</sup>

Sefydliad		Llai na £100	£100 - £999	£1,000 - £3,499	£3,500 a throsodd	Cyfanswm
Prifysgol Morgannwg <sup>24</sup>						
	Nifer	25	470	220	0	715
	Symiau	1,520	198,390	315,660	0	515,560
Prifysgol Caerdydd						
	Nifer	35	1,035	95	0	1,165
	Symiau	1,990	389,010	117,320	0	508,310
Prifysgol Abertawe						
	Nifer	295	600	30	0	920
	Symiau	11,070	222,450	34,410	0	267,930
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd						
	Nifer	0	315	55	0	370
	Symiau	0	131,490	75,330	0	206,820
Prifysgol Cymru Casnewydd						
	Nifer	15	370	35	5	425
	Symiau	850	123,540	53,530	18,170	196,640
Prifysgol Aberystwyth						
	Nifer	15	325	40	0	375
	Symiau	650	123,390	47,720	0	171,530
Prifysgol Bangor						
	Nifer	0	210	40	0	250
	Symiau	0	102,070	55,990	0	158,060
Prifysgol Glyndŵr						
	Nifer	130	360	*	0	495
	Symiau	7,670	103,610	5,360	0	143,600
Prifysgol Fetropolitan Abertawe						
	Nifer	40	315	25	0	375
	Symiau	1,680	107,220	34,700	0	143,600
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant						
	Nifer	15	270	5	0	295
	Symiau	880	73,340	9,260	0	83,490
Y Brifysgol Agored						
	Nifer	145	140	0	0	285
	Symiau	11,540	21,230	0	0	32,770
Pob Sefydliad Addysg Bellach						
	Nifer	*	55	*	0	60
	Symiau	210	10,160	1,500	0	11,870
Cyfanswm						
	Nifer	720	4,465	545	5	5,730
	Symiau	38,050	1,605,660	750,780	18,170	2,412,650

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Roedd tua un ym mhob pump o geisiadau a wnaed i Gynllun CAWG Addysg Uwch yn aflwyddiannus - yn ystod 2010/11 gwrthodwyd cyfanswm o 1,530 o geisiadau gan sefydliadau,

<sup>23</sup> Nid yw cyfanswm nifer y dyfarniadau yn gyfartal â chyfanswm nifer y myfyrwyr gan y gall myfyrwyr dderbyn dyfarniadau lluosog y rhoddir adroddiad yn unigol arnynt i Lywodraeth Cymru

<sup>24</sup> Yn cynnwys dyraniad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

gyda'r gyfran (yn ogystal â'r nifer absoliwt) uchaf o wrthodiadau gan Brifysgol Morgannwg gyda Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, Prifysgol Cymru Casnewydd a Phrifysgol Abertawe yn dilyn. Ychydig iawn o wrthodiadau a wnaed ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr fel y dangosir yn Nhabl 12 islaw.

Tabl 12: Gwrthodiadau am Geisiadau CAWG Addysg Uwch yn ôl Sefydliad

Sefydliad	Cyfanswm a Wrthodwyd	Fel % o'r holl Geisiadau a wnaed <sup>25</sup>
Prifysgol Morgannwg <sup>26</sup>	485	40%
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	190	34%
Prifysgol Cymru Casnewydd	150	26%
Prifysgol Abertawe	255	22%
Prifysgol Aberystwyth	75	17%
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	55	16%
Prifysgol Caerdydd	195	14%
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	60	14%
Prifysgol Bangor	25	9%
Y Brifysgol Agored	15	5%
Prifysgol Glyndŵr	10	2%
Pob Sefydliad Addysg Bellach	*	N/A
Cyfanswm	1,530	21%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wrth edrych ar y rhesymau am wrthod cyllid, cafodd ychydig dan hanner y ceisiadau aflwyddiannus eu gwrthod ar y sail eu bod yn brin o dystiolaeth o galedi ariannol, ac nid oedd ychydig dros chwarter yn cyflawni blaenoriaeth y sefydliad ar gyfer defnyddio cyllid. Yn galonogol, dim ond cyfran fach iawn (llai na 2%) o geisiadau aflwyddiannus y gwrthodwyd cyllid iddynt ar y sail fod cronfeydd wedi eu dihybyddu. Cyflwynir y canfyddiadau hyn yn Nhabl 13. Wrth edrych ar y patrwm ar draws sefydliadau unigol, mae'n werth nodi mai tystiolaeth annigonol o galedi ariannol oedd y rheswm dros pob cais aflwyddiannus ym Mhrifysgol Morgannwg, Prifysgol Bangor a'r Brifysgol Agored a bod y prif reswm gwrthod ar gyfer Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe yn ymwneud â pheidio cyflawni blaenoriaeth y sefydliad ar gyfer defnyddio cyllid. Gwrthodwyd nifer o geisiadau (ychydig dan 13%) am resymau eraill.

<sup>25</sup> Pob cais wedi'i gyfrif fel pob dyfarniad a wnaed ynghyd â cheisiadau a wrthodwyd.

<sup>26</sup> Yn cynnwys dyraniad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.



Tabl 13: Rhesymau am wrthod ceisiadau i Gynllun CAWG Addysg Uwch

2010/11	Nifer a Wrthodwyd
Tystiolaeth annigonol o galedi ariannol	720
Dim yn cyflawni blaenoriaeth y sefydliad ar gyfer defnyddio cyllid	400
Arall	195
Myfyriwr yn derbyn cymorth o ffynonellau eraill	190
Dyraniad CAWG y Sefydliad wedi'i ddihysbyddu	25
Cyfanswm	1,530

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nid oedd data yn ymwneud â'r nifer o fyfyrwyr Addysg Uwch a gafodd gymorth CAWG y gwyddys eu bod wedi gadael eu sefydliad cyn cwblhau eu cwrs ar gael drwy Lywodraeth Cymru.

Roedd wyth Sefydliad Addysg Uwch (yr eithriadau yw Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru Casnewydd a'r Brifysgol Agored) yn gweinyddu benthyciadau fel rhan o'u Cynllun CAWG Addysg Uwch yn ystod 2010/11, ond nid oedd gwerth y benthyciadau hyn ond tua 3% o'r holl wariant drwy'r cynllun (gydag ychydig dan £80,000 wedi'i dalu yn ystod 2010/11) fel y dangosir yn Nhabl 14. Yn y rhan fwyaf o achosion gwneir benthyciadau i fyfyrwyr oedd yn hwyr yn derbyn eu taliadau benthyciad o'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Dengys y data ar gyfer 2010/11 y cafodd tua 40% o'r benthyciadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn eu had-dalu'r un flwyddyn. Roedd y gyfradd ad-dalu yn amrywio ar draws sefydliadau, gyda rhai (megis Prifysgol Aberystwyth) yn nodi cyfradd ad-dalu o 100%, ac eraill (megis Prifysgol Glyndŵr) yn nodi cyfradd ad-dalu sylweddol is o 14%. Mae'n bosibl fod y gyfradd ad-dalu yn amrywio o un sefydliad i un arall gan fod rhai'n dyrannu mwy o adnoddau nag eraill i'r dasg yma. Mewn rhai achosion deallir hefyd fod y sefydliadau'n derbyn ei bod yn annhebygol y caiff y benthyciadau hyn eu had-dalu.

Tabl 14: Taliadau benthyciad Addysg Uwch CAWG a ddarparwyd ac a ad-dalwyd

2010/11	Nifer llywyddiannus	Talwyd £	Ad- dalwyd o fewn blwyddyn £	Ad- dalwyd o'r flwyddyn flaenorol £	Dyledus o fewn blwyddyn £
Cyfanswm benthyciadau ar gyfer taliadau hwyr y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr	290	46,540	24,720	4,250	19,870
Benthyciadau eraill	70	32,720	6,950	350	25,810
Pob benthyciad	360	79,260	31,670	4,600	45,810

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Roedd y cyllid a ddosbarthwyd drwy Gynllun CAWG Addysg Uwch tua £300,000 yn fwy na'r cyllid gwreiddiol a bennwyd ar £2.1m ar gyfer 2010/11 oherwydd i sefydliadau ddod â chyllid ymlaen o'r flwyddyn academaidd flaenorol yn ogystal â'r llogau a enillwyd yn ystod 2010/11. Mae gwariant sefydliadau ar weinyddiaeth a chyhoeddusrwydd yn gymharol gyson (fel y dangosir yn Nhabl 15) ac yn cyd-fynd gyda chynllun Llywodraeth Cymru o gynnal gwariant o fewn 3% o gyfanswm eu dyraniad cyllid (y cyfartaledd yw 3.1%). Roedd gwariant ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn is na'r cyfartalog ar 1.5%, tra bod rhai sefydliadau (Prifysgol Fetropolitan Abertawe a'r Brifysgol Agored) wedi dychwelyd cyfrannau ychydig yn uwch (ar 3.6% a 4.1% yn yr un drefn). Dychwelodd tri Sefydliad Addysg Uwch (Prifysgol Bangor, Prifysgol Abertawe a'r Brifysgol Agored) a dau Sefydliad Addysg Bellach (sef Coleg Llandrillo a Choleg Castell Nedd Port Talbot) gyllid i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2010/11, yn gyfanswm o ychydig dan £50,000 (2.2% o gyfanswm dyraniad Addysg Uwch ar gyfer y flwyddyn honno).

Tabl 15: Dyfarniad, dosbarthiad a dychweliad Cronfa CAWG Addysg Uwch

Sefydliad (£)	Dyraniad 2010/11	Cyllid a ddosbarthwyd yn 2010/11 <sup>27</sup>	Swm a wariwyd ar weinyddiaeth/cyhoedduswydd	Cyllid i'w ddychwelyd i ADAS <sup>28</sup>
Prifysgol Caerdydd	412,980	508,310	13,160	0
Prifysgol Morgannwg <sup>29</sup>	410,500	515,560	12,830	0
Prifysgol Abertawe	254,860	267,930	7,650	22,790
Prifysgol Fet Caerdydd	186,410	206,820	5,660	0
PC Casnewydd	174,670	196,080	5,780	0
Prifysgol Bangor	165,010	158,060	4,950	16,610
Prifysgol Aberystwyth	146,570	171,530	4,440	0
Prifysgol Glyndŵr	115,340	116,640	3,070	0
Prifysgol Fet Abertawe	113,690	143,600	4,100	0
PC Y Drindod Dewi Sant	72,710	83,490	1,110	0
Y Brifysgol Agored	31,630	32,770	1,290	2,750
Pob Sefydliad Addysg Uwch	18,640	11,870	1,310	4,810
Cyfanswm	2,103,000	2,412,650	65,310	46,970

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### 5.3 Defnydd CAWG yn y sector Addysg Uwch: Adborth gwaith maes

Yn yr adran yma trafodwn rai o'r negeseuon allweddol a gafodd eu cyfleu yn ystod ein gwaith maes gyda Sefydliadau Addysg Uwch o amgylch y math o ddarpariaethau a ariannwyd gyda CAWG - yn fwyaf nodedig o amgylch cyllid ar gyfer costau byw, llety, gofal plant, myfyrwyr anabl a phroffion anableded.

#### 5.3.1 Costau Byw

Dywedodd nifer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch y gwelsant gynnydd yn y galw ymysg ymgeiswyr am gymorth gyda chostau byw cyffredinol (er i nifer hefyd nodi yr adroddir ar gostau o'r fath dan benawdau llety, cyfleustodau ac eraill). Roedd hyn yn cynnwys cynnydd yn y galw gan fyfyrwyr o aelwydydd incwm canol is sydd ychydig uwch na'r trothwy ar gyfer cymorth statudol. Roedd rhai hefyd wedi gweld cynnydd yn y galw am CAWG i'w ddefnyddio ar gyfer costau teithio, oherwydd cynnydd mewn costau tanwydd, a gaiff eu cyfrif fel 'costau byw'. Dangosodd ein gwaith maes hefyd i o leiaf dri Sefydliad Addysg Uwch nodi cynnydd mewn ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n cael trafferthion gyda benthyciadau diwrnod cyflog a benthycia gan siarcod benthycia, a nododd dau Sefydliad Addysg Uwch gynnydd mewn ceisiadau gan fyfyrwyr gyda phroblemau gamblo ar-lein. Dywedodd un Sefydliad Addysg Uwch iddo weld cynnydd yn

<sup>27</sup> Sy'n cynnwys cyllid a ddygwyd ymlaen o 2009/10 ac unrhyw logau a enilwyd yn ystod 2010/11

<sup>28</sup> Yn eithrio unrhyw gyllid a ddygwyd ymlaen o ddim mwy na 10% i 2011/12

<sup>29</sup> Yn cynnwys dyraniad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

fwy diweddar gan fyfyrwyr trydedd flwyddyn, yn rhannol oherwydd bod pwysau eu hastudiaethau yn eu cyfyngu rhag cymryd gwaith rhan-amser, a thynnodd un arall sylw at gynnydd yn y galw gan fyfyrwyr ôlraddedig yn bennaf oherwydd eu bod yn anghymwys am Fenthyciadau Datblygu Gyrfa a Phroffesiynol a hwythau wedi tybio y byddent yn gymwys.

### *5.3.2 Myfyrwyr anabl*

Dywedodd y rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch a gyfwelwyd iddynt weld gostyngiad yn y cyllid a ddsbarthwyd drwy CAWG i fyfyrwyr anabl ac yn awr yn anaml y maent yn gwneud cyfraniadau ar gyfer hyn heblaw am gyllid ar gyfer materion tymor byr cysylltiedig ag iechyd na chaiff eu dosbarthu fel rhai anabl e.e. talu am dacsio oherwydd bod myfyriwr wedi torri ei goes. Teimlid yn gyffredinol y gall y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ddarparu ar gyfer gofynion myfyrwyr anabl.

### *5.3.3 Profion anabledd*

Nid yw pob Sefydliad Addysg Uwch yn defnyddio CAWG i dalu am gostau cysylltiedig gyda phroffion anabledd - er enghraifft nid yw Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn defnyddio CAWG i dalu am gostau asesiadau dyslecsia gan y caiff y rhain eu talu gan y brifysgol yn uniongyrchol.

O blith y rhai sy'n defnyddio CAWG i dalu am y costau hyn, nododd nifer gynnydd diweddar yn y galw gan ymgeiswyr. Cydnabuwyd yn eang fod y ffioedd ar gyfer profion anabledd yn uchel (e.e. dywedwyd fod profion dyslecsia yn costio rhwng £240 a £350) ac yn bennaf dim ond cyfraniad a wnaiff Sefydliadau Addysg Uwch at y costau hyn drwy CAWG. Mae cyfraniad CAWG gan brifysgolion yn amrywio (er enghraifft o £50 ym Mhrifysgol Bangor i £100 ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a £200 ym Mhrifysgol Aberystwyth). Disgwylir i fyfyrwyr gyfrannu'r gweddill yn y rhan fwyaf o achosion er bod rhai (megis Prifysgol Bangor) yn talu am y balans o gronfeydd craidd.

### *5.3.4 Llety*

Dywedwyd fod perthynas gref rhwng gwariant CAWG ar lety a chost llety yn lleol. Yng Nghaerdydd er enghraifft, mae gwariant ar lety yn gymharol isel gan fod costau llety'r brifysgol yn gyffredinol isel, tra bod y gwariant drwy CAWG a hefyd gostau llety yn uchel yn Aberystwyth. Fel canlyniad, mae Prifysgol Aberystwyth yn defnyddio dull llawer mwy llym o ariannu costau llety gan y gellir defnyddio'r CAWG ar gyfer hyd at 50% o gostau llety gorddyledus neu i lenwi diffyg o hyd at 50% o'r costau.

Mae ffactorau eraill yn dylanwadu ar y darlun hwn fodd bynnag, gan i lawer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch ddweud yn eglur eu bod yn cynghori myfyrwyr i roi blaenoriaeth i dalu costau llety yn y lle cyntaf. Yn unol â hyn, mae'n ofynnol i lawer o fyfyrwyr dalu rhent semester ymlaen llaw felly tueddant ddefnyddio eu benthygiad cynhaliaeth ar gyfer hyn. Fel canlyniad, mae cyllid CAWG yn cael ei godio yn erbyn mathau eraill o wariant mewn rhai prifysgolion, megis Caerdydd. Fodd bynnag mae prifysgolion eraill, megis Prifysgol Aberystwyth, yn tueddu i gofnodi gwariant CAWG yn erbyn costau llety er y defnyddiwyd y cyllid i gyfrannu'n fwy cyffredinol tuag at ddiffyg myfyriwr gan y dadleuwyd fod costau llety'n ffurfio rhan sylweddol o wariant yr ymgeisydd.

Fel y nodwyd yn flaenorol roedd y toriadau mewn cyllid CAWG Addysg Bellach yn golygu fod Sefydliadau Addysg Uwch yn gyffredinol yn gorfod defnyddio polisiau tynnach o amgylch llety a dywedodd cwpl o gyfweleion y defnyddir y gronfa yn awr i gefnogi'r myfyrwyr hynny sydd wirioneddol dan 'fygythiad o golli eu tai' neu gael eu troi allan o'u llety.

### *5.3.5 Gofal Plant*

Fel y trafodwyd yn Adran 5.2, nododd pob Sefydliad Addysg Uwch heblaw Prifysgol Aberystwyth a'r Brifysgol Agored wariant ar ofal plant. Fodd bynnag, dangosodd ein gwaith maes y byddai myfyrwyr a dderbyniodd gyllid CAWG yn Aberystwyth wedi derbyn cyfraniad tuag at ofal plant os oedd eu gwariant yn cynnwys costau gofal plant ond y byddai hynny wedi ei gofnodi dan benawdau cyffredinol llety neu gostau byw cyffredinol.

Caiff y rhan fwyaf o ofynion myfyrwyr am gyllid gofal plant ei dalu drwy'r Grant Gofal Plant, er bod Sefydliadau Addysg Uwch yn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio cyllid CAWG i dalu em eu cyfraniad personol o 15% os na allant dalu'r costau hyn o'u hincwm eu hunain. Mae Sefydliadau Addysg Uwch hefyd yn defnyddio CAWG ar gyfer costau gofal plant ar gyfer y myfyrwyr hynny nad ydynt wedi cael mynediad i'r Grant Gofal Plant os ydynt yn cyflawni eu meini prawf penodol ar gymhwyster.

Mae'r sefyllfa ym Mhrifysgol Glyndŵr yn eithriad, gan y gall myfyrwyr gael mynediad i CAWG ar gyfer cymorth gofal plant heb gael prawf modd. Gwarantir mynediad i fyfyrwyr i'r diffyg o 15% yn eu dyraniad o'r Grant Gofal Plant os defnyddiant y cyfleusterau gofal plant sydd ar y safle, sydd yn gorff masnachol annibynnol er bod ganddo gysylltiadau hanesyddol gyda'r sefydliad. Fel arfer mae ymgeiswyr sy'n defnyddio darpariaeth gofal plant arall ymaith o'r safle yn gallu cael mynediad i gyllid ond ni warentir cymorth iddynt. Gall pwysau ar y gronfa CAWG yn y sefydliad hwn yn y dyfodol olygu y bydd prawf modd ar gyfraniadau gofal plant drwy CAWG fel a

ddigwyddodd ym Mhrifysgol Abertawe pan weithredwyd toridadau CAWG Addysg Bellach.

Nid oedd adborth gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr a gyfwelwyd yn awgrymu fod galw enfawr am gymorth ariannol tuag at ofal plant allan o oriau er nad yw hynny o reidrwydd yn wir am fyfyrwyr neilltuol, yn cynnwys rhai ar leoliadau megis myfyrwyr a ariannir gan y GIG.

### 5.3.6 Bwrsariaethau

Dangosodd ein gwaith maes beth tystiolaeth y defnyddir CAWG i ddyfarnu bwrsariaethau i fathau penodol o fyfyrwyr fel y digwyddodd mewn tair Prifysgol (Bangor, Abertawe a Morgannwg). Yn gyffredinol, dim ond cyfran fach o gyllid CAWG a ddefnyddir ar gyfer y diben hwn (ychydig dros £80,000 yn ystod 2010/11 gan fod ychydig dros 3% o gyfanswm y gyllideb) ac mae'n amrywio o tua 5% o wariant Morgannwg i 12% ym Mhrifysgol Abertawe a 13% ym Mhrifysgol Morgannwg<sup>30</sup>. Ymhellach mae hefyd yn wir mai dim ond nifer fechan (tua 10 i 30 myfyrwyr ym mhob un o'r tri sefydliad) sy'n derbyn bwrsariaeth CAWG yn flynyddol.

Ym Mhrifysgol Bangor dyfernir bwrsariaethau o £2,000 i ymadawyr gofal ail, trydydd a phedwaredd flwyddyn a myfyrwyr llety foyer yn ogystal â Bwrsariaethau Mynediad Ôlraddedig (ar gyfer graddedigion diweddar neu unigolion sy'n ddi-waith yn union cyn dechrau eu hastudiaethau ôlraddedig). Yn ystod 2010/11 myfyrwyr ôlraddedig oedd i gyfrif am fwyafrif gwariant Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe ar bwrsariaethau CAWG. Ym Mhrifysgol Morgannwg, mae bwrsariaethau o £1,000 ar gael i ymadawyr gofal llawn-amser a myfyrwyr llety foyer neu ddigartref (ond nid yn eu blwyddyn olaf) a £500 i fyfyrwyr rhan-amser os ydynt yn cyflawni'r gofynion cymhwyster perthnasol. Yn ystod 2010/11 dyrannwyd 70% o wariant bwrsariaeth CAWG Prifysgol Morgannwg i fyfyrwyr addysg bellach.

Mae'r adborth gan sefydliadau sy'n gweinyddu'r bwrsariaethau hyn yn awgrymu eu bod yn ddull effeithlon o gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu amgylchiadau eithriadol megis ymadawyr gofal ac unigolion digartref, yn arbennig lle nad oes cymorth bwrsariaeth arall ar gael. Dywedwyd hefyd fod y defnydd o CAWG ar gyfer y diben hwn wedi'i gyfyngu i nifer fach iawn o fyfyrwyr yn y prifysgolion hyn ac y cafodd y meini prawf ar gyfer dyfarnu cyllid eu tynhau mewn rhai achosion yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

---

<sup>30</sup> Seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru 2010/11

## 6. CAWG A DARPARIAETH GIG

### 6.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon trafodwn ddefnydd penodol CAWG i gefnogi myfyrwyr a ariannir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Yn gyntaf (yn Adran 6.2) trafodwn y pecyn presennol o gymorth ariannol i fyfyrwyr sydd ar gael ar gyfer myfyrwyr a ariannir gan GIG cyn troi i ymchwilio sut ac ar gyfer pa ddiben mae myfyrwyr GIG yn defnyddio cyllid CAWG (yn Adran 6.3). Yn olaf (yn Adran 6.4), cyflwynwn yr adborth o'n gwaith maes yn nhermau gwneud cymorth CAWG ar gael i fyfyrwyr GIG yn y dyfodol.

### 6.2 Pecyn Cymorth Ariannol GIG

Mae cymorth ariannol GIG ar gael i fyfyrwyr sy'n derbyn lleoedd a ariannwyd gan GIG ar gysiau'n arwain at gofrestru proffesiynol megis cyrsiau nyrsio neu fydwreigiaeth, cymhorthydd deintyddol neu weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru.

Talir y ffioedd hyfforddiant ar gyfer cyrsiau anfeddygol yn uniongyrchol gan y GIG felly nid yw'n ofynnol i fyfyrwyr cymwys dalu ffioedd dysgu. Cafodd y pecyn cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr a ariannir gan y GIG ei ddiwygio'n ddiweddar ac, fel o fis Medi 2012, caiff pob myfyriwr ar gysiau a ariannir gan y GIG yng Nghymru fynediad i'r un pecyn o gymorth ariannol (yn unol â'r newidiadau a gyflwynwyd yn Lloegr). Gall myfyrwyr newydd mewn nyrsio/bydwreigiaeth a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru yn awr gael mynediad i:

- Grant GIG o £1,000 heb brawf modd;
- Bwrsariaeth GIG gyda phrawf modd o hyd at £4,395 (yn dibynnu os yw myfyriwr yn byw'n annibynnol neu yng nghartref eu rhieni); a
- Mynediad i gymorth ychwanegol ar ffurf benthyciad cynhaliaeth o hyd at £2,324 (i fyny at gyfradd is o £1,811 ym mlwyddyn olaf astudio).

Cydnabuwyd yn eang yn ystod ein gwaith maes fod model blaenorol cyllido GIG yn fwy hael yn ei gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth<sup>31</sup> ac mae adborth gan Sefydliadau Addysg Uwch yn awgrymu y gall y myfyrwyr hyn yn awr wynebu diffygion sylweddol, gan fod cymaint â £2,000 y flwyddyn mewn rhai achosion. Er hyn, dadleuodd rhai bod y cymorth gwirioneddol a roddir i fyfyrwyr a ariannir gan y GIG yn dal yn llawer gwell nag oedd

---

<sup>31</sup> Derbyniodd myfyrwyr yn astudio diplomâu nyrsio a bydwreigiaeth Fwrsariaethau GIG heb ei asesu ar incwm ar gyfer cyfnod eu cwrs o gymharu gyda myfyrwyr eraill GIG a gafodd i gyd eu hasesu ar incwm.

flynyddoedd yn ôl.

Ar y llaw arall, dywedwyd hefyd y bu cyflwyno'r model ariannu cyfredol o fudd i fyfyrwyr eraill a ariannir gan y GIG sy'n awr â pheccynnau cymorth ariannol mwy hael, gan felly ddileu unrhyw ddiffyg cydraddoldeb yn y cymorth sydd ar gael.

Yn ychwanegol, mae myfyrwyr a ariannir gan y GIG yn parhau i fedru cael mynediad i lwfansau eraill, yn cynnwys:

- Presenoldeb Wythnosau Ychwanegol os yw cwrs yn rhedeg am fwy na 30 wythnos a 3 diwrnod yn y flwyddyn academiaidd;
- Lwfans Dibynyddion gyda phrawf modd o hyd at £2,400 ar gyfer rhai gydag oedolion dibynnol neu blant;
- Lwfans gofal plant gyda phrawf modd sydd ar gael i fyfyrwyr gyda phlant dibynnol 14 oed ac iau, neu 16 oed ac iau os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig, o hyd at 85% o wir gostau gofal plant;
- Lwfans dysgu rhieni gyda phrawf modd o hyd at £1,180 y flwyddyn;
- Costau lleoliad ymarfer ar gyfer costau teithio i leoliad ymarfer ac unrhyw gostau llety;
- Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (tebyg i'r un ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch eraill).

Gall myfyrwyr a ariannir gan y GIG sy'n astudio yng Nghymru hefyd gael mynediad i gyllid caledi drwy'r cynllun CAWG Addysg Uwch a gwnânt hynny yn y pum prifysgol sy'n cyflwyno cyrsiau a ariannir gan y GIG<sup>32</sup>.

### **6.3 Sut mae myfyrwyr GIG yn cael mynediad i CAWG**

Roedd pob un o'r Sefydliadau Addysg Uwch a gymerodd ran yn yr astudiaeth yma wedi derbyn ceisiadau am gymorth CAWG gan fyfyrwyr GIG, er nad oedd dim wedi neilltuo unrhyw gyllid CAWG ar gyfer y diben yma. Roeddent i gyd yn neilltuo o ymwybodol o'r angen i drin eu dyraniadau CAWG mewn modd priodol i sicrhau fod gan fyfyrwyr GIG oedd yn dechrau yng nghanol tymor fynediad cyfartal i'r gronfa. Yn achos un sefydliad (Prifysgol Caerdydd), dim ond myfyrwyr GIG sy'n dechrau yng nghanol tymor ac felly roedd y rhifau cysylltiedig yn gwneud hyn yn hylaw.

Dywedwyd fod (neu y byddai) newidiadau diweddar i strwythur ariannu'r GIG yn cynyddu'r pwysau ar adnoddau CAWG, gan y cytunwyd yn gyffredinol fod myfyrwyr GIG yn fwy tebygol na

---

<sup>32</sup> Prifysgol Bangor (dau safle ym Mangor a Wrecscam), Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Abertawe



myfyrwyr eraill i fod angen cymorth ariannol CAWG oherwydd bod:

- Cyrsiau a ariannir gan y GIG yn tueddu i ddenu'n gymesur fwy o fyfyrwyr hŷn sy'n tueddu i fod ag anghenion mwy cymhleth: 'maen nhw'n ymddangos yn anghenus iawn';
- Cyrsiau a ariannir gan y GIG yn denu mwy o fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith a rhieni sengl sy'n fwy tebygol o fod â phlant ac angen cymorth gyda gofal plant;
- Gofyniad i fyfyrwyr a ariannir gan y GIG i astudio ar sail lawn-amser yn ogystal â dilyn lleoliadau gwaith sy'n aml yn golygu gwaith shifft (gan felly greu galw am ofal plant tu allan i oriau yn ogystal â chostau cludiant uwch) a chredid fod hyn yn gostwng eu gallu i gadw unrhyw waith taledig rhan-amser;
- Darpariaeth grant gofal plant GIG yn llai hael na darpariaeth statudol gofal plant.

Yn bennaf, caiff ceisiadau gan fyfyrwyr GIG eu hystyried yn yr un ffordd ag ar gyfer pob myfyriwr arall mewn Addysg Uwch. Fel canlyniad, credid eu bod yn cael eu gorgynrychioli yn nhermau derbyn cymorth fel y dywedodd un:

'Nid y Brifysgol yw'r unig un i gael problemau gyda'r gwasanaeth iechyd, nyrsys yn arbennig, yn gorfod gwneud cais i CAWG ... mae dwy Brifysgol arall wedi defnyddio cryn dipyn o'u dyraniad ar gyfer hynny hefyd.'

Penderfynodd un Sefydliad Addysg Uwch roi cap ar yr uchafswm a ddyfernir i sicrhau 'fod gennym arian i helpu cynifer ohonynt ag y gallwn.' Yn yr achos hwn cyflwynwyd cap o £1,500 ar gyfer darpar nyrsys gyda phlant a chap o £1,000 ar gyfer rhai heb blant.

Credai'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch fod y nifer o geisiadau gan fyfyrwyr GIG a gymeradwywyd yn eu sefydliad yn gyffredinol fach e.e. roedd 10 darpar nyrs wedi derbyn cymorth CAWG mewn un Sefydliad Addysg Uwch ond maent yn tueddu i gyfrif am gyfran gweddol sylweddol o'r cyllid. Er enghraifft, mewn Sefydliad Addysg Uwch arall, roedd dyfarniadau i fyfyrwyr GIG yn cyfrif am 18% o'u CAWG a ddosbarthwyd yn ystod 2010/11 a 14% yn ystod 2011/12.

Ystyrid bod y cyfraniadau a wnaed i'r myfyrwyr hyn drwy'r cynllun CAWG yn cael effaith dybryd ar allu myfyrwyr i gwblhau eu cyrsiau. Credid fod cyllid drwy CAWG ar gyfer myfyrwyr GIG yn cael eu defnyddio'n bennaf i dalu am gostau gofal plant yn ogystal â chostau'n gysylltiedig gyda theithio i'r sefydliad (gan nad yw hyn yn gost gymwys dan y pecyn a ariannir gan y GIG).

#### **6.4 Pa mor briodol yw bod cymorth CAWG ar gael i fyfyrwyr GIG**

Credai cyfweleion yn gryf y dylai CAWG barhau i fod ar gael i fyfyrwyr a ariannir gan y GIG yn yr un ffordd ag oedd ar gael i fyfyrwyr eraill mewn Addysg Uwch. Ni fynegodd dim un o'r rhai a gyfwelwyd unrhyw ddymuniad cryf i ddychwelyd i'r model ariannu 'ar wahân' blaenorol ar gyfer myfyrwyr GIG. Awgrymodd rhai cynrychiolwyr o Sefydliadau Addysg Uwch, fodd bynnag, y dylid diwygio pecyn ariannol cyfredol y GIG fel bod gan fyfyrwyr GIG fynediad i lefelau cyfartal o lwfansau grant gofal plant a fyddai'n helpu i lacio'r pwysau ar gyllid CAWG yn y sefydliadau dan sylw.

## 7. CAWG YN Y SECTOR ADDYSG BELLACH

### 7.1 Cyflwyniad

Yn yr adran yma trafodwn y cyllid statudol a dewisol sydd ar gael i fyfyrwyr Addysg Bellach (Adrannau 7.2 a 7.3), cyn mynd ati i drafod canfyddiadau ein gwaith maes ar ffit CAWG gyda'r pecynnau cymorth hyn (Adran 7.4). Trown wedyn i drafod y rhesymeg a'r angen am gynllun CAWG Addysg Bellach (Adran 7.5), yn ogystal â rhai o'r materion cyd-destunol ehangach i'r sector (Adran 7.6). Yn olaf, trafodwn gynllun CAWG Addysg Bellach, yn cynnwys pa mor briodol yw grwpiau blaenoriaeth a gofynion preswyliaeth (Adran 7.7).

### 7.2 Cymorth Ariannol Statudol a Dewisol i Fyfyrwyr Addysg Bellach

Gall myfyrwyr Addysg Bellach gael mynediad i gymorth ariannol drwy ddau brif gynllun, yn dibynnu ar eu hoedran ac incwm eu haelwyd, sef y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad.

#### 7.2.1 Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gael i ddinasyddion y Deyrnas Unedig<sup>33</sup> 16 i 18 oed sy'n byw yng Nghymru ac sy'n astudio cyrsiau Addysg Bellach (sef TGAU, lefelau A neu AS, BTEC, GNVQ, NVQ neu gyrsiau sgiliau sylfaenol o leiaf 10 wythnos o hyd). Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad ddangos fod incwm eu haelwyd un ai'n £20,817 neu'n llai os mai hwy yw'r unig blentyn neu'n byw'n annibynnol, neu £23,077 neu lai os oes unrhyw bobl ifanc ychwanegol yn astudio'n llawn-amser ac yn gymwys am fudd-dal plant yn yr aelwyd. Mae myfyrwyr yn derbyn £30 yr wythnos, a gaiff ei dalu bob dwy wythnos.

#### 7.2.2 Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach)

Mae Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) ar gael i ddinasyddion y Deyrnas Unedig<sup>34</sup> 19 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru ac sy'n astudio cyrsiau Addysg Bellach am o leiaf 275 awr y flwyddyn (yn cynnwys cyrsiau megis TGAU, lefelau A neu AS, BTEC, GNVQ, NVQ neu gyrsiau sgiliau sylfaenol). Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos fod incwm eu haelwyd yn £18,370 neu lai er mwyn derbyn y cyllid. Gall myfyrwyr ddisgwyl derbyn hyd at £1,500 os ydynt yn astudio'n llawn-amser neu hyd at £750 os ydynt yn astudio'n rhan-amser, yn dibynnu ar incwm eu haelwyd - er enghraifft, gall myfyrwyr gydag incwm aelwyd o hyd at £6,120 ddisgwyl derbyn y

---

<sup>33</sup> Mae rhai myfyrwyr nad ydynt yn ddinasyddion y Deyrnas Unedig hefyd yn gymwys am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg

<sup>34</sup> Mai rhai myfyrwyr nad ydynt yn ddinasyddion y Deyrnas Unedig hefyd yn gymwys am Grant Dysgu'r Cynulliad

swm llawn tra gall y rhai gydag incwm aelwyd yn agos at yr uchafswm o £18,170 ddisgwyl derbyn £300 ar gyfer astudiaeth ran-amser a £450 ar gyfer astudiaeth lawn-amser.

### 7.2.3 Cyllid Dewisol Addysg Bellach

Heblaw am CAWG, mae llai o gyllid dewisol ar gael i fyfyrwyr o fewn y sector Addysg Bellach nag sydd o fewn y sector Addysg Uwch. Mae'r cyllid dewisol sydd ar gael yn cynnwys:

- Cronfa Thomas Howell sydd ar gael i golegau yng Ngogledd Cymru (dangosodd ein gwaith maes fod y gronfa hon yn cael ei defnyddio mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, mewn un achos fe'i defnyddir i bennaf i gefnogi costau cludiant myfyrwyr ac mewn un arall caiff ei uno i'r cynllun CAWG);
- Bwrsariaethau plant sy'n derbyn gofal ar gyfer myfyrwyr yn gadael gofal;
- Cyllid prosiect Genesis Cymru 2 ar gyfer darpariaeth gofal plant i gefnogi unigolion yn ôl i waith a ariannir drwy gyllid Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

## 7.3 Canfyddiadau o 'ffit' CAWG Addysg Bellach gyda chyllid statudol a dewisol i fyfyrwyr

Yn gyffredinol, credid fod gan Cynllun CAWG Addysg Bellach 'ffit' da gyda darpariaeth arall cymorth myfyrwyr a dywedodd nifer o gynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Uwch, gan y defnyddir CAWG i raddau helaeth i ariannu 'anghenion' penodol megis teithio, gofal plant ac offer, ei fod yn ategu amcanion y darpariaethau statudol (Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg) oedd ar gael ar gyfer dibenion cyffredinol i gael eu defnyddio gan y myfyrwyr fel y gwelent yn dda. Dywedodd un cyfwelai, 'Nid yw'r cronfeydd hynny [Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg] yn cyflawni anghenion, maent yn cyflawni sefyllfaoedd ariannol'.

Ar draws y sector Addysg Bellach, derbyniwyd yn eang mai'r myfyrwyr o aelwydydd incwm is a allai gael mynediad i gymorth ariannol statudol un ai drwy'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg neu Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) oedd hefyd fwyaf tebygol o gyrchu cronfeydd CAWG Addysg Bellach, gan fod prawf modd incwm aelwyd ar y rhan fwyaf o achosion o'r dyraniad cyllid ar draws y sector Addysg Bellach, yn hytrach na diffygion gwirioneddol myfyrwyr fel sy'n digwydd gydag Addysg Uwch. Nid felly y mae hi bob amser fodd bynnag (gweler Adran 8.3), gan fod nifer fechan o Sefydliadau Addysg Uwch yn eithrio rhai sy'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad neu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg rhag gwneud cais am CAWG, heblaw ar gyfer dibenion penodol iawn.

## 7.4 Rhesymeg ac Angen

Mae'r ymateb llethol o'r sector Addysg Bellach yn dangos angen gwirioneddol i CAWG gefnogi myfyrwyr Addysg Bellach ac roedd pob sefydliad yn awyddus i bwysleisio fod mynediad i'r gronfa yn 'sylfaenol' i fyfyrwyr. Tanlinellodd nifer o gynrychiolwyr Addysg Bellach yr angen i Sefydliadau Addysg Bellach fedru cefnogi myfyrwyr 16-18 oed yn yr un ffordd ag ysgolion, lle mae dysgwyr yn aml yn cael mynediad i gludiant am ddim a phrydau ysgol am ddim, er y gellid ystyried ei bod yn amhriodol defnyddio CAWG yn y ffordd yma fel dull hyrwyddo. Yn olaf, soniodd o leiaf hanner dwsin o'r sefydliadau a gyfwelwyd fod yr angen am y gronfa yn amlwg o'r galw amdano a dywedodd rhai eu bod yn gynyddol yn gweld mwy o alw am y dyraniadau nag oedd ar gael. Dywedodd un cyfwelai neilltuol:

'Rwyf wedi gwario dyraniad y flwyddyn nesaf yn barod: byddai fy rhestr aros yn mynd â holl ddyraniad y flwyddyn nesaf ... Doedd gen i ddim digon o arian ar gyfer eleni felly ... maent wedi'i ohirio am flwyddyn'.

Dywedwyd fod y cynnydd mewn galw i raddau helaeth oherwydd newid mewn ffactorau economaidd, er fod rhai'n barod i gyfaddef y gallai fod oherwydd bod sefydliadau'n dysgu sut i ddefnyddio'r gronfa'n fwy effeithlon yn ogystal â chwtogiad mewn gwir dermau yn y dyraniadau i Sefydliadau Addysg Bellach oherwydd nad oedd dyraniadau blynyddol Llywodraeth Cymru yn cael eu cynyddu gyda chwyddiant.

## 7.5 Materion Cyd-destun

### 7.5.1 *Uno colegau*

Roedd llawer o'r colegau a gymerodd ran yn y gwerthusiad yma yn wynebu uno posibl neu'n debygol iawn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys uno posibl rhwng Coleg Powys a Choleg Castell Nedd Port Talbot; Coleg Ystrad Mynach a Choleg Morgannwg; Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) De a WEA Coleg Harlech yn ogystal â Choleg Iâl a Choleg Glannau Dyfrdwy. Yn yr holl achosion hyn roedd effaith bosibl yr uno ar gynllun CAWG yn anhysbys i raddau helaeth ac ni chynhaliwyd unrhyw drafodaethau yn unrhyw un o'r sefydliadau hyn am y mater adeg y gwaith maes.

Lle'r oedd colegau eisoes wedi uno, gwnaed ymdrechion sylweddol i ddefnyddio polisïau a dulliau gweithredu cyson - bu hyn yn anodd yn yr achosion hynny lle arferai fod gwahaniaethau sylweddol mewn dulliau. Roedd colegau bob amser wedi cadw'r dyraniadau blaenorol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob safle.

Arweiniodd uno Coleg Abertawe a Choleg Gorseinon i ffurfio Coleg Gŵyr Abertawe at aliniad yn y system gyffredinol ar linellau'r Coleg Abertawe blaenorol, ond cadwyd rhai gwahaniaethau ar draws y ddau gampws yn sut yr ariannir darpariaeth cludiant. Mae'r sefydliad newydd wedi cadw'r un dyraniadau cyllid ag a weinyddwyd yn flaenorol, ond mae'r newid mewn dull gweithredu, sy'n cynnwys hyrwyddo llawer mwy rhagweithiol ar CAWG ar gampws Gorseinon nag a welwyd yn flaenorol, wedi arwain at gynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr yng Ngorseinon sy'n gwneud cais am gymorth teithio, sydd wedi rhoi pwysau ar gyllidebau'r campws hwnnw.

Yn achos coleg arall (Coleg Glan Hafren a Choleg y Barri a unodd i ffurfio Coleg Caerdydd a'r Fro), defnyddiwyd dull cyffredin ar gyfer gweinyddu'r gronfa, yn seiliedig i raddau helaeth ar fodel blaenorol Coleg Glan Hafren, ond bu hyn yn anodd gan fod y sefydliadau blaenorol yn defnyddio dulliau gweithredu hollol wahanol. Er enghraifft, tra bod Coleg Glan Hafren wedi mabwysiadu meini prawf un trothwy ar gyfer dyfarnu cyllid, mae gan Goleg y Barri fodel llawer mwy cymhleth yn seiliedig ar raddfa lithro, gyda myfyrwyr o aelwydydd incwm is yn gallu cael mynediad i 100% o'r lwfans sydd ar gael, tra gall rhai ar yr uchafswm trothwy dderbyn 30% o'r lwfans. Ymhellach, mae mabwysiadu un polisi cyffredin wedi golygu y gall myfyrwyr Coleg y Barri gael darpariaethau newydd (yn arbennig dalebau cinio), sydd wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ddyraniad CAWG y Coleg.

#### *7.5.2 Colegau a Phrifysgolion yn Uno*

Gwelsom un enghraifft lle'r oedd coleg wedi uno gyda phrifysgol (Coleg Merthyr a Phrifysgol Morgannwg), ond nid oedd yr uno wedi cael unrhyw effaith ar y ffordd yr oedd CAWG yn cael ei drin yn y naill na'r llall o'r sefydliadau hyn. Cedwid y dyraniadau ar gael i bob sefydliad ar wahân ac roeddent yn cael eu trin yn lleol gan bob sefydliad.

#### *7.5.3 Uno colegau a chweched dosbarth ysgolion*

Dangosodd ein gwaith maes y credid y byddai newidiadau i'r system drydyddol ar gyfer rhai 16-18 oed yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau CAWG gan fod nifer uwch o fyfyrwyr yn debygol o ddod yn gymwys amdano. Dangosodd ein gwaith maes fod diffyg eglurdeb sylweddol am sut y bydd hyn yn effeithio ar golegau unigol e.e. fel yn achos Merthyr Tudful, lle bydd addysg chweched dosbarth yn trosglwyddo i'r Sefydliad Addysg Bellach ym mis Medi 2013. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi trafod y mater neilltuol hwn gyda'r Coleg.

## **8. YMAGWEDD SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH AT CAWG**

### **8.1 Cyflwyniad**

Mae'r bennod yma, yn gyntaf yn Adran 8.2 yn delio gyda barn y sector ar Gynllun Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd i Sefydliadau Addysg Bellach (yn cynnwys canllawiau am grwpiau blaenoriaeth a gofyniad preswyliaeth). Wedyn, yn Adran 8.3, mae'n trafod rhai o'r polisïau cyffredinol a ddefnyddiwyd gan Sefydliadau Addysg Bellach wrth ddyfarnu CAWG.

### **8.2 Cynllun Llywodraeth Cymru**

Fel gyda'r sector Addysg Uwch, dywedodd cyfweleion o Sefydliadau Addysg Bellach fod cynllun Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o hyblygrwydd iddynt i ddiwallu eu hanghenion a'u gofynion lleol. Cafwyd sylwadau mwy cymysg gan gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach fodd bynnag, am yr angen i gryfhau neu newid y cynllun - roedd tua hanner y sefydliadau yn fodlon gyda'r lefel canllawiau a gafwyd gan ddweud ei fod yn cynnig hyblygrwydd digonol iddynt heb fod yn rhy rhagnodol. Serch hynny, byddai'r hanner arall yn croesawu arwydd gwell o sut y dylid gwario cyllid gan y byddai hynny'n eu galluogi i ddefnyddio dull mwy cyson ac felly decach o asesu myfyrwyr. O gofio fod pob sefydliad wedi datblygu ei bolisïau a'i systemau ei hun, dywedodd un o'r cyfweleion fod 'asesiad angen yn faes lle mae rhai Sefydliadau Addysg Bellach yn teimlo ychydig yn simsan weithiau. Yn wir, dywedodd llawer o gynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach y dylai'r sector fod yn fwy cyson gyda sut y caiff incwm aelwydydd ei gyfrif, y gofynion tystiolaeth a roddir ar fyfyrwyr a sut y caiff ffurflenni cais eu strwythuro. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog datblygiad o'r fath a bu'n gweithio gyda'r sector i ddatblygu mwy o gysondeb. Dywedodd un cyfwelai y gellid cyflawni'r datblygiadau hyn o'r tu mewn i'r sector yn hytrach na thrwy gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru: 'hunan-reoleiddio yn hytrach na rheoleiddio gan y llywodraeth', efallai drwy Grŵp Cyngori Addysg Bellach.

#### **8.2.1 Grwpiau Blaenoriaeth**

Fel gyda'r sector Addysg Uwch, credai mwyafrif llethol y cyfweleion o Sefydliadau Addysg Bellach fod y grwpiau blaenoriaeth a ddynodwyd yng nghynllun Llywodraeth Cymru yn dderbyniol. Soniodd llawer ei bod yn fanteisiol eu bod yn wir yn grwpiau 'blaenoriaeth' yn hytach na grwpiau 'ecslwsiw' gan fod y cynllun yn cynnig hyblygrwydd digonol i Sefydliadau Addysg Bellach i allu darparu ar gyfer amgylchiadau lleol. Cydnabuwyd yn eang hefyd mai'r 'un grwpiau' oedd yn tueddu i dderbyn cymorth drwy CAWG â chyllid statudol arall, er nad oedd hyn yn wir

bob amser.

Nid oedd unrhyw wir ddymuniad ymysg y rhai a gyfwelwyd dros osod unrhyw drefn blaenoriaeth ar gyfer y grwpiau a ddylai dderbyn cymorth ariannol drwy'r Gronfa ar lefel genedlaethol. Er y cydnabuwyd yn eang mai myfyrwyr gyda phlant oedd yr un grŵp sy'n tueddu i dderbyn y swm mwyaf o gyllid drwy'r cynllun ym mhob sefydliad a bod y grŵp hwn yn cael blaenoriaeth mewn llawer o achosion, ni chredai unrhyw un o'r rhai a gyfwelwyd y byddai'n fuddiol rhoi blaenoriaeth agored i'r grŵp hwn dros grwpiau eraill. Y brif ddadl a roddwyd oedd bod y grŵp yma'n cael mynediad i swm anghymesur o gyllid gan fod gofal plant yn ddrud ac ofnai sefydliadau na fedrent ddiwallu anghenion myfyrwyr eraill. Awgrymodd o leiaf dri sefydliad, gan fod eu sefydliad eu hunain yn ystyried fod 'gofalwyr' yn grwpiau blaenoriaeth, y gallai fod yn werth rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer y dyfodol.

Yn bennaf, credai cyfweleion fod y math o ddarpariaethau y gellid eu hariannu drwy gynllun CAWG Addysg Bellach yn gyffredinol addas gan eu bod yn trin 'y rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynd i goleg'. Yn gyffredinol dim ond nifer fechan o gynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach a alwodd am fwy o eglurdeb ar y darpariaethau y gellid eu hariannu ac nid oedd unrhyw ddymuniad gwirioneddol i osod unrhyw drefn blaenoriaeth ar gyfer y math o ddarpariaethau a ddylai dderbyn cyllid.

### *8.2.2 Gofynion Preswyliaeth*

Roedd rhanddeiliaid a chynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach yn gyffredinol fodlon gyda'r gofynion preswyliaeth a amlinellwyd yng Nghynllun CAWG Addysg Bellach, gan ychwanegu bod y sector Addysg Bellach yn tueddu i gefnogi mwy o fyfyrwyr yn hanu o Gymru na'r sector Addysg Uwch ac felly maent yn gyffredinol yn gorfod ymwneud llai â materion cymhwyster preswyliaeth ymysg ymgeiswyr. Yr unig eithriad oedd galwad gan ddau Sefydliad Addysg Bellach i gynnwys ceiswyr lloches o fewn y grŵp cymwys gan y credid fod mwyafrif y gwrthodiadau a wnaed yn un o'r Sefydliadau Addysg Bellach hyn ar gyfer y grŵp yma. Er hyn, nid oedd unrhyw archwaeth ymysg y rhai a gyfwelwyd i gyfyngu CAWG i fyfyrwyr yn hanu o Gymru a dywedodd ychydig o'r Sefydliadau Addysg Bellach yn gweithredu yn ardal y Gororau y byddai hyn yn creu anawsterau iddynt gan y byddai'n arwain at anfantais wirioneddol i fyfyrwyr yn hanu o Loegr.

### **8.3 Polisïau CAWG Addysg Bellach**

Mae gwahaniaethau amlwg yn y polisïau a ddefnyddir gan Sefydliadau Addysg Bellach unigol ar gyfer gweinyddu CAWG, yn fwyaf arbennig yn nhermau'r cymhwyster a osodwyd ar gyfer



trothwyon incwm, p'un ai oedd myfyrwyr yn derbyn dulliau eraill o gymorth ariannol drwy Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a pha mor bell y mae myfyriwr yn gorfod ei deithio o'u cartref i'r coleg.

Mae'r rhan fwyaf, ond nid y cyfan, o Sefydliadau Addysg Bellach yn defnyddio dull prawf modd at CAWG lle mae myfyrwyr yn gorfod dangos fod incwm blynyddol eu haelwyd yn is na throthwy neilltuol. Mewn achosion o'r fath ni roddir unrhyw ystyriaeth i amgylchiadau unigol oherwydd os yw myfyrwyr yn cyrraedd y trothwy a osodwyd maent yn awtomatig yn gymwys am gymorth CAWG (os nad yw'r cyllid wedi ei ddihsbyddu).

Mae'r trothwy incwm yn amrywio o un sefydliad i un arall - mae rhai fel Coleg Glannau Dyfrdwy a Grŵp Llandrillo Menai, yn defnyddio'r un trothwyon incwm a osodwyd ar gyfer Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) ar ychydig dros £18,000 tra bo eraill (megis Coleg Sir Benfro) yn defnyddio trothwy incwm y Lwfans Cynhaliaeth Addysg o tua £23,000. Mae eraill yn gosod eu trothwyon incwm eu hunain, sy'n tueddu i fod ar gyfraddau uwch ac yn amrywio o tua £20,000 i derfyn uchaf o £25,000 (er fod un Sefydliad Addysg Bellach yn defnyddio terfyn uchaf o £32,000 tan yn ddiweddar iawn). Lle mae sefydliadau'n gosod eu trothwyon eu hunain, byddai'n ymddangos fod ffactorau hanesyddol yn ogystal â cheisio gwneud i'r dyraniadau ffitio'r galw'n dylanwadu'n sylweddol arnynt - dywedodd o leiaf bedwar sefydliad wrthym eu bod wedi gostwng eu trothwyon mewn blynyddoedd diweddar oherwydd y galw cynyddol ar y cyllid.

Roedd rhai o'r Sefydliadau Addysg Bellach sy'n defnyddio dull prawf modd (yn neilltuol rai oedd wedi'i halinio gyda throthwyon Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach), hefyd yn gweithredu polisïau ychwanegol lle na allai'r rhai yn derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) ond hawlio am ddarpariaeth gyfyngedig. Er enghraifft, ni allai rhai'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Ngholeg Morgannwg a'r rhai'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) yng Ngholeg Sir Benfro ond hawlio am lwfansau gofal plant a chludiant (er yn achos Coleg Morgannwg byddai'r coleg yn ystyried achosion eithriadol). Yn yr un modd yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, ni allai myfyrwyr a ariannwyd drwy'r Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) yn gyffredinol wneud cais am CAWG os nad oeddent yn ceisio cymorth ar gyfer dibenion gofal plant. Yn olaf, ni all myfyrwyr sy'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Ngholeg Powys wneud cais am CAWG os nad oes ganddynt anghenion penodol.

Mae hefyd enghreifftiau o Sefydliadau Addysg Bellach sy'n defnyddio gwahanol drothwyon prawf modd ar gyfer myfyrwyr yn dibynnu ar y ddarpariaeth y maent yn ceisio cymorth ar ei

chyfer. Er enghraifft, yng Ngholeg Morgannwg mae'n rhaid i'r myfyrwyr ddangos incwm dros ben o lai na £10,000 y flwyddyn i fod yn gymwys am dalebau cinio tra bod y trothwy yn £20,000 ar gyfer myfyrwyr 19 oed a throsodd sydd angen cymorth teithio.

Dim ond nifer fach iawn (yn cynnwys Coleg Powys er enghraifft) nad ydynt yn gyffredinol yn gosod uchafswm trothwy incwm ar gyfer myfyrwyr i fod yn gymwys am gymorth CAWG - er yn achos Coleg Powys, mae'n gwneud hynny ar gyfer cymorth gofal plant yn unig.

Roedd bron bob un o'r Sefydliadau Addysg Bellach a gyfwelwyd yn cynllunio gwariant y Gronfa drwy ddyraniadau cyllideb ar wahân - gwnaed hyn mewn ffordd fwy ffurfiol wedi'i neilltuo mewn rhai sefydliadau, a esboniodd y caiff 'swm ei glustnodi' ar gyfer darpariaethau neilltuo ar ddechrau'r flwyddyn. Ym mwyafrif yr achosion teimlid fod y dull gweithredu yma'n neilltuo o bwysig lle'r oedd y galw yn gyffredinol uwch na'r adnoddau ar gael. Roedd neilltuo gofal plant yn ogystal â chlodiant yn fwy cyffredin nag ar gyfer darpariaethau eraill. Dywedodd un cyfwelai:

'Pe na fyddem ni'n neilltuo arian, mae'n debyg y gallem wario'r holl swm ar ofal plant a llety fyddai'n difreinio myfyrwyr argyfwng sy'n dod i mewn, nad oes ganddyn nhw unrhyw arian ar gyfer cinio, heb fwyta, o gefndiroedd tlawd iawn. Fe fyddem ni'n colli llawer o fyfyrwyr yn dilyn hynny.'

Mae'n ganfyddiad allweddol yn yr ymchwil fod mwyafrif y ddarpariaeth a ariannir yn strwythurol o ran natur - mewn geiriau eraill, yn cyfeirio at anghenion y medrir eu rhagweld, megis gofal plant, cludiant i'r coleg neu lyfrau ac offer sydd eu hangen ar gyfer cwrs penodol - er fod rhai Sefydliadau Addysg Bellach yn cadw cyllid yn ôl ar gyfer materion caledi argyfwng. Mewn llawer o achosion, rhoddir cyllid o CAWG ar gyfer yr anghenion y medrir eu rhagweld ar ddechrau'r cwrs os yw'r myfyriwr yn dod o aelwyd sydd dan y trothwy a weithredir gan y Sefydliad Addysg Bellach (mewn geiriau eraill ni weithredir unrhyw brawf penodol o amgylchiadau'r unigolion ar wahân i incwm aelwyd). Yn gysylltiedig â hyn, mae tueddiad i'r rhan fwyaf o golegau weinyddu cyllid ar sail 'cyntaf i'r felin' amlwg sy'n golygu fod cyfran sylweddol o ddyraniadau Sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu hymrwymo yn ystod y tymor academaidd cyntaf (ac mewn rhai achosion cyn i'r tymor ddechrau gan y gall myfyrwyr wneud cais pan fyddant yn ymrestru). Dangosir hyn mewn data a ddychwelwyd gan 11 Sefydliad Addysg Bellach yn Nhabl 16 islaw. Fel canlyniad, mae'n ddealladwy fod gwariant ar ddarpariaethau megis gofal plant, cludiant, llety ac offer yn cymryd rhan fwyaf y gwariant ar draws y sector.

Tabl 16: Cyfran CAWG a ddyrennir neu a ddyfernir fel arfer cyn neu yn ystod y tymor academaidd cyntaf.

2010/11 (%)	Cyfanswm
Coleg Gŵyr	100
Castell Nedd Port Talbot	Bron y cyfan <sup>35</sup>
Coleg Penybont	99
Coleg Ystrad Mynach	95
Grŵp Llandrillo Menai	90
Coleg Powys	80
Coleg Gwent	70
Coleg Morgannwg	44
Coleg Merthyr	37
Coleg YMCA	33
WEA De Cymru	30

Ffynhonnell: Sefydliadau Addysg Uwch

Soniodd rhai Sefydliadau Addysg Bellach eu bod yn fwriadol yn gor-ddyrannu ar ddechrau'r tymor oherwydd fod profiad wedi dangos fod y nifer fechan o fyfyrwyr sy'n cael cynnig cymorth (yn neilltuol gymorth gyda chostau gofal plant) yn gadael yn ystod camau cyntaf y cwrs, gan felly alluogi'r sefydliad i wario ei ddyraniad llawn. Soniodd llawer o Sefydliadau Addysg Bellach y caiff cyllid CAWG ei ddarparu ar amod presenoldeb da, gyda nifer yn dweud fod yn rhaid i fyfyrwyr gyflawni cyfradd presenoldeb y Sefydliad Addysg Bellach (a osodir fel arfer ar 80 - 85%) yn unol gyda gofynion y Lwfans Cynhaliaeth Addysg er mwyn parhau i dderbyn cyllid ar gyfer darpariaethau fel gofal plant a chludiant.

Dyweddodd sawl cyfwelai o Sefydliadau Addysg Bellach fod yr ystod darpariaethau a ariannwyd wedi 'culhau' mewn blynyddoedd diweddar oherwydd pwysau a galw cynyddol ar y gronfa. Er enghraifft, mewn un sefydliad dywedodd un cyfwelai 'ychydig flynyddoedd yn ôl, fe fyddem yn dyrannu i gategoriâu eraill fel llyfrau ac offer, ond mae gofal plant yn gymaint drutach nawr nag oedd dair blynedd yn ôl, mae cymaint llai ar gael ar gyfer pethau fel llyfrau ac offer. Mae gofal plant, llety a theithio yn mynd ag ef yn awr, lle'r arferem fedru lledaenu llawer mwy arno.'

Dyweddodd mwyafrif y cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach iddynt weld cynnydd mewn ceisiadau gan fyfyrwyr o aelwydydd yn arddangos caledi ariannol mewn blynyddoedd diweddar, felly roedd y gyfran o fyfyrwyr sy'n awr yn cyrraedd trothwyon incwm CAWG wedi cynyddu.

<sup>35</sup> Yr holl gronfa heblaw am £10,000 o ddarpariaeth argyfwng

Dyweddodd sawl cyfwelai o Sefydliadau Addysg Bellach fod eu cyllid wedi ei ddihysbyddu mewn blynyddoedd diweddar, ond er hyn roedd derbyniad cyffredinol o ddyraniadau Sefydliadau Addysg Bellach unigol (er bod cryn nifer heb weld y fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid). Dywedodd un cyfwelai yn neilltuol fod cyllid CAWG ar gyfer y sector Addysg Bellach wedi'i ostwng bedair i bum mlynedd yn ôl ac er bod hynny wedi achosi problemau i'r sector ar y pryd, bod cyllidebau wedi eu hadfer i'r lefelau blaenorol mewn blynyddoedd dilynol.

### *8.3.1 Ystyriaeth o geisiadau rhan-amser a llawn-amser*

Dim ond un Sefydliad Addysg Bellach (Coleg Glannau Dyfrdwy) a ddywedodd wrthym eu bod yn gweithredu polisi nad oedd yn galluogi myfyrwyr rhan-amser i wneud cais am CAWG, er bod y rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Bellach (heblaw'r rhai oedd yn darparu ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn unig) yn credu fod defnydd CAWG yn gyffredinol wedi'i gyfyngu i fyfyrwyr llawn-amser.

### *8.3.2 Ymgeiswyr oedd eisoes wedi cael CAWG yn y gorffennol*

Cytunwyd yn gyffredinol y byddai myfyrwyr Addysg Bellach yn gwneud ceisiadau blynyddol i gronfa CAWG ac, mewn rhai achosion, dywedodd ymatebwyr o Sefydliadau Addysg Bellach wrthym y byddai myfyrwyr yn dychwelyd yn cael blaenoriaeth dros fyfyrwyr blwyddyn gyntaf mewn ymdrech i wella cyfraddau cwblhau cyrsiau. Fodd bynnag, soniodd sawl Sefydliad Addysg Bellach nad oedd derbyn cyllid CAWG yn y flwyddyn flaenorol yn rhoi unrhyw warant y byddai unrhyw fyfyrwr o'r fath yn derbyn cymorth CAWG yn y dyfodol - ac yn wir, gwelsom rai myfyrwyr o'r fath yn ystod ein grwpiau ffocws a gafodd cymorth CAWG yn eu blwyddyn gyntaf ond nid eu hail flwyddyn. Lle mae myfyrwyr yn ail-ymgeisio yn ystod yr un flwyddyn, mae hynny fel arfer ar gyfer cymorth cyllid argyfwng neu galedi. Mae eu tebygrwydd o dderbyn cymorth yn dibynnu i raddau helaeth ar p'un ai yw'r cyllid wedi ei ddihysbyddu ai peidio.

### *8.3.3 Gofyniad i wneud cyfraniad myfyrwyr*

Fel yr awgrymwyd eisoes, mae rhai Sefydliadau Addysg Bellach yn gweithredu polisïau lle mae'n ofynnol i'r sawl sy'n derbyn CAWG wneud cyfraniad tuag at y costau a ddynodwyd: mewn rhai o'r achosion hyn dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd polisi o'r fath. Rhoddir rhai enghreifftiau islaw:

- Mae nifer o Sefydliadau Addysg Bellach yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gyfrannu tuag at gost gofal plant gan amrywio o gyfraniad o 25% yng Ngholeg Penybont, i 10% yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy a 5% yng Ngholeg Morgannwg. Mewn achosion eraill (e.e. Coleg Powys) mae'n ofynnol i fyfyrwyr gyfrannu tuag at gostau heb ymwneud â gofal megis cewynnau a bwyd). Yn Abertawe, gall myfyrwyr gael costau gofal plant am

dri diwrnod ar wythnos (ar y dybiaeth y bydd yn rhaid i'r myfyrwyr felly dalu am ddiwrnod pellach - er yn ymarferol y canfuwyd fod hyn yn ffafrio rhai cyrsiau a gyflwynir dros dri diwrnod yn unig);

- Mae nifer fechan o Sefydliadau Addysg Bellach yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n gymwys am CAWG i gyfrannu tuag at gost offer y bernir fod ei angen ar gyfer y cwrs maent yn ei astudio - mae'n arferol i Sefydliadau Addysg Bellach godi tâl ar fyfyrwyr am y darpariaethau hyn neu ddisgwyl iddynt eu prynu'n uniongyrchol. Mae'r cyfraniad a geisir gan y myfyriwr yn amrywio o 40% yng Ngholeg Penybont i 50% yng Ngholeg Ystrad Mynach a Choleg Glannau Dyfrdwy;
- Mae cwpl o Sefydliadau Addysg Bellach yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n gymwys am CAWG i gyfrannu tuag at gost llyfrau, megis cyfraniad o 25% yng Ngholeg Penybont;
- Mae gan nifer fach o Sefydliadau Addysg Bellach bolisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr sy'n hawlio CAWG i wneud cyfraniad cymesur yn dibynnu ar incwm eu haelwyd. Er enghraifft, cyflwynodd Coleg Sir Benfro bolisi'n ddiweddar lle byddai gan ymgeiswyr o aelwydydd gydag incwm is hawl i 100% o gyllid CAWG, gyda'r gyfran yn gostwng i 50% i ymgeiswyr oedd yn cyrraedd yr uchafswm trothwy incwm cymwys. Yn yr un modd, mae Coleg Merthyr yn gweithredu polisi lle mae'n ofynnol i bob myfyriwr sy'n cael cymorth gofal plant a bwrsariaeth wneud cyfraniad yn ddibynnol ar incwm aelwyd y myfyriwr - rhaid i rai gydag incwm o hyd at £13,000 gyfrannu 5%, a rhai gydag incwm o £40,000 gyfrannu 60%.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson. Er enghraifft, rhoddodd Coleg Powys y gorau'n ddiweddar i godi cyfraniad gan fyfyrwyr am ofal plant gan na ystyrid fod hyn yn effeithlon oherwydd, os oedd y myfyriwr yn methu talu eu cyfraniad i'r feithrinfa, byddai'r feithrinfa yn cael anhawster i sicrhau'r arian.

Roedd cyfweleion yn fodlon rhoi sylwadau ar fanteision ac anfanteision gofyn i fyfyrwyr gyfrannu at gostau y byddai'r CAWG yn eu talu fel arall. Roedd y prif fanteision yn ymwneud â gallu'r Sefydliad Addysg Bellach i gefnogi nifer fwy o fyfyrwyr ('gwneud i'r gronfa fynd ymhellach') yn ogystal â rhoi mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb i fyfyrwyr am y gwariant, gan felly gynyddu eu hymrwymiad i'w hastudiaethau; teimlid, er enghraifft, lle'r oedd offer myfyrwyr ar gyfer cwrs (e.e. trin gwallt) wedi'i ariannu'n llawn gan CAWG, y teimlent lai o euogrwydd am adael - efallai'n eironig, o gofio am fwriad CAWG i gynorthwyo cadw myfyrwyr.

Fodd bynnag, roedd y brif anfantais a nodwyd gan gyfweleion yn ymwneud â'r gwaith gweinyddol ychwanegol i'r Sefydliadau Addysg Bellach - yn neilltuol lle'r oedd offer yn cael ei

brynu'n gryswth gan wahanol adrannau ar hyn o bryd gan y byddai'n rhaid bilio myfyrwyr am eu cyfraniad tuag at y gost. Ymhellach pwysleisiodd ychydig o gyfweleion fod rhai myfyrwyr yn methu fforddio gwneud cyfraniad.

#### *8.3.4 Cymorth ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach*

Dywedodd Sefydliadau Addysg Bellach oedd yn derbyn arian CAWG Addysg Bellach eu bod yn gallu darparu ar gyfer anghenion y myfyrwyr Addysg Uwch hynny oedd yn astudio yn eu sefydliad yn uniongyrchol tra mewn achosion eraill cyfeirid myfyrwyr Addysg Uwch at y Sefydliad Addysg Uwch perthnasol. Mynegodd nifer o gyfweleion bryder am y diwethaf (yn neilltuol gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch) gan y credid fod nifer y myfyrwyr a gefnogir gan Sefydliadau Addysg Uwch yn eithaf isel. Awgrymodd cyfweleion y gallai hyn fod yn ganlyniad diffyg ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr Addysg Uwch yn astudio mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn ogystal â myfyrwyr yn gorfod goresgyn mwy o rwystrau wrth gael mynediad i'r Gronfa drwy sefydliad anghyfarwydd.

#### *8.3.5 Defnyddio Benthyciadau*

Ychydig iawn o ddefnydd o fenthyciadau CAWG i fyfyrwyr a wneir gan Sefydliadau Addysg Bellach a dim ond dwy enghraifft o'r fath a ganfuwyd yn ystod ein gwaith maes. Newydd ei gyflwyno yn ystod 2011/12 am y tro cyntaf yr oedd un o'r Sefydliadau Addysg Bellach hyn. Yn yr achos hwn, defnyddiwyd benthyciadau i gefnogi myfyrwyr a oedd un ai'n hwyr yn derbyn eu taliad Lwfans Cynhaliath Addysg neu angen benthyciad caledi tymor byr. Mewn achos arall, defnyddiodd Sefydliad Addysg Bellach ei ddyraniad CAWG Addysg Bellach i wneud benthyciadau achlysurol, yn bennaf lle'r oedd benthyciadau myfyrwyr yn hwyr yn dod i law.

Yn gyffredinol, nid oedd cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach yn frwdfrydig am ddefnyddio benthyciadau, gan ddweud y byddai costau eu gweinyddu yn llawer mwy nag unrhyw fanteision yn eu darparu: cwestiynodd rhai hefyd allu myfyrwyr i ad-dalu unrhyw fenthyciadau a roddwyd. Mae hyn yn ei droi yn cyfeirio at ddefnydd CAWG i ariannu anghenion rhagweladwy parhaus yn hytrach nag argyfyngau 'unigol' uniongyrchol.

## **9. DEFNYDD CAWG YN Y SECTOR ADDYSG BELLACH**

### **9.1 Cyflwyniad**

Yn yr adran yma trafodwn y defnydd CAWG ar draws y sector Addysg Bellach - yn gyntaf yn Adran 9.2 drwy ymchwilio'r data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ail yn Adran 9.3 ystyriwn yr adborth o'n gwaith maes.

### **9.2 Defnydd CAWG yn y sector Addysg Bellach: Dadansoddiad o ddata**

Mae £7.0 miliwn o gyllid CAWG ar gael yn flynyddol ar hyn o bryd i 19 Sefydliad Addysg Bellach a phum Canolfan Cymraeg i Oedolion (CiO) ar draws Cymru<sup>36</sup>. Sefydliadau Addysg Bellach sy'n derbyn y mwyafrif llethol o'r dyraniad hwn (£6.9m), gydag ychydig dan £64,000 yn cael ei ddyrannu i'r Canolfannau CiO. Mae cyllid i Sefydliadau Addysg Bellach unigol wedi parhau yn ei unfan dros y tair blynedd ddiwethaf heblaw yn achos uno sefydliadau lle cafodd cyllidebau blaenorol eu cyfuno. Tri sefydliad (Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent a Grŵp Llandrillo Menai) sy'n derbyn y dyraniadau ariannol mwyaf a gyda'i gilydd maent i gyfrif am dros draean o gyllideb cynllun CAWG Addysg Bellach yn ystod 2012/13 fel y dangosir yn Nhabl 17.

---

<sup>36</sup> Caiff cyllid ar gyfer y chweched Canolfan CiO ei gynnwys yn y dyraniad a roddir yn uniongyrchol i Goleg Gwent gan fod y Ganolfan yma'n seiliedig o fewn Sefydliad Addysg Bellach yn hytrach na Sefydliad Addysg Uwch.

Tabl 17: Dyfarniad Blynyddol CAWG Addysg Bellach yn ôl Sefydliad

Sefydliad (£)	2012/13	2011/12	2010/11
Grŵp Llandrillo Menai <sup>37</sup>	865,017	668,602	668,600
Coleg Gwent	793,637	793,637	793,640
Coleg Caerdydd a'r Fro	730,227	730,227	481,020 <sup>38</sup>
Coleg Castell Nedd Port Talbot	558,183	558,183	558,180
Coleg Gŵyr Abertawe	556,758	556,758	556,760
Coleg Glannau Dyfrdwy	521,225	521,225	521,230
Coleg Morgannwg	544,587	544,587	554,590
Coleg Ystrad Mynach	389,660	389,660	389,660
Coleg Penybont	383,979	383,979	383,980
Coleg Sir Gâr	366,416	366,416	366,420
Coleg Iâl	284,760	284,760	284,760
Coleg Sir Benfro	243,276	243,276	243,280
Coleg Merthyr Tudful	225,464	225,464	225,460
Coleg Powys	198,062	198,062	198,060
Coleg Ceredigion	147,936	147,936	147,940
Coleg Pabyddol Dewi Sant	61,875	61,875	61,880
Coleg Harlech WEA Gogledd	37,155	37,155	37,160
WEA De	21,659	21,659	21,660
YMCA	6,147	6,147	6,150
Coleg y Barri <sup>39</sup>	N/A	N/A	249,200
Coleg Menai	N/A	196,415	196,420
Canolfannau Cymraeg i Oedolion	63,980	63,980	63,980
Cyfanswm	7,000,000	7,000,000	7,000,000

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gan droi at y data a gafwyd ar gyfer sefydliadau a dderbyniodd arian CAWG Addysg Bellach yn ystod 2010/11 (Sefydliadau Addysg Bellach a hefyd Ganolfannau CiO, er y cyflwynir trafodaeth ar Ganolfannau CiO unigol ym Mhennod 10). Defnyddiwyd mwyafrif helaeth (88%) cyllid CAWG Addysg Bellach yn ystod 2010/11 i gefnogi myfyrwyr llawn-amser a derbyniodd rhai 16-18 oed ychydig dros hanner (55%) y cyllid a ddosbarthwyd. Lle darparwyd cyllid i fyfyrwyr rhan-amser, roedd bron y cyfan yn 19 oed a throsodd fel y dangosir yn Nhabl 18. Fel y dangosir yn Nhabl 19, roedd dau Sefydliad Addysg Bellach (WEA De a'r YMCA) yn fwy tebygol o gefnogi myfyrwyr rhan-amser drwy'r Gronfa.

<sup>37</sup> Cyllid ar gyfer 2011/12 a 2010/11 yn seiliedig ar ddyraniad Coleg Llandrillo yn unig.

<sup>38</sup> Cyllid ar gyfer Coleg Glan Hafren yn unig yn ystod 2010/11

<sup>39</sup> Cyllid wedi'i gynnwys yn nyraniad Coleg Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2012/13 a 2011/12 oherwydd uno Coleg y Barri a Choleg Glan Hafren.



Tabl 18: CAWG Addysg Bellach Nifer myfyrwyr a gynorthwywyd

2010/11	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfanswm
Addysg Bellach (16-18)	10,210	115	10,325
Addysg Bellach (19+)	6,400	2,085	8,485
Cyfanswm	16,610	2,200	18,815

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'n werth nodi fod patrymau gwariant tri o'r colegau mwy (Coleg Gwent, Coleg Castell Nedd Port Talbot a Choleg Gŵyr Abertawe) yn llurgunio rhywfaint ar y llun gan iddynt rhyngddynt gofnodi 5,540 o'r 10,210 o fyfyrwyr 16-18 oed llawn-amser a gefnogwyd drwy'r cynllun, gan adlewyrchu'r ffaith eu bod yn ffynhonnell allweddol o ddarpariaeth 16-18 yn eu hardaloedd. Mewn gwirionedd, ym mwyafrif y colegau eraill (13 o'r 18), defnyddiwyd cyllid CAWG i gefnogi mwy o fyfyrwyr 19 oed a throsodd nag o fyfyrwyr 16-18 oed. Yn wir, wrth edrych ar y cyfanswm gwariant drwy Gynllun CAWG Addysg Bellach yn ystod 2010/11, defnyddiwyd mwyafrif y cyllid (£4.3m) i gefnogi myfyrwyr 19 oed a throsodd a defnyddiwyd £2.4m i gefnogi myfyrwyr 16-18 oed, gan awgrymu y dyfernir symiau llai fel arfer i fyfyrwyr iau (gweler Tabl 19).

Tabl 19: CAWG Addysg Bellach: Nifer myfyrwyr a gynorthwywyd yn ôl sefydliad

2010/11	16-18	19+	Cyfanswm
Coleg Gwent	3,375	540	3,915
Coleg Castell Nedd Port Talbot	1,115	510	1,630
Coleg Gŵyr Abertawe	1,050	435	1,485
Coleg Sir Gâr	660	565	1,230
Coleg Ystrad Mynach	545	645	1,185
Coleg Morgannwg	300	775	1,075
Grŵp Llandrillo Menai <sup>40</sup>	550	395	940
Coleg Glan Hafren	260	610	875
Coleg Penybont	610	250	865
Coleg Harlech WEA Gogledd	0	745	745
Coleg Menai	295	440	735
Coleg y Barri	205	435	640
Coleg Glannau Dyfrdwy	405	170	570
Coleg Merthyr Tudful	210	350	560
Coleg Iâl	75	345	420
WEA De	5	380	390
Coleg Pabyddol Dewi Sant	345	35	380
Coleg Sir Benfro	145	175	320
YMCA	65	115	180
Coleg Powys	55	110	165
Coleg Ceredigion	45	85	130
Canolfannau CiO (cyfan)	0	370	370
Cyfanswm	10,325	8,485	18,815

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wrth droi i ymchwilio'r darpariaethau a ariannwyd drwy Gynllun CAWG Addysg Bellach, dengys Tabl 20 fod dwy ddarpariaeth rhyngddynt yn cyfrif am bron dri chwarter y gwariant - gofal plant oedd cyfran uchaf (41%) y gwariant yn ystod 2010/11 gyda chlodiant yn dilyn (32%). Yn ôl y disgwyl, dyrannwyd y rhan fwyaf o gyllid gofal plant i rai 19 oed a throsodd, ac roedd ychydig dros hanner y gwariant ar gludiant ar fyfyrwyr 16 i 18 oed. Symiau cymharol fach a wariwyd ar ddarpariaethau megis costau deunyddiau papur ac anabledd yn ogystal â ffioedd arholiadau a chofrestru. Mae'r data a gyflwynir yn Nhabl 20 yn ei gwneud yn bosibl cyfrif maint cyfartalog y dyfarniad a wnaed yn ôl darpariaeth a gellir gweld fod y dyfarniadau cyfartalog uchaf ar gyfer gofal plant (£1,600 fesul dyfarniad), gyda chlodiant i fyfyrwyr anabl yn dilyn (£1,500 fesul

<sup>40</sup> Cyllid ar gyfer 2011/12 a 2010/11 yn seiliedig ar ddyraniad Coleg Llandrillo yn unig.

Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn

dyfarniad) ac wedyn lety (ar £580).

Tabl 20: Gwariant CAWG Addysg Bellach yn ôl darpariaeth <sup>41</sup>

2010/11 (£)	Dyfarniad 16-18	16-18 £	Dyfarniad 19+	19+ £	Cyfanswm Dyfarniadau	Cyfanswm £
Gofal Plant	85	203,000	1,650	2,572,430	1,735	2,775,420
Cludiant	5,740	1,234,040	3,995	960,790	9,735	2,194,830
Talebau Cinio	2,210	381,830	910	128,940	3,120	510,770
Offer	2,480	258,720	1,460	134,020	3,940	392,740
Cludiant i'r Anabl	25	39,660	210	312,060	235	351,720
Llety	110	155,850	265	64,840	380	220,690
Arall	505	47,440	855	80,850	1,355	128,290
Tripiâu	565	62,220	140	8,890	705	71,210
Llyfrau	995	32,350	565	18,700	1,560	51,050
Ffioedd Arholiadau	50	3,040	400	24,670	450	27,710
Ffioedd Cofrestru	45	2,250	310	24,710	355	26,950
Costau Anabledd	*	580	*	990	5	1,570
Deunyddiau Papur	5	370	*	20	10	390
Cyfanswm	12,820	2,421,340	10,760	4,332,000	23,580	6,753,330

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gellir gwneud rhai sylwadau diddorol ar y darpariaethau hyn gan Sefydliadau Addysg Bellach unigol:

- Gofal plant oedd y gwariant mwyaf mewn 11 Sefydliad Addysg Bellach<sup>42</sup> a dosbarthodd pob Sefydliad Addysg Bellach heblaw dau (YMCA a Choleg Pabyddol Dewi Sant) gyllid ar gyfer y diben yma. Roedd maint y dyfarniad cyfartalog ar gyfer gofal plant yn amrywio'n helaeth rhwng sefydliadau, gyda'r uchaf yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy (£3,900), Merthyr Tudful (£3,700) a Choleg Morgannwg (£3,500) a'r isaf ymysg Sefydliadau Addysg Bellach yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi darpariaeth ran-amser megis WEA De (£119) a WEA Coleg Harlech (£189);
- Cludiant oedd y gwariant mwyaf mewn pedwar Sefydliad Addysg Bellach (Coleg Sir Gâr, Coleg Glan Hafren, Coleg Gwent a Choleg Gŵyr Abertawe), ac mae gan bob un ohonynt nifer sylweddol o fyfyrwyr 16-18 oed wedi ymrestru i astudio lefelau A a chyrsgiau galwedigaethol a darparodd y cyfan heblaw un (Coleg Glannau Dyfrdwy) gyllid ar gyfer y diben yma. Eto roedd y dyfarniadau cyfartalog ar gyfer cludiant yn amrywio gyda dyfarniadau uchel yn lâl (£496), Penybont (£460), Sir Benfro (£403) a Gŵyr (£200);

<sup>41</sup> Nid yw nifer y dyfarniadau a wnaed yn gyfartal â nifer y myfyrwyr a gefnogwyd oherwydd fod rhai myfyrwyr wedi derbyn mwy nag un dyfarniad.

<sup>42</sup> Ceredigion, Glannau Dyfrdwy, lâl, Llandrillo, Menai, Merthyr Tydfil, Morgannwg, Penybont, Powys, Y Barri ac Ystrad Mynach

- Costau cludiant i'r anabl oedd y gwariant mwyaf mewn un Sefydliad Addysg Bellach (Coleg Pabyddol Dewi Sant) ond ar £15,000 roedd hyn yn llawer is nag ar gyfer nifer o Sefydliadau Addysg Bellach eraill a wariodd symiau sylweddol ar ddarpariaeth o'r fath yn cynnwys Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Llandrillo a Choleg Sir Benfro. Ni ddosbarthodd 11 Sefydliad Addysg Bellach unrhyw gyllid CAWG ar gostau cludiant i'r anabl;
- Dosbarthodd wyth Sefydliad Addysg Bellach gyllid ar gyfer llety ac roedd y gwariant cyfartalog fesul myfyriwr ar lety yn £581. Roedd y dyfarniadau cyfartalog yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy a Choleg Llandrillo yn llawer uwch;
- Talebau cinio oedd y gwariant mwyaf mewn un Sefydliad Addysg Bellach (Coleg Castell Nedd Port Talbot, a briodolwyd yn bennaf i gynnydd mewn galw yn dilyn cyflwyno system dalu cardiau newydd a gyflwynwyd yn lle'r system dalebau flaenorol) a dosbarthodd cyfanswm o 12 Sefydliad Addysg Bellach gyllid ar gyfer hyn. Roedd y gwariant cyfartalog dan y pennawd yma yn amrywio o £69 (Coleg Glannau Dyfrdwy) at £201 (Coleg Penybont) gyda'r cyfartaledd cyffredinol yn £163;
- Darpariaethau 'arall' oedd i gyfrif am y gwariant mwyaf mewn un Sefydliad Addysg Bellach (WEA Coleg Harlech) a'r maes ail fwyaf o wariant mewn un arall (Coleg Ceredigion);
- Dosbarthodd pob un o'r 21 Sefydliad Addysg Bellach gyllid ar gyfer offer, gyda'r symiau cyfartalog yn amrywio o £282 yng Ngholeg Morgannwg a £264 yng Ngholeg Llandrillo i symiau llawer llai o dan £100 mewn nifer o rai eraill;
- Dosbarthodd 15 sefydliad gyllid ar gyfer llyfrau, ond nid oedd cyfanswm y gwariant ar lyfrau yn uwch na £12,000 mewn unrhyw un sefydliad;
- Dosbarthodd 12 Sefydliad Addysg Bellach gyllid ar ymweliadau ac nid oedd unrhyw ddyfarniad unigol yn fwy na £143 yn y categori yma o wariant. Dyfarnodd Coleg Llandrillo nifer anarferol o uchel o ddyfarniadau (325) ar gyfer ymweliadau, ond roedd y nifer yn llawer is mewn Sefydliadau Addysg Bellach eraill;
- Dosbarthodd naw Sefydliad Addysg Bellach gyllid ar gyfer ffioedd arholiadau, saith ar gyfer ffioedd cofrestru a dosbarthodd dau Sefydliad Addysg Bellach (Coleg Gwent a Choleg Sir Benfro) gyllid ar gyfer deunyddiau papur;
- Yr YMCA oedd yr unig sefydliad i ddyfarnu costau'n gysylltiedig ag anabledd ac yn cyfrif am yr holl wariant dan y pennawd yma.

Roedd gwerth cyfartalog cymorth ariannol a roddwyd i fyfyrwyr drwy Gynllun CAWG Addysg Bellach yn ystod 2010/11 yn £359 ond amrywiai'r ffigur hwn ar draws sefydliadau: roedd gwerth cyfartalog cymorth fesul myfyriwr ar ei uchaf yng Ngholeg Powys (£1,160) gyda Choleg Ceredigion (£980) a Choleg Glannau Dyfrdwy (£910) yn dilyn ac ar ei isaf yn yr YMCA (£31),

Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn

WEA De (£37) a WEA Coleg Harlech (£52). Fel y gwelir yn Nhabl 21, roedd mwyafrif y dyfarniadau a wnaed drwy'r cynllun i gefnogi myfyrwyr gyda symiau o rhwng £100 a £1,000, er y cefnogwyd nifer sylweddol o fyfyrwyr (4,845) gyda llai na £100 o gyllid. Cefnogwyd cryn nifer o fyfyrwyr (390) hefyd gyda chyllid o £3,500 neu drosodd a chaiff y sefydliadau hynny a wariodd symiau uwch na'r cyfartalog ar ofal plant eu cynrychioli'n dda yn y grŵp yma.

Tabl 21: Dyfarniadau CAWG Addysg Bellach yn ôl gwerth.

2010/11		Llai na £100	£100 - £999	£1,000 - £3,499	£3,500 a mwy	Cyfanswm
Coleg Gwent	Nifer	320	3,580	20	*	3,915
	Symiau	22,500	709,440	33,970	5,090	771,010
Coleg Llandrillo	Nifer	95	700	100	45	940
	Symiau	6,160	228,590	188,750	230,280	653,790
Coleg Glan Hafren	Nifer	140	685	20	30	875
	Symiau	4,760	280,890	62,590	131,870	480,120
Coleg Morgannwg	Nifer	165	845	25	40	1,075
	Symiau	6,510	302,340	50,220	210,020	569,090
Coleg Gŵyr Abertawe	Nifer	35	1,395	40	15	1,485
	Symiau	1,340	387,800	71,320	59,710	520,170
Coleg Glannau Dyfrdwy	Nifer	305	145	60	60	570
	Symiau	9,910	31,480	159,800	317,340	518,530
Coleg Castell Nedd Port Talbot	Nifer	320	1,260	40	10	1,630
	Symiau	12,790	363,780	90,120	40,570	507,270
Coleg Ystrad Mynach	Nifer	600	525	30	35	1,185
	Symiau	25,270	114,440	60,340	177,810	377,860
Coleg Penybont	Nifer	270	530	50	20	865
	Symiau	13,780	183,580	100,690	76,050	374,090
Coleg Sir Gâr	Nifer	45	1,135	40	10	1,230
	Symiau	2,380	195,120	97,380	39,330	334,210
Coleg Iâl	Nifer	85	255	55	30	420
	Symiau	3,460	49,580	85,670	135,930	274,630
Coleg Merthyr Tudful	Nifer	295	225	15	25	560
	Symiau	11,810	58,590	28,340	143,210	241,950
Coleg Sir Benfro	Nifer	100	170	35	15	320
	Symiau	2,730	58,280	74,720	98,140	233,880
Coleg y Barri	Nifer	115	490	25	10	640
	Symiau	5,760	122,320	64,930	32,880	225,890

Gwerthusiad o'r Cronfeydd Ariannol wrth Gefn

Coleg Menai	Nifer	420	280	25	10	735
	Symiau	22,350	66,260	50,040	54,760	193,410
Coleg Powys	Nifer	15	95	45	10	165
	Symiau	880	30,650	102,760	57,000	191,300
Coleg Ceredigion	Nifer	20	80	10	20	130
	Symiau	620	37,190	15,890	73,630	127,330
Coleg Pabyddol Dewi Sant	Nifer	205	170	5	*	380
	Symiau	1,210	36,010	13,430	4,250	54,900
Coleg Harlech WEA Gogledd	Nifer	495	250	0	0	745
	Symiau	13,380	25,200	0	0	38,580
WEA De	Nifer	375	10	0	0	390
	Symiau	12,090	2,360	0	0	14,440
YMCA	Nifer	175	5	0	0	180
	Symiau	3,950	1,570	0	0	5,520
Canolfannau CiO (cyfan)	Nifer	260	115	*	0	375
	Symiau	8,850	32,660	3,870	0	45,390
Cyfan	Nifer	4,845	12,945	635	390	18,815
	Symiau	192,500	3,318,140	1,354,840	1,881,850	6,753,330

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gwnaed cyfanswm o 21,115 cais am Gynllun CAWG Addysg Bellach yn ystod 2010/11 a dim ond 2,300 a wrthodwyd gan y sefydliad gweinyddu (cyfradd gwrthod o 11%, sy'n llawer is na'r gyfradd ar gyfer Addysg Uwch o 21%). Yng Ngholeg Iâl oedd y gyfran uchaf o wrthodiadau (41%), gyda Choleg Sir Benfro (ar 37%) a Choleg Penybont (ar 36%) yn dilyn. Mae'n ddiddorol na wrthodwyd unrhyw geisiadau mewn saith Sefydliad Addysg Bellach<sup>43</sup> yn bennaf oherwydd y prosesau hidlo effeithlon a ddefnyddiwyd ganddynt.

Fel y gwelir yn Nhabl 22, y prif reswm am wrthod cyllid i ymgeiswyr oedd nad oeddynt yn cyflawni blaenoriaeth eu sefydliad ac roedd hyn i gyfrif am 41% o bob gwrthodiad. Dyma oedd y rheswm mwyaf o bell am wrthod cyllid yng Ngholeg Gwent (68% o bob gwrthodiad) a Choleg Iâl (61%), gan awgrymu nad yw'r ddau sefydliad yma'n cynghori darpar ymgeiswyr am natur y gronfa i'r un graddau ag a wnaiff Sefydliadau Addysg Bellach eraill. Roedd diffyg tystiolaeth yn cyfrif am draean o'r gwrthodiadau a dyma oedd y prif reswm dros wrthod ceisiadau yng Ngholeg Penybont a Choleg Gŵyr Abertawe. Er mai cyfran cymharol fach (12%) o wrthodiadau a wnaed ar y sail fod y Gronfa wedi ei dihysbyddu, dyma oedd y prif fater yng Ngholeg Castell Nedd Port

<sup>43</sup> Sef Coleg Glannau Dyfrdwy, WEA Coleg Harlech, Coleg Menai, Coleg Pabyddol Dewi Sant, WEA De, YMCA a Choleg Ystrad Mynach

Talbot (ar 54%) a chafodd ei nodi fel ffactor gan gyfanswm o wyth Sefydliad Addysg Bellach.

Tabl 22: Rheswm dros wrthod ceisiadau i Gynllun CAWG Addysg Bellach

2010/11	Nifer a Wrthodwyd
Dim yn cyflawni blaenoriaeth y sefydliad am ddefnyddio cyllid	950
Tystiolaeth annigonol o galedi ariannol	725
Dyraniad CAWG y sefydliad wedi ei ddihysbyddu	275
Arall	275
Myfyriwr yn derbyn cymorth o ffynonellau eraill	215
Cyfanswm	2,300
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru	

Yn nhermau gwariant yn ystod 2010/11, dosbarthwyd £6.753m yn erbyn dyraniad Llywodraeth Cymru o £7m am y flwyddyn honno ac roedd yr union swm oedd ar gael yn £7.287m<sup>44</sup>.

Dychwelodd tri Sefydliad Addysg Bellach (Coleg Sir Gâr, Coleg Ceredigion a WEA De) yn ogystal â thair Canolfan CiO gyllid i Lywodraeth Cymru, yn gyfanswm o ychydig dan £44,000 (0.6% o gyfanswm dyraniad Addysg Bellach am y flwyddyn honno) ar gyfer 2010/11. Roedd pob un ond tri o'r Sefydliad Addysg Bellach (Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Gwent a Choleg Llandrillo) wedi dod â pheth cyllid ymlaen i 2011/12. Defnyddiodd 18 Sefydliad Addysg Bellach gyfran o'u dyraniad i gyfrannu tuag at y costau gweinyddiaeth a chyhoedduswyd yn gysylltiedig gyda chynllun CAWG Addysg Bellach ac roedd y cyfanswm costau (2.3%) yn rhwydd o fewn cynllun Llywodraeth Cymru a osodwyd ar 3%. Mae Tabl 23 yn cyflwyno'r data yma.

<sup>44</sup> Yn cynnwys cyllid a ddygwyd ymlaen o 2009/10, unrhyw logau a gronwyd a benthyciadau a ad-dalwyd o 2009/10

Tabl 23: CAWG Addysg Bellach: dyraniad, dosbarthiad a dychwelwyd

Sefydliad	Dyraniad 2010/11	Cyllid a ddosbarthwyd yn 2010/11 <sup>45</sup>	Swm a wariwyd ar weinyddiaeth cyhoeddusrwydd	Cyllid i'w ddydwelwyd i AdAS £ <sup>46</sup>
Coleg Gwent	793,640	771,010	23,810	0
Coleg Llandrillo	668,600	653,790	15,000	0
Coleg Castell Nedd Port Talbot	558,180	507,270	16,750	0
Coleg Gŵyr Abertawe	556,760	520,170	16,700	0
Coleg Morgannwg	554,590	569,090	16,340	0
Coleg Glannau Dyfrdwy	521,230	518,530	2,960	0
Coleg Glan Hafren	481,020	480,120	70	0
Coleg Ystrad Mynach	389,660	377,860	11,690	0
Coleg Penybont	383,980	374,090	11,520	0
Coleg Sir Gâr	366,420	334,210	10,990	15,360
Coleg Iâl	284,760	274,630	8,540	0
Coleg y Barri	249,200	225,890	0	0
Coleg Sir Benfro	243,280	233,880	7,300	0
Coleg Merthyr Tudful	225,460	241,950	0	0
Coleg Powys	198,060	191,300	5,630	0
Coleg Menai	196,420	193,410	5,890	0
Coleg Ceredigion	147,940	127,330	4,440	2,460
Coleg Pabyddol Dewi Sant	61,880	54,900	1,860	0
WEA Coleg Harlech	37,160	38,580	0	*
WEA De	21,660	14,440	650	6,510
YMCA	6,150	5,520	530	0
Canolfannau CiO (cyfan)	63,980	45,380	2,250	20,720
Cyfanswm	7,000,000	6,753,330	162,910	43,950

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Dengys data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru y gwyddys fod 1,300 o fyfyrwyr a gefnogwyd drwy CAWG Addysg Bellach wedi gadael eu sefydliad cyn gorffen eu cwrs. Mae hyn yn gyfradd gadael o 6.9% ar draws CAWG Addysg Bellach.

### 9.3 Defnydd CAWG yn y sector Addysg Bellach: Adborth gwaith maes

Trown yn awr i drafod yr adborth o'n gwaith maes am rai o'r prif feysydd darpariaeth lle defnyddir cyllid CAWG, sef gofal plant, cludiant, offer, darpariaethau caledi ac argyfwng yn ogystal â thalebau cinio.

<sup>45</sup> Sy'n cynnwys cyllid a ddygwyd ymlaen o 2009/10 ac unrhyw logau a enillwyd yn ystod 2010/11

<sup>46</sup> Yn eithrio unrhyw gyllid a ddygwyd ymlaen o ddim mwy na 10% yn 2010/12 ac unrhyw wariant ar gostau archwilio



### 9.3.1 Gofal Plant

Dangosodd ein gwaith maes fod gofal plant yn parhau i fod y maes darpariaeth mwyaf yn nhermau gwerth gwariant a dywedodd nifer o Sefydliadau Addysg Bellach iddynt weld cynnydd yn y galw am gostau gofal plant mewn blynyddoedd diweddar. Yn wir, dywedodd o leiaf bedwar o'r colegau'n benodol eu bod wedi methu ateb y galw am geisiadau gofal plant yn ystod y flwyddyn academaidd a bod ganddynt gronfa ddata wrth gefn y gobeithient allu ei hariannu drwy arbedion cyllid (h.y. myfyrwyr yn gadael) neu roi cymorth iddynt yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Ni chredai cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach fod polisi diweddar Llywodraeth Cymru o gyflwyno lleoedd meithrin am ddim i bob plentyn teirblwydd wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar y galw am CAWG ar gyfer gofal plant - i raddau helaeth oherwydd y credid bod y galw yn uchel beth bynnag.

Mae polisiâu'n amrywio yn nhermau'r cymorth y gall myfyrwyr gael mynediad iddo a byddai'n ymddangos y bu'n rhaid i sefydliadau wneud newidiadau i'r polisiâu hyn mewn blynyddoedd diweddar i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol am gyllid. Er enghraifft:

- Mae rhai'n gweithredu uchafswm lwfans dyddiol y gall myfyrwyr ei dderbyn drwy gronfa CAWG ar gyfer gofal plant ond mae'r gyfradd yma'n amrywio o un sefydliad i'r llall, yn dibynnu i raddau helaeth ar ffioedd lleol. Yng Ngholeg Morgannwg, er enghraifft, mae myfyrwyr yn derbyn hyd at £35 y dydd ar gyfer un plentyn (gyda'r Sefydliad Addysg Bellach yn cyfrannu hyd at 95% o'r union gost). Mewn coleg arall (Coleg Gŵyr Abertawe) mae myfyrwyr yn derbyn uchafswm o £32 y diwrnod ar gyfer pob plentyn am uchafswm o dri diwrnod yr wythnos gyda disgwyl i fyfyrwyr dalu am y dyddiau eraill eu hunain;
- Nid oes gan eraill (megis Coleg Powys) uchafswm cyfradd, gan ddadlau y cânt eu cyfyngu gan yr hyn y mae darparwyr lleol yn ei godi;
- Nododd nifer o Sefydliadau Addysg Bellach y disgwylant i fyfyrwyr gyfrannu at gost gofal plant (mae'r enghreifftiau uchod yng Ngholeg Morgannwg a Choleg Gŵyr Abertawe yn dangos hyn, tra disgwylir i fyfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai wneud lefelau amrywiol o gyfraniad tuag at y costau, yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a chaiff y cyfraniad sydd ei angen hefyd ei amrywio yn ôl nifer y plant y mae myfyrwyr angen cymorth tuag atynt);
- Mae o leiaf un Sefydliad Addysg Bellach yn gweithredu polisi lle mai dim ond am gostau gofal plant un plentyn y byddant yn ei dalu;
- Mewn Sefydliad Addysg Bellach arall, rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr yn ail flwyddyn y cwrs i annog dilyniant a chwblhau cwrs.

Mynegodd nifer fechan o Sefydliadau Addysg Bellach bryderon sylweddol am y symiau a werir ar ofal plant drwy CAWG, yn neilltuol gan mai dim ond nifer fechan iawn o ddysgwyr oedd yn cael budd o symiau mawr. Er fod Sefydliadau Addysg Bellach yn gyffredinol barod i gyflawni eu hymrwymadau cyfredol yn nhermau gofal plant, roedd rhai'n dechrau ystyried sut i gadw'r ddysgl yn fwy gwastad rhwng ariannu gofal plant a chefnogi anghenion eraill myfyrwyr, gan awgrymu y daw polisiau Sefydliadau Addysg Bellach yn llymach maes o law. Er enghraifft, roedd un Sefydliad Addysg Bellach yn edrych ar sut y gellid cyflwyno rhai cyrsiau (yr oedd eu myfyrwyr yn defnyddio llawer o CAWG ar gyfer dibenion gofal plant) mewn pedwar diwrnod yn hytrach na phum diwrnod.

Dangosodd ein gwaith maes fod gan rai colegau eu meithrinfeydd eu hunain, fel arfer yn eu prif gampws. Ar gyfer y Sefydliadau Addysg Bellach hynny gyda meithrinfeydd ar y campws, mae eu polisiau CAWG ar ddefnyddio'r cyfleusterau hyn yn amrywio. Gwelsom un achos lle mae sefydliad yn cyfyngu ei gyllid gofal plant CAWG i'w defnyddio yn ei meithrinfa coleg ei hunan tra bod gan ddau arall bolisi lle mai dim ond os yw meithrinfa eu hunain yn llawn y maent yn barod i dalu am ddarpariaeth gofal plant arall. Mewn un Sefydliad Addysg Bellach o'r fath, dim ond yn ddiweddar ar gyfer 2012/13 y cyflwynwyd y polisi yma a chydnabuwyd y gall ei gyflwyno fod â goblygiadau sylweddol i rai myfyrwyr dros gwrs eu hastudiaeth gan y gallai fod yn ofynnol iddynt symud eu plant i'r cyfleuster ar y safle neu i fod heb arian ar gyfer gofal plant. Nododd Sefydliadau Addysg Bellach eraill eu bod yn 'annog' y rhai sy'n derbyn CAWG i ddefnyddio meithrinfa'r coleg lle'n bosibl ac mae'r gweddill yn galluogi myfyrwyr i ddewis y darparwydd gofal plant o'u dewis. Roedd o leiaf ddau o'r Sefydliadau Addysg Bellach a gyfwelwyd yn barod i gyfaddef na fyddai eu meithrinfa eu hunain yn bodoli heblaw am CAWG.

Credai mwyafrif helaeth y cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach y dylid caniatáu iddynt ddefnyddio cyllid CAWG i gefnogi myfyrwyr a ddymunai ddefnyddio cyfleuster gofal plant Sefydliad Addysg Bellach ond yn bennaf, y dylai hyn gael ei seilio ar ddewis myfyrwyr yn hytrach na bod yn bolisi a orfodwyd gan y Sefydliad Addysg Bellach.

### *9.3.2 Cludiant*

Mae gan bolisiau awdurdodau lleol ar ddarpariaeth cludiant i fyfyrwyr dan 19 oed ddylanwad sylweddol ar p'un ai a ddefnyddir CAWG ar gyfer y diben yma. Yn bennaf, lle mae'r awdurdod lleol yn talu am gostau cludiant myfyrwyr rhwng 16 a 18, ni ddefnyddir CAWG ar gyfer hyn. Dyma oedd yn digwydd yng Ngholeg Ceredigion, Coleg Morgannwg a Choleg Sir Benfro er enghraifft.

Mae ychydig o awdurdodau lleol wedi newid eu polisiau ar gludo myfyrwyr 16-18 oed i safleoedd coleg yn ddiweddar, a nodwyd Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn fel enghreifftiau penodol. Yn yr achosion yma mae'n awr yn ofynnol i fyfyrwyr dalu am basiau bws i fynychu cyrsiau Addysg Bellach yng Ngwynedd a chafodd hyn effaith sylweddol ar ddefnydd cyllid CAWG i gefnogi myfyrwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai lle mae costau cludiant yn gyfran llawer uwch o'r costau yn gysylltiedig ag elfen Coleg Menai o gymharu â Choleg Llandrillo (gan fod Cyngor Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn parhau i dalu am gludiant rhai 16 i 18 oed). Mae'n debygol y bydd y galw am gyllid i dalu am gostau teithio yn cynyddu ar draws Sefydliadau Addysg Bellach os yw'r symudiad tuag at drefniadau trydyddol yn parhau.

Mae hefyd yn wir na fydd llawer o awdurdodau lleol fel arfer yn talu am gostau teithio myfyrwyr i sefydliadau addysgol y tu allan i'w sir (hyd yn oed mewn achosion lle mae'r Sefydliad Addysg Bellach agosaf at y myfyriwr y tu allan i'r awdurdod lleol) ac felly defnyddir CAWG mewn llawer o achosion i helpu ariannu costau myfyrwyr sy'n teithio o awdurdod lleol cyfagos.

Mae trefniadau ar gyfer ariannu teithio myfyrwyr, lle'n gymwys dan CAWG, yn amrywio ac yn cynnwys modelau lle bydd sefydliad yn dod i gytundeb gyda darparydd teithio i ddarparu bws coleg penodol yn ogystal â modelau lle mae'r coleg yn prynu pasiau bws i fyfyrwyr. Mae Sefydliadau Addysg Bellach hefyd yn defnyddio polisiau gwahanol iawn ar y pellter rhwng cartref y myfyriwr a choleg a fernir i fod yn gymwys am gymorth dan CAWG.

Dywedodd nifer o Sefydliadau Addysg Bellach wrthym eu bod wedi defnyddio CAWG i dalu am gostau cludiant myfyrwyr anabl mewn blynyddoedd diweddar gan y teimlid fod darpariaeth dda ar eu cyfer yn awr drwy ffynonellau cyllid eraill megis lwfansau symudedd a chyllid awdurdodau lleol. Gall fod goblygiadau ar adnoddau CAWG yn y dyfodol fodd bynnag os yw awdurdodau lleol yn gweithredu unrhyw doriadau i gyllidebau cludiant myfyrwyr anabl fel canlyniad i ganlyniad pwysau ar gyllid llywodraeth leol.

### *9.3.3 Offer*

Cydnabu Sefydliadau Addysg Bellach fod rhai cyrsiau angen i fyfyrwyr brynu offer - gydag angen i fyfyrwyr yn aml wario rhwng £200 a £300 ar ddechrau'r tymor ar gyfer cyrsiau megis trin gwallt, harddwch, arlwy, ceffylau a chrefftau eraill. Mae llawer o Sefydliadau Addysg Bellach yn defnyddio cyllid CAWG ar gyfer y costau hynny ac mae nifer fach ohonynt yn gofyn am gyfraniad gan y myfyrwyr.

### *9.3.4 Cronfeydd Caledi/Argyfwng*

Dyweddodd y rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Bellach eu bod yn cadw ychydig o gymorth caledi wrth gefn i ymateb i geisiadau o'r fath dros y flwyddyn a nododd ychydig iddynt weld cynnydd mewn ceisiadau o'r fath yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd hyn yn profi'n anodd mewn rhai achosion, fodd bynnag, gan fod y galw cyffredinol am gyllid CAWG wedi cynyddu'n gyffredinol dros yr un amserlen.

Mewn rhai achosion, roedd darpariaeth cyllid argyfwng yn cynnwys 'rhoi arian iddynt yn y fan a'r lle i brynu bwyd'. Roedd un o'r myfyrwyr, er enghraifft, wedi derbyn cyllid caledi CAWG ar ôl dod yn ddigartref o fewn hanner awr o weld cofrestrydd y coleg am ei sefyllfa. Mae rhai Sefydliadau Addysg Bellach yn rhoi terfyn uchaf ar swm y cyllid o'r fath y gall myfyrwyr gael mynediad iddo e.e. £50 mewn un Sefydliad Addysg Bellach. Ar y llaw arall, cyfaddefodd un Sefydliad Addysg Bellach y gall fod yn anos i Sefydliadau Addysg Bellach drin ceisiadau am gyllid caledi neu argyfwng gan nag ydynt mor syml ag elfennau eraill gan ddweud nad yw 'ein swyddogion cyllid mewn gwirionedd yn hoffi trin y ceisiadau yma'.

### *9.3.5 Talebau Cinio*

Dyweddwyd fod y prif resymau am ddarparu lwfansau cinio yn cynnwys yr angen i gefnogi myfyrwyr nad oeddent yn flaenorol wedi medru cael mynediad i brydau ysgol am ddim yn ogystal â thrin rhai o'r materion sylfaenol yr oedd colegau yn eu cael yn nhermau myfyrwyr yn cyrraedd am eu hastudiaethau heb fwyta'n iawn - dadleuwyd fod darparu cinio am ddim yn helpu i gynyddu presenoldeb yn ogystal â helpu myfyrwyr i ganolbwyntio yn ystod eu gwersi.

Nid yw pob Sefydliad Addysg Bellach wedi mynd lawr llwybr cynnig talebau cinio fel rhan o gynllun CAWG, gyda'r rhai nad oedd yn eu darparu yn tueddu i gredu y dylai arian y Lwfans Cynhaliath Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad fod yn ddigon ar gyfer y gofynion neu fod y galwadau ar y gyllideb CAWG eisoes yn ddigon uchel i fedru cynnig cymorth o'r fath.

Cydnabu un sefydliad oedd yn cynnig talebau cinio i fwyafrif ei fyfyrwyr (y rhan fwyaf ohonynt yn 16 i 18 oed) y byddai'n rhaid adolygu'r polisi yn y dyfodol oherwydd cynnydd cynyddol yn y galw am CAWG yn fwy cyffredinol. Nodwyd lle rhoddir talebau cinio neu lwfansau cinio, fod sefydliadau wedi gosod eu terfynau eu hunain yn amrywio rhwng £2.15 a thua £4 y dydd. Dywedodd nifer fod defnydd talebau cinio wedi'i gyfyngu i brynu bwyd 'go iawn' a thwym' yn hytrach na 'pop a sbwriel' ac mewn llawer achos ceisiwyd sicrhau fod lwfans CAWG yn talu am bryd iawn o fwyd. Er hyn, dywedodd myfyrwyr mewn rhai colegau nad oedd eu talebau yn ddigon i dalu am gost pryd o fwyd a bod y fod prisiau'n ddrud iawn.

## 10. CAWG YN Y SECTOR CYMRAEG I OEDOLION

### 10.1 Cyflwyniad

Yn yr adran yma rydym yn gyntaf yn trafod y defnydd o CAWG yn y sector Cymraeg i Oedolion (CiO) gan ddefnyddio ein hadolygiad desg o ddata Llywodraeth Cymru a chanfyddiadau gwaith maes. Ystyriwn yn gyntaf y dyraniadau cyllid ar gyfer CiO (Adran 10.2), cyn troi i drafod y nifer a'r math o fyfyrwr a gefnogwyd (Adran 10.3). Symudwn ymlaen wedyn i ymchwilio'r darpariaethau a ariannwyd (Adran 10.5) a gwariant CiO ar ddarpariaethau (Adran 10.5). Yn olaf trafodwn drefniadau rheoli a gweinyddu Canolfannau CiO (Adran 10.6) a'r gwahaniaeth a wnaeth cyllid i fyfyrwr CiO (Adran 10.7).

### 10.2 Dyraniadau Cyllid CAWG CiO

Mae £63,980 o gyllid ar gael bob blwyddyn i bum Canolfan CiO sy'n rhan o bump Sefydliad Addysg Uwch ar draws Cymru. Mae'r chweched Chanolfan mewn Sefydliad Addysg Bellach (Gwent) ac yn ddamcaniaethol gall myfyrwr CiO sy'n astudio yn y Ganolfan hefyd gael mynediad i gyllid CAWG drwy'r cyllid Sefydliad Addysg Bellach sydd ar gael i'r coleg, ac ni neilltuwyd unrhyw gyllid ar gyfer y ddarpariaeth yma. Mae pob Canolfan CiO yn derbyn cyllid o rhwng £8,854 a £22,659 fel yr amlinellwyd yn Nhabl 24 islaw..

Tabl 24: Dyfarniad Blynyddol CAWG CiO yn ôl Sefydliad

Sefydliad (£)	2012/13	2011/12	2010/11
CiO Bangor	22,659	22,659	22,660
CiO Abertawe	11,474	11,474	11,470
CiO Morgannwg	11,000	11,000	11,000
CiO Aberystwyth	9,990	9,990	9,990
CiO Caerdydd	8,854	8,854	8,850
Pob CiO	63,980	63,980	63,980

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Bu'r cyllid ar gael yn uniongyrchol i CiO gan na fyddai'r myfyrwr hyn (yn astudio cyrsiau Addysg Bellach) fel arfer yn gymwys i dderbyn cymorth drwy'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer Cynlluniau CAWG Addysg Bellach. Esboniwyd yn ystod ein gwaith maes y gwnaed cyllid ar gael i'r Canolfannau i ddechrau yn dilyn ailstrwythuro'r sector gan y gallai darparwr blaenorol CiO (Sefydliadau Addysg Bellach yn bennaf) gael mynediad i gyllid CAWG drwy ddyraniad eu sefydliadau eu hunain. Teimlid ei bod yn debygol fod y dyraniadau blynyddol yn seiliedig i raddau helaeth ar dueddiadau hanesyddol a derbyniodd nifer o'r cyfweleion fod angen edrych eto ar y rhesymeg ddechreuol dros ddarparu'r cyllid. Ymhellach cododd nifer o'r rhai a

gyfwelwyd gwestiynau am 'ffit' y Gronfa o fewn y sector CiO (lle mae myfyrwyr yn bennaf yn astudio ar sail sesiwn, gyda'u hastudiaethau ond yn rhan fechan o'r wythnos waith), yn arbennig gan fod yn rhaid i Ganolfannau fod yn weddol greadigol wrth wneud y cynllun CAWG Addysg Bellach yn berthnasol gan ei fod wedi profi'n her dangos sut yr oedd ymgeiswyr yn arddangos amgylchiadau caledi. Yn wir derbyniwyd yn gyffredinol gan randdeiliaid a chynrychiolwyr Canolfannau CiO fod swm y cyllid oedd ar gael i Ganolfannau CiO yn rhy uchel a bod angen rhesymeg gliriach i bennu dyraniadau Canolfannau unigol yn seiliedig ar ffactorau megis nifer myfyrwyr neu ymrestriadau.

### 10.3 Cymorth CAWG i Fyfywrwyr CiO

Dengys data a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru am 2010/11 i 370 o fyfyrwyr CiO gael cymorth drwy gynllun CAWG ar draws pump o Ganolfannau CiO - roedd y myfyrwyr i gyd yn 19 oed a throsodd ac yn astudio ar sail ran amser. Mae adborth gan gynrychiolwyr Coleg Gwent yn awgrymu na wnaed unrhyw geisiadau na dyfarniadau yng nghyswllt myfyrwyr CiO yn astudio yn y sefydliad hwnnw. Roedd y nifer uchaf a gafodd gymorth yn CiO Aberystwyth (220) a'r nifer isaf yn CiO Abertawe (5). Cadarnhaodd ein gwaith maes y byddai holl fyfyrwyr CiO yn cael eu cynnwys yn y ffigurau heb ystyried os oeddent yn astudio cwrs yn uniongyrchol gyda, er enghraifft Brifysgol Abertawe neu Sefydliad Addysg Bellach gyda contract i'r Ganolfan honno. Yn ddi-ddorol, nid oes unrhyw gydberthynas rhwng y nifer o fyfyrwyr a gafodd gymorth ym mhob Canolfan (fel y dangosir yn Nhabl 25) gyda'r dyraniad blynyddol sydd ar gael i bob Canolfan (gweler Tabl 24).

Tabl 25: CAWG: myfyrwyr CiO a gynorthwywyd gan sefydliadau

2010/11	16-18	19+	Cyfanswm
CiO Aberystwyth	0	220	220
CiO Bangor	0	80	80
CiO Caerdydd	0	45	45
CiO Morgannwg	0	25	25
CiO Abertawe	0	5	5
Cyfanswm	0	370	370

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Dangosodd ein gwaith maes yn ystod hydref 2010 fod Canolfannau CiO yn gyffredinol yn ei chael yn anodd sicrhau galw am gyllid CAWG ymysg eu myfyrwyr. Mewn un Ganolfan CiO er enghraifft dim ond 46 o'i 2,600 myfyrwyr oedd wedi gwneud cais am gymorth CAWG yn ystod 2011/12 a dim ond dau gais a dderbyniwyd fel ym mis Tachwedd 2012 er y codwyd y

cymhwyster trothwy incwm y flwyddyn honno. Ymhellach yn achos Abertawe ystyriwyd fod y galw'n fach iawn i raddau helaeth oherwydd bod gan y Ganolfan ei chynllun bwrsariaeth ei hun drwy ei grant craidd gan Lywodraeth Cymru y gall myfyrwyr ei ddefnyddio ar gyfer costau a ffioedd cyrsiau.

#### 10.4 Darpariaethau CiO a ariannwyd gan CAWG

Fel y nodir yn Nhabl 26, caiff dyraniad CAWG CiO yn bennaf ei wario ar ddau brif ddarpariaeth - gofal plant a chludiant, oedd gyda'i gilydd yn cyfrif am 82% o'r gwariant yn ystod 2010/11. Er i bob Canolfan ddyfarnu cyllid ar gyfer gofal plant, yng Nghanolffannau CiO Caerdydd a CiO Bangor y gwariwyd mwyaf ar ofal plant (cyfanswm o 45 dyfarniad am ofal plant ar gost o £14,440, £320 fesul dyfarniad ar gyfartaledd). Yn yr un modd roedd pob Canolfan yn dyfarnu cyllid ar gyfer cludiant - ond roedd hyn yn amrywio o 10 dyfarniad yng Nghaerdydd (ar gyfanswm cost o £770) i 25 dyfarniad ym Morgannwg (cyfanswm o £6,660) a 50 dyfarniad yn Aberystwyth (cyfanswm o £4,660). Mae felly'n dilyn tra bod cyfartaledd dyfarniad cludiant Canolfannau CiO yn £153, bod hyn yn amrywio o £77 yn CiO Caerdydd i £374 yn CiO Abertawe. Yn olaf, gwnaed nifer fawr o ddyfarniadau (295) am gostau offer yn ystod 2010/11, ond roedd gwerthoedd y dyfarniadau hyn yn fach iawn ac yn gyfartaledd o £19 yr un.

Tabl 26: CAWG: Gwariant CiO yn ôl darpariaeth<sup>47</sup>

2010/11	Cyfanswm Dyfarniadau	Cyfanswm £
Gofal Plant	55	19,610
Cludiant	115	17,560
Offer	295	5,710
Arall	30	1,750
Llyfrau	25	640
Ffioedd Arholiadau	5	120
Cyfanswm	520	45,380

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Dangosodd ein gwaith maes gyda phedair Canolfan CiO fod myfyrwyr yn gyffredinol yn cael eu cefnogi gyda chostau gofal plant, teithio a deunyddiau cwrs megis llyfrau a chostau offer drwy'r cynllun ond bod gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae pob Canolfan CiO yn gweithredu Gynllun CAWG Addysg Bellach. Er enghraifft:

<sup>47</sup> Nid yw nifer y dyfarniadau a wnaed yn gyfartal â nifer y myfyrwyr a gefnogwyd oherwydd bod rhai myfyrwyr wedi derbyn mwy nag un dyfarniad.

- Mae pob Canolfan yn gweithredu ei meini prawf ei hunan ar gymhwyster trothwy 'incwm' - sydd yn £25,000 yn CiO Aberystwyth a £20,000<sup>48</sup> yn CiO Caerdydd er enghraifft;
- Mae pob Canolfan yn gweithredu gwahanol gyfraddau teithio sy'n amrywio o 45c yn CiO Abertawe, 40c y filltir (CiO Morgannwg) i 25c y filltir (CiO Caerdydd) a 9c y filltir yn CiO Bangor. Ymhellach, mae o leiaf un Ganolfan yn rhoi terfyn ar uchafswm y lwfans teithio y gall unrhyw un myfyriwr ei hawlio mewn tymor (e.e. £30 y tymor);
- Mae Canolfannau'n dehongli'r canllawiau cymhwyster ar gyfer dysgu anffurfiol mewn gwahanol ffyrdd gan olygu y caiff myfyrwyr mewn un Canolfan (CiO Caerdydd) fynediad i gymorth ar gyfer costau modiwl blasu a ffioedd cyrsiau anffurfiol a myfyrwyr mewn un arall (CiO Morgannwg) yn gallu cael mynediad i dalu am gyrsiau preswyl;
- Er y gall myfyrwyr CiO yn gyffredinol adennill costau llyfrau ychwanegol drwy Gynllun CAWG Addysg Bellach, mae enghreifftiau fod rhai Canolfannau wedi gosod terfyn ar werth yr adnoddau y gellir eu adhawlio (e.e. uchafswm o £20 am lyfrau).

Nid oedd dim o'r Canolfannau'n defnyddio cyllid CAWG i gefnogi costau cwrs (er fod enghreifftiau y gwnaed hyn yn y gorffennol) er fod rhai'n cefnogi myfyrwyr gyda chostau modiwl blasu neu gostau cyrsiau haf.

## 10.5 Gwariant CiO CAWG

Mae'r data yn Nhabl 27 yn awgrymu, er bod mwyafrif dyfarniadau CAWG CiO am symiau o lai na £100, fod mwyafrif y gwariant ar gyfer symiau rhwng £100 a £999. Roedd y patrwm yn amrywio ar draws Canolfannau Cymraeg i Oedolion gyda rhai (megis Morgannwg) heb wneud unrhyw ddyfarniadau am symiau o lai na £100 tra bod Aberystwyth wedi gwneud 200 dyfarniad o'r fath. Mae'n ddiddorol fod Morgannwg yn gweithredu polisi o beidio dyfarnu llai na £50 y cais, a fyddai'n helpu i esbonio'r canfyddiadau yn y Ganolfan yma.

---

<sup>48</sup> Ar gyfer myfyrwyr heb blant. Mae hyn yn cynyddu i £47.00 ar gyfer rhai gyda phlant.



Tabl 27: Dyfarniadau CAWG CiO wedi'u dosbarthu yn ôl gwerth<sup>49</sup>

2010/11		Llai na £100	£100 - £999	£1,000 - £3,499	£3,500 a mwy	Cyfan
CiO Bangor	Nifer	45	35	0	0	80
	Symiau	1,890	10,650	0	0	12,540
CiO Morgannwg	Nifer	0	25	*	0	25
	Symiau	0	8,790	2,510	0	11,300
CiO Aberystwyth	Nifer	200	20	*	0	220
	Symiau	6,400	2,970	1,360	0	10,740
CiO Caerdydd	Nifer	15	30	0	0	45
	Symiau	520	7,490	0	0	8,010
CiO Abertawe	Nifer	*	5	0	0	5
	Symiau	40	2,760	0	0	2,800
Cyfanswm	Nifer	260	115	*	0	375
	Symiau	8,850	32,660	3,870	0	45,390

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Er y gwnaed 425 gais am gyllid CAWG CiO yn ystod 2010/11, gwrthodwyd cyfanswm o 50 cais (cyfradd gwrthod o 12%) fel y dangosir yn Nhabl 28. Y prif reswm am beidio dyfarnu cyllid oedd bod dyraniad CAWG wedi ei ddihysbyddu - fodd bynnag caiff y data ei lurgunio rywfaint gan y darlun yn CiO Aberystwyth (oedd yn cyfrif am 35 gwrthodiad) gan mai yn CiO Aberystwyth yr oedd pob un o'r 30 achos a wrthodwyd ar y sail fod y cyllid wedi'i ddihysbyddu. Yn wir, ni wrthodwyd unrhyw geisiadau yng Nghanolfannau CiO Bangor neu Abertawe.

Tabl 28: Rhesymau am wrthod ceisiadau CiO i Gynllun CAWG Addysg Bellach<sup>50</sup>

2010/11	Nifer a wrthodwyd
Dyraniad CAWG y sefydliad wedi ei ddihysbyddu	30
Dim digon o dystiolaeth o galedi ariannol	15
Arall	10
Diim yn cyflawni blaenoriaeth y sefydliad ar gyfer defnydd cyllid	*
Myfyriwr yn derbyn cymorth o ffynonellau eraill	0
Cyfanswm	50

<sup>49</sup> Nid yw nifer y dyfarniadau a wnaed yn gyfartal â nifer y myfyrwyr a gefnogwyd oherwydd fod rhai myfyrwyr yn derbyn mwy nag un dyfarniad.

<sup>50</sup> Cafodd y rhifau a roddir yn y tabl yma eu talgrynnu i'r 5 agos i gadw cyfrinachedd, ac fel canlyniad nid yw'r cyfanswm yn gyfartal â'r cyfanswm ffigur a roddwyd.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Dengys Tabl 29 i ddwy Ganolfan CiO ei chael yn anodd dosbarthu eu dyraniadau blynyddol yn ystod 2010/11 a dychwelwyd cyfran sylweddol (32%) o gyfanswm dyraniad blaendal CAWG CiO i Lywodraeth Cymru - gyda bron yr holl swm yn cael ei ddychwelyd gan ddwy ganolfan, sef CiO Abertawe a Bangor. Mae adborth gan gynrychiolwyr Canolfannau yn awgrymu fod hwn yn batrwm cyson ar gyfer blynyddoedd eraill ac y gallai'r cyllid a ddychwelwyd i'r Adran Addysg a Sgiliau fod hyd yn oed yn fwy ar gyfer 2011/12 (er enghraifft roedd y cyllid a ddosbarthwyd gan CiO Abertawe yn is ar tua £6,500 a CiO Caerdydd tua £6,500). Roedd pob Canolfan wedi cadw o fewn cynllun Llywodraeth Cymru o beidio gwario mwy na 3% ar gostau gweinyddiaeth a chyhoedduswyd neu £525, p'un bynnag oedd uchaf.

Tabl 29: Dyraniad, dosbarthiad a dychwelyd cyllid CAWG CiO

Sefydliad	Dyraniad 2010/11 (£)	Cyllid a ddosbarthwyd yn 2010/11 <sup>51</sup> (£)	Swm a wariwyd ar weinyddiaeth/ cyhoedduswyd (£)	Cyllid i'w ddychwelyd i AdAS (£) <sup>52</sup>
CiO Bangor	22,660	12,540	680	9,910
CiO Abertawe	11,470	2,800	0	10,330
CiO Morgannwg	11,000	11,300	530	0
CiO Aberystwyth	9,990	10,740	530	0
CiO Caerdydd	8,850	8,010	530	420
Pob Canolfan CiO	63,980	45,380	2,250	20,720

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## 10.6 Rheolaeth a Gweinyddiaeth CAWG CiO

Mae CiO Aberystwyth a CiO Bangor yn defnyddio'r un ffurflen gais a chanllawiau i fyfyrwyr tra fod pob un o'r tair Canolfan arall wedi datblygu eu gwaith papur eu hunain. Gellir cyrchu y rhain fel arfer drwy wefan y Ganolfan yn ogystal ag yn uniongyrchol gan diwtoriaid a gweinyddwyr CiO. Dywedodd un Ganolfan yn benodol nad ydynt mwyach yn dosbarthu ffurflenni cais i fyfyrwyr mewn pecynnau sefydlu a dywedodd un arall eu bod yn awr yn rhoi ffurflenni ar-lein er mwyn gostwng costau. Dangosodd ein gwaith maes ddymuniad cryf ymysg cynrychiolwyr Canolfannau i ddatblygu un pecyn cais cyffredin gyda chanllawiau cyson ar draws pob Canolfan. Yn wir mewn ymateb i gomisiynu'r gwerthusiad hwn, mae Canolfannau CiO wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda chylch gorchwyl i ddatblygu dull gweithredu mwy cyffredin ar gyfer rheoli cyllid CAWG yn y sector CiO.

<sup>51</sup> Sy'n cynnwys cyllid a ddygwyd ymlaen o 2009/10 ac unrhyw logau a enillwyd yn ystod 2010/11.

<sup>52</sup> Yn eithrio unrhyw gyllid a ddygwyd ymlaen o fwy na 10% i 2011/12 ac unrhyw wariant ar gostau archwilio.

Mae adborth gan gynrychiolwyr Canolfannau CiO yn awgrymu y caiff CAWG ei hyrwyddo'n helaeth, yn bennaf oherwydd yr angen i ysgogi galw am gymorth. Dywedwyd fod hyn yn neilltuol o feichus yn nhermau adnoddau staff a chododd dau gyfwelai gwestiynau am y gwerth am arian a gafwyd. Mae gwybodaeth am y CAWG ar gael i fyfyrwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd yn cynnwys drwy wefannau, pecyn sefydlu myfyrwyr, taflenni hyrwyddo a ddsberthir gan diwtoriaid, hysbysfyrddau a bwletinau rheolaidd i fyfyrwyr.

Mae'r trefniadau ar gyfer delio gyda cheisiadau myfyrwyr yn amrywio. Mae'r trefniadau yn CiO Aberystwyth a CiO Bangor yn debyg drwy fod y ddwy brifysgol yn is-gontractio gweinyddiaeth y gronfa i Grŵp Llandrillo Menai tra mai timau CiO yn Mhrifysgolion Abertawe, Morgannwg a Chaerdydd sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gronfa. Mae'r trefniadau yn fwy ffurfiol mewn rhai sefydliadau megis Caerdydd lle mae panel, yn cynnwys cynrychiolwyr o dîm CAWG Sefydliadau Addysg Uwch yn ogystal â Swyddog Cyllid Sefydliad Addysg Uwch, yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn (Ionawr, Ebrill a Gorffennaf) i drafod ceisiadau. Yn yr un modd, yn CiO Morgannwg caiff ceisiadau eu hasesu ddwywaith y flwyddyn gan Bwyllgor Cronfa Ariannol wrth Gefn y Brifysgol ym mis Tachwedd a mis Mawrth. Er nad oes gan yr un o'r sefydliadau hyn ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau, maent yn naturiol yn annog ac yn cefnogi myfyrwyr i gyflwyno ceisiadau mewn pryd ar gyfer y cyfarfodydd o'r panel sy'n gwneud penderfyniadau. Mewn lleoedd eraill, mae'r trefniadau gweinyddiaeth yn fwy anffurfiol, er enghraifft yn CiO Abertawe mae un neu ddau aelod o staff yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau fel y deuant i law ac fel arfer ni chaiff unrhyw gais ei wrthod.

Yn nhermau gweinyddu'r cynllun yn y dyfodol, awgrymodd rhanddeiliaid ac ychydig o gynrychiolwyr Canolfannau CiO ffyrdd y gellid ei wella. Roedd hyn yn cynnwys dull mwy cyffredin o weinyddu'r Gronfa ar draws y Canolfannau yn ogystal ag ymchwilio'r opsiwn o benodi un partner neu ddarparwydd i reoli'r Gronfa ar draws Canolfannau CiO yn fwy cyffredinol. Ymhellach roedd rhanddeiliaid a chynrychiolwyr Canolfannau CiO yn gytŷn y byddai'n synhwyrol gostwng y cyllidebau blynyddol gan fod y cyllid sydd ar gael i'r sector drwy CAWG yn rhy hael ar hyn o bryd - er y gwnaed dadl gref na ddylid dileu'r Gronfa gan y dylai fyfyrwyr fedru parhau i gael mynediad iddi yn y dyfodol. Awgrwymwyd hefyd adolygu os y gellid defnyddio CAWG i gefnogi costau cyrsiau CiO gan y gwyddys eu bod yn rhwystr i lawer o ddarpar fyfyrwyr i ymrestru. Mae hefyd yn werth nodi fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o CiO ar hyn o bryd (sydd i adrodd ym Mehefin 2013) ac sy'n bwriadu ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn o CAWG.

## 10.7 Y gwahaniaeth a wnaed i fyfyrwyr CiO

Mae'r adborth gan lawer o randdeiliaid a chynrychiolwyr Canolfannau CiO yn awgrymu fod myfyrwyr yn manteisio mewn dull 'oportiwistaidd' ar y gronfa i raddau helaeth oherwydd bod myfyrwyr yn gwneud ceisiadau adsyllol am gyllid ac fel arfer yn cyflwyno copïau o dderbynebaw am unrhyw wariant. O'r herwydd ni theimlid y defnyddir y gronfa i drin materion caledi gwirioneddol. Fodd bynnag mae'r adborth gan fyfyrwyr yn tueddu i awgrymu fod cronfa CAWG yn ddull effeithlon i wella presenoldeb a chyfraddau cadw nifer fach o myfyrwyr yn ogystal â bod yn rhan weddol bwysig o annog rhai myfyrwyr i ddychwelyd i astudio yn y dyfodol.

Yn ystod ein gwaith maes cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gyda chyfanswm o 11 o fyfyrwyr CiO oedd yn astudio yn CiO Morgannwg, Aberystwyth neu Bangor. Fel arfer roedd myfyrwyr wedi clywed am y gronfa mewn nifer o ffyrdd yn cynnwys drwy eu tiwtor, gan fyfyrwyr eraill yn eu dosbarth, o becyn gwybodaeth a dderbyniwyd yn ogystal â chylchgrawn CiO. Ni ddywedodd dim un o'r rhai a gyfwelwyd iddynt gael unrhyw broblemau sylweddol gyda'r broses gais a chredai pob un bod y ffurflen yn syml i'w llenwi. Awgrymodd dau y byddent wedi hoffi cael penderfyniad cynharach am eu cais a dywedodd un y gwrthodwyd cyllid iddi yn ei blwyddyn gyntaf oherwydd bod y gronfa wedi ei dihysbyddu. Yn yr achos hwn roedd y fyfyrwraig wedi ymrestru'n hwyr ar y cwrs ac wedi ei chosbi gan y dull gweithredu cyntaf i'r felin a ddefnyddiwyd gan y Ganolfan CiO.

Yn gyffredinol, roedd y myfyrwyr CiO a gyfwelwyd wedi defnyddio'r gronfa i dalu am gostau teithio a deunyddiau cwrs megis llyfrau a CDs. Dim ond un cyfwelai a gafodd gymorth gyda chostau gofal plant a dau oedd wedi derbyn cyllid tuag at gostau ffioedd cwrs oedd yn ddyledus. Pensiynwyr oedd tri o'r myfyrwyr a gyfwelwyd a oedd yn gyffredinol wedi gwneud cais am gymorth gan eu bod ar incwm isel, sefydlog tra bod gweddill y myfyrwyr yn ddi-waith ac wedi croesawu'r cymorth ychwanegol oedd ar gael iddynt.

Soniodd llawer a dderbyniodd gymorth am gostau teithio eu bod yn byw mewn ardaloedd gwledig ac y bu'r cymorth ariannol yn bwysig iddynt wrth wrthbwysio peth neu'r cyfan o'r costau teithio. Mewn un achos er enghraifft nododd myfyriwr fod pob taith i ddosbarthiadau'r cwrs yn costio tua £5 iddo. Yn yr un modd, tueddai'r rhai a dderbyniodd arian i helpu gyda deunyddiau cwrs i ddweud fod yr adnoddau ychwanegol megis CDs a llyfrau wedi'u helpu i ddysgu ynghynt.

Yn gyffredinol, ni wyddai myfyrwyr blwyddyn gyntaf CiO y gallent gyrchu cyllid CAWG gan awgrymu nad yw ei argaeledd yn dylanwadu llawer ar benderfyniad myfyriwr i ymrestru ar gyrsiau o'r fath. Yn wir cydnabu llawer o'r myfyrwyr hyn y byddent wedi ymrestru ar y cyrsiau

p'un ai oedd cymorth o'r fath ar gael ai peidio. Fodd bynnag dywedodd y cyfweleion hyn fod mynediad i'r gronfa wedi dod yn ffactor gynyddol bwysig yn eu galluogi i gwblhau eu cwrs gan ei fod wedi'u galluogi i gadw presenoldeb da a thalu am gostau annisgwyl na wyddent amdanynt ar y dechrau. Yn wir dywedodd un myfyriwr na fyddai'n eistedd arholiad arfaethedig pa na bai wedi derbyn CAWG gan y byddai ei bresenoldeb wedi bod yn is ac na fyddai'n barod i sefyll arholiad o'r fath.

Tueddai'r rhai a wyddai am y cyllid (fel arfer myfyrwyr yn dychwelyd) cyn ymrestru ar gyrsiau CiO i ddweud y byddai wedi bod yn anodd iddynt ddod o hyd i'r cyllid ychwanegol i dalu am y costau ychwanegol yn gysylltiedig gydag astudio. Yn wir, dywedodd un yn benodol fod derbyn cymorth CAWG yn sylfaenol iddi fedru ymrestru ar y cwrs a'i fod yn 'golygu'r gwahaniaeth rhwng i mi wneud y cwrs neu beidio.' Soniodd rhai ohonynt hefyd fod argaeledd cyllid wedi cael dylanwad ar eu penderfyniad i ddychwelyd i astudio cwrs ail neu drydedd flwyddyn yn ogystal â gorffen eu cyrsiau 'heb CAWG, dwi ddim yn meddwl mewn gwirionedd y byddwn wedi gorffen y cwrs ... mae'n fendith'.

Dim ond un fyfyrwraig a ddywedodd ei bod wedi ystyried gadael y cwrs cyn derbyn cyllid CAWG: 'Fe fyddai wedi bod yn anodd iawn i mi ac mae'n debyg y byddai wedi bod yn ormod. Fyddwn i ddim wedi medru gwneud y cwrs'. Dywedodd tri arall y byddent wedi'i chael yn anodd gorffen y cwrs heb gyllid.

## **11. GWEINYDDU CAWG MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH A SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH**

### **11.1 Cyflwyniad**

Yn yr adran yma trafodwn ddulliau cyffredinol Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach o reoli Cynlluniau CAWG o fewn eu sefydliadau (Adran 11.2) cyn troi i drafod hyrwyddiad a marchnata CAWG o fewn Addysg Uwch (Adran 11.3) ac Addysg Bellach (Adran 11.4). Rydym wedyn yn ymchwilio'r prosesau cais (Adran 11.5) yn ogystal ag elfennau o fonitro ac adrodd (Adran 11.6) cyn yn olaf drafod dulliau o rannu arfer da (Adran 11.7).

### **11.2 Dull Rheoli**

Dangosodd ein gwaith maes yn y sector Addysg Uwch a hefyd y sector Addysg Bellach fod y prosesau ar gyfer rheoli cyllid CAWG yn gyffredinol wedi'u datblygu'n dda ond bod gwahaniaethau sylweddol ynddynt rhwng sefydliadau. Yn ôl y disgwyl, mae gwahaniaethau neilltuol rhwng y dull a ddefnyddir gan sefydliadau sy'n gwasanaethu nifer fawr o fyfyrwyr ac ymgeiswyr o gymharu â rhai llai lle mae systemau'n tueddu i fod yn fwy anffurfiol ac wedi datblygu llai. Yn yr adran yma ceisiwn ddynodi rhai o'r arferion cyffredin a ddefnyddir gan sefydliadau.

Ym mwyafrif helaeth Sefydliadau Addysg Uwch, mae grŵp polisi CAWG ar gael sy'n gyfrifol am ddatblygu a chytuno ar ganllawiau CAWG ar gyfer y sefydliad. Fel arfer mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o wahanol adrannau academiaidd, undeb myfyrwyr, gwasanaethau cymorth myfyrwyr, adrannau cyllid a chynghorydd anabled. Yn yr un modd, mae gan y rhan fwyaf (er nid y cyfan) o Sefydliadau Addysg Bellach bwyllgor cyffredinol CAWG sy'n gosod polisi'r sefydliad ar ddefnyddio'r cyllid. Er bod y pwyllgorau hyn fel arfer yn adolygu polisiâu CAWG yn flynyddol, dim ond os codir mater penodol y mae nifer fach yn adolygu polisiâu. Dangosodd ein gwaith maes y caiff polisiâu CAWG eu cytuno ar lefel uwch o fewn Sefydliadau Addysg Bellach (e.e. gan Bennaeth y Coleg neu'r Corff Llywodraethu).

Mae faint o adnoddau sydd gan bob sefydliad ar gael i weinyddu cynlluniau CAWG yn amrywio ac yn dibynnu i raddau helaeth ar y nifer o fyfyrwyr sydd ganddo a chyllid CAWG. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch caiff cynllun CAWG ei reoli gan Bennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr sydd fel arfer yn dibynnu ar gynghorwyr gwasanaethau myfyrwyr neu gynghorwyr lles i ddelio gydag ymholiadau myfyrwyr CAWG a derbyn ceisiadau wedi'u llenwi. Mewn Sefydliadau Addysg Bellach mae gweinyddiaeth ariannol cyllid CAWG yn dod un ai o

fewn gwasanaethau myfyrwyr neu'r adran cyllid. Yn yr un modd mewn Sefydliadau Addysg Uwch, cynghorwyr rheng-flaen myfyrwyr neu gynghorwyr lles sy'n delio gydag ymholiadau myfyrwyr i raddau helaeth gyda llawer o fyfyrwyr sy'n gwneud cais am CAWG yn cael eu dynodi'n gyntaf gan y cynghorwyr hyn pan fyddant yn holi am gymorth cyffredinol am gyllid a materion caledi.

Dywedodd llawer o Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach fod y cynllun CAWG yn faich gweinyddol i'w sefydliad gan eu bod yn gorfod delio gyda gweinyddu gwaith papur a hefyd ddelio gyda phroblemau ariannol myfyrwyr. Er enghraifft, dywedodd un: 'mae angen llawer o waith i weinyddu'r gronfa, eto dim ond ychydig iawn o'r gronfa y caniateir i ni ei defnyddio ar gyfer ein costau gweinyddol'.

### **11.3 Marchnata a Hyrwyddo mewn Sefydliadau Addysg Uwch**

O fewn Sefydliadau Addysg Uwch, byddai'n deg dweud fod gwybodaeth ar CAWG ar gael yn weddol eang ond bod sefydliadau'n camu'n ofalus wrth hyrwyddo'r gronfa er mwyn trin disgwyliadau. Fel y dywedodd un cynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch: 'os gwnewch chi weiddi'n uchel bydd gennych res o bobl wrth y drws' a dywedodd un arall 'rwy'n ymwybodol iawn nag ydym wedi hyrwyddo cymaint arno yn y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd i ni gael cymaint o gwmp mewn cyllid'. Mae datganiad gan gynrychiolydd arall Sefydliad Addysg Uwch yn crynhoi agwedd gyffredinol Sefydliadau Addysg Uwch: 'dydyn ni ddim yn cuddio'r ffaith fod yna gyllid ychwanegol ... yn arbennig nawr fod arian yn arbennig o dyn a phobl yn bryderus iawn am ymrwymo eu hunain i rywbeth ... ond fyddwn i ddim yn dweud ein bod yn ei rannu tu blaen yr adeilad yn dweud "hei fe wnawn i roi llawer mwy o arian i chi" ...'

Dangosodd ein gwaith maes mai'r dulliau hyrwyddo a nodwyd amlaf a ddefnyddir gan Sefydliadau Addysg Uwch oedd:

- Gwefannau neu fewnrwydydd Sefydliadau Addysg Uwch neu Moodles, lle rhoddir gwybodaeth ar dudalennau cymorth cyllid myfyrwyr yn ogystal â thrwy 'hysbysebion' ar dudalennau cartref mewnrwyd;
- Llawlyfrau myfyrwyr;
- Prosbectysau prifysgolion;
- Dyddiau agored prifysgolion;
- Hysbysfyrddau, posterï a thafleenni prifysgolion;
- Sgyrsiau sefydlu a chyflwyniadau ar gyfer myfyrwyr newydd yn ystod Wythnos y Gleision;
- Deunyddiau a gwefan Undeb y Myfyrwyr;

- Gweithdai cynghori ar drin arian a chaledi a ddarperir gan wasanaethau cymorth myfyrwyr;
- Lledaenu ffurfiol ac anffurfiol i staff ac athrawon prifysgolion.

Byddai'n ymddangos y caiff llawer o fyfyrwyr wybodaeth am CAWG pan gysylltant â gwasanaethau cymorth myfyrwyr gyda phryderon am gyllid ac arian, er bod llawer o achosion lle caiff ceisiadau eu derbyn yn 'oer'. Yn wir, dangosodd ein grwpiau ffocws gyda myfyrwyr ystod eang o ffyrdd yr oeddent wedi clywed am CAWG yn cynnwys gan gymheiriaid a thiwtoriaid.

Credai'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch fod hyrwyddo'r gronfa un ai'n dda neu'n rhesymol yn eu sefydliad, o gofio am y cyfyngiadau yr oeddent yn gorfod gweithredu ynddynt. Er hyn, cyfaddefodd cryn nifer eu bod wedi dod ar draws myfyrwyr 'sy'n dod i mewn ac nad oes syniad ganddynt' ac yn wir cadarnhawyd hynny yn ein gwaith maes gyda myfyrwyr. Dywedodd myfyrwyr a hefyd staff Sefydliadau Addysg Uwch yn benodol fod rhai adrannau academaidd yn well na'i gilydd wrth gyfleu negeseuon am CAWG, a dywedwyd bod adrannau nyrsio a gofal cymdeithasol yn enghreifftiau da a pheirianeg efallai yn enghraifft wannach. Yn olaf, roedd rhai'n pryderu efallai nad oedd negeseuon am CAWG yn cyrraedd 'myfyrwyr incwm canol' oherwydd na fuont erioed yn gymwys am fathau eraill o gymorth ariannol. Yn wir, roedd un myfyriwr a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws o deulu incwm uwch ond, gan ei fod yn un o bedwar o blant, nid oedd yn derbyn y gefnogaeth ariannol a ddisgwylid gan ei rieni. Dywedodd fod llawer o fyfyrwyr yn ei sefyllfa ef yn credu nad ydynt yn gymwys am unrhyw gyllid drwy CAWG oherwydd na fuont yn gymwys am ddarpariaeth statudol erioed o'r blaen.

#### **11.4 Marchnata a Hyrwyddo mewn Sefydliadau Addysg Bellach**

Wrth droi i edrych ar hyrwyddo a marchnata CAWG ar draws ein Sefydliadau Addysg Bellach, dangosodd ein gwaith maes dueddiad i Sefydliadau Addysg Bellach yn gyffredinol gymryd mwy o gamau i hyrwyddo'r gronfa ar draws eu sefydliad. Yn wir, byddai'n deg dweud fod hyweledd CAWG (drwy bosteri a thafenni) yn llawer mwy amlwg yn ystod ein hymweliadau i Sefydliadau Addysg Bellach nag mewn Sefydliadau Addysg Uwch. Mae rhai Sefydliadau Addysg Bellach wedi cymryd camau i farchnata CAWG drwy'r gweithgareddau y gall eu hariannu felly mae'n fwy cyffredin ei alw yn 'gynllun pas bws' neu'n 'gynllun taleb cinio am ddim' mewn rhai sefydliadau. Yn wir, nid oedd nifer o fyfyrwyr a fu yn ein grwpiau ffocws mewn colegau penodol erioed wedi clywed am y term 'CAWG' a dim ond gyda'r ddarpariaeth benodol yr oeddent wedi'i derbyn yr oeddent yn gyfarwydd.

Roedd y dulliau hyrwyddo a ddefnyddiwyd mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn debyg iawn i'r



rhai mewn Sefydliadau Addysg Uwch er fod cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach yn tueddu i roi mwy o bwysau ar weithgareddau hyrwyddo personol y medrid eu cynnal cyn i fyfyrwyr ddechrau yn y coleg (yn cynnwys mewn dyddiau agored ar gyfer darpar fyfyrwyr) a hefyd yn ystod eu hwythnos gyntaf yn y coleg (megis cyflwyniadau sefydlu). Siaradodd nifer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach am berygl 'gorlwytho gwybodaeth' i fyfyrwyr newydd yn ystod eu hwythnos gyntaf yn y coleg fodd bynnag a dywedwyd fod hyn yn mynd beth o'r ffordd i esbonio pam na fyddai myfyrwyr yn cofio iddynt dderbyn gwybodaeth am y gronfa.

Soniodd nifer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach eu bod yn 'sgrinio' myfyrwyr yn ystod eu cyfweiliad dechreuol am le yn y coleg i asesu os byddent yn gymwys am CAWG, yn ogystal ag yn ystod eu cyfweiliad ymrestru gyda swyddog cymorth myfyrwyr. Yn wir gallai un cyfweiliad mewn Sefydliad Addysg Bellach briodoli cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau CAWG a wnaed yn y coleg pan gyflwynwyd yr ymarfer hwn. Soniodd o leiaf ddau o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach am ddefnyddio 'rhestr wirio sefydlu' yn eu sefydliadau oedd yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddangos iddynt dderbyn gwybodaeth am gymorth cyllid myfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth ar CAWG.

Soniodd cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach hefyd am ddefnyddio dulliau eraill i hyrwyddo CAWG yn cynnwys defnyddio sgriniau teledu yn ardaloedd cymunol y coleg a thecstio gwybodaeth i fyfyrwyr ar CAWG. Roedd cryn nifer yn dibynnu'n helaeth ar atgyfeiriadau gan diwtoriaid a thanlinellodd nifer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach hefyd bwysigrwydd cael deunyddiau hyrwyddo a sesiynau penodol ar gael i rieni (yn arbennig yn ystod nosweithiau agored) a nodwyd enghreifftiau lle cynhwysid gwybodaeth am CAWG yn y canllawiau i rieni ar gymorth ariannol a gynhyrchwyd gan y coleg.

Drwyddi draw, credai cynrychiolwyr Sefydliadau Addysg Bellach eu bod yn marchnata CAWG mewn ffordd effeithlon ac addas ar gyfer lefel y cyllid oedd ar gael ym mhob sefydliad. Fel gyda'r sector Addysg Uwch, siaradodd rhai cyfweleion am fyfyrwyr yn colli cymorth ac awgrymwyd fod y rhain yn cynnwys myfyrwyr o adrannau neilltuol (megis peirianeg) yn ogystal â rhai a ofnai roi eu henwau oherwydd y stigma cysylltiedig a'r chwithdod a deimlent wrth geisio cymorth (er mewn rhai achosion roedd y gwrthwyneb yn wir gan fod myfyrwyr yn falch i fod wedi derbyn cymorth ac yn ymffrostio wrth eu cymheiriaid fod ganddynt bas bws neu daleb cinio).

Ni allai llawer o fyfyrwyr Addysg Bellach a gyfweiliwyd gofio derbyn gwybodaeth am CAWG un ai cyn (e.e. yn yr ysgol neu mewn nosweithiau agored), neu'n ystod eu hwythnos ymrestru a sefydlu yn y coleg. Fodd bynnag, dywedodd rhai mai dim ond gan eu cymheiriaid a thiwtorïaid

yn nes ymlaen y clywsant am y cynllun a dywedodd llawer ohonynt fod eu cyfle o dderbyn cyllid wedi'i ostwng yn ddifrifol fel canlyniad. Teimlwyd fod amseriad yn hollbwysig i debygrwydd cael cymorth gan eu bod yn ymwybodol iawn o'r polisïau 'cyntaf i'r felin' a weithredai eu sefydliadau. Roedd myfyrwyr yn gyffredinol yn amharod i dderbyn unrhyw fai am fod yn hwyr mewn ymateb i'r galwad am geisiadau, fodd bynnag, er y gall hyn yn rhwydd fod wedi bod yn ffactor mewn rhai achosion. Dywedodd llawer o fyfyrwyr hefyd fod eu cyfle o glywed am gynllun CAWG yn uwch os oeddent yn astudio mewn adrannau neilltuol os cawsant eu dynodi ymlaen llaw fel blaenoriaeth (e.e. pobl ifanc yn gadael gofal).

## 11.5 Prosesau Cais

### 11.5.1 Ffurflenni Cais

Mae pob sefydliad yn rhoi ffurflenni cais i fyfyrwyr er mwyn hawlio cymorth CAWG. Mae'r ffurflenni cais hyn ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd yn cynnwys drwy wefan y sefydliad, Moodle neu gopiâu papur ac fel arfer maent ar gael yn rhwydd i fyfyrwyr. Dim ond un Sefydliad Addysg Bellach a ddywedodd wrthym mai dim ond i fyfyrwyr a gaiff eu 'sgrinio' yn gyntaf drwy gyfweiliad y maent yn rhoi ffurflenni cais er y soniodd cryn nifer o gynghorwyr myfyrwyr am bwysigrwydd esbonio meini prawf cymhwyster i fyfyrwyr cyn dosbarthu ffurflenni cais. Mae nifer fechan o Sefydliadau Addysg Uwch yn rhoi un ffurflen gais safonol i fyfyrwyr tra bod gan y rhan fwyaf nifer o ffurflenni cais ar gyfer darpariaethau megis gofal plant, profion anabledd a chaledi haf. Mae gan y rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Bellach un ffurflen gais gyffredinol, er bod gan rai wahanol ffurflenni ar gyfer pob math o angen y rhoddir cymorth iddo, megis ffurflen gais am dalebau cinio, ffurflen gais am ofal plant a theithio. Mewn un Sefydliad Addysg Bellach, mae'n rhaid i diwtoriaid cwrs roi gwybodaeth ar gronfa ddata ymhell cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd ar ofynion o ran offer ac ymweliadau, ac mae myfyrwyr sy'n gymwys am CAWG (oherwydd eu bod yn cyflawni'r trothwy incwm aelwyd) yn gymwys yn awtomatig am CAWG ar yr eitemau hyn (yn ogystal â chlydiant neu ofal plant) os ydynt wedi ymrestru ar gwrs perthnasol.

Yn nhermau cyflwyno'r ffurflenni cais, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau wneud hynny yn bersonol (neu drwy'r post) gan fod angen iddynt roi tystiolaeth i gefnogi ar ffurf cyfriflenni banc, tystiolaeth o incwm aelwyd, tystiolaeth o breswyliaeth neu fudd-daliadau a dderbyniwyd er i rai sôn eu bod yn derbyn ceisiadau electronig. Dywedodd o leiaf ddau Sefydliad Addysg Uwch wrthym mai dim ond ceisiadau wyneb i wyneb y maent yn eu derbyn fel y gall staff cymorth myfyrwyr wirio os yw'r ffurflen wedi'i llenwi'n iawn (er nad oedd hyn yn cyd-fynd bob amser gyda barn myfyrwyr yn y sefydliadau hynny). Dywedwyd nad yw'r sefydliadau hyn yn derbyn

ceisiadau anghyflawn a bod hyn yn mynd beth o'r ffordd i esbonio eu cyfradd gwrthod gyffredinol isel oherwydd ceisiadau anghyflawn.

Roedd mwyafrif y myfyrwyr, yn arbennig mewn Addysg Uwch, yn credu fod y ffurflenni cais yn gymharol syml, yn arbennig o gymharu gyda ffurflenni cais eraill am gyllid myfyrwyr megis y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) a Chyllid Myfyrwyr Cymru. Dywedodd un myfyriwr 'dim ond llenwi'r ffurflenni ac e-bostio fy nghyfriflenni banc oedd eisiau' a dywedodd un arall y bu'r broses gais yn arbennig gan ychwanegu 'rwy'n credu ei bod yn fodel y dylai'r gwasanaeth budd-daliadau a gwasanaethau eraill edrych arno oherwydd ei fod mor bersonol, ac yn dangos parch'. Canmolodd llawer y canllawiau a gawsant gan wasanaethau cymorth myfyrwyr pan oeddent yn gwneud cais am gyllid gydag un myfyriwr yn ychwanegu 'Wnes i erioed o'r blaen ddod ar draws system mor hyblyg a pharod i ddelio gyda rhywun fel fi' [myfyriwr Addysg Uwch].

Roedd nifer lai o fyfyrwyr (yn fwy felly ar lefel Addysg Bellach) wedi cael mwy o anawsterau wrth ddelio gyda'r broses gais a chyfaddefodd ychydig eu bod yn ddihyder wrth lenwi ffurflenni ac nad oeddent yn deall beth oedd ei angen ganddynt. Yn wir, ychwanegodd rhai o'r myfyrwyr hyn nad oedd ganddynt gymorth adref i lenwi'r ffurflenni er mewn achosion eraill cydnabu cyfweleion eu bod wedi rhoi'r ffurflen 'i mam ei llenwi'. Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn fwy tebygol o gwyno am yr angen i roi tystiolaeth atodol megis cyfriflenni banc a thystiolaeth incwm yn hytrach na'r ffurflen ei hunan. Ymddangosai fod y gofyniad hwn yn achosi gofid neilltuol i rai myfyrwyr oedd wedi ymddieithrio o'u teuluoedd yn ddiweddar gan na allent roi tystiolaeth eu bod wedi byw'n annibynnol am dair blynedd (fel y gofynnid gan rai Sefydliadau Addysg Bellach) er mwyn derbyn cymorth. Galwodd rhai myfyrwyr Addysg Bellach (yn ogystal â chyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach) am symleiddio ffurflenni a phrosesau cais ac iddynt fod yn debycach i rai'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) - er enghraifft awgrymodd nifer y byddai'n rhwyddach i fyfyrwyr gyflwyno eu dogfennau'n dangos incwm eu haelwyd unwaith yn unig ar gyfer y Grant Cynhaliaeth Addysg a CAWG, er bod y ddau gynllun yn cael eu gweinyddu ar wahân.

Gwelsom rai problemau penodol mewn rhai sefydliadau yng nghyswllt cyflwyno'r ffurflenni cais - er enghraifft cynnodd ychydig o fyfyrwyr mewn un sefydliad fod y broses gais wedi cymryd llawer hwy nag oedd yn dderbyniol oherwydd mai dim ond unwaith yr wythnos yr oedd staff cymorth myfyrwyr yn casglu ffurflenni cais o'u campws cyn eu prosesu yn y prif gampws. Felly bernid mai dim ond ar ôl derbyn y ffurflenni yn y prif gampws yr oedd y broses yn dechrau. Mewn achos arall, dywedodd ychydig o fyfyrwyr Sefydliadau Addysg Uwch y byddai ceisiadau i

roi unrhyw dystiolaeth ychwanegol at eu ceisiadau yn ychwanegu gohiriad pellach o 20 diwrnod gwaith i'r broses a olygai, gan i'r broses gais ddechreuol gymryd 20 diwrnod gwaith, y gellid disgwyl i fyfyrwyr aros hyd at 40 diwrnod gwaith cyn clywed am ganlyniad eu cais.

Mae'n ddealladwy mai'r myfyrwyr y gwrthodwyd cyllid iddynt oedd fwyaf tebygol o gwyno am y broses gais a dywedodd nifer ohonynt na ddeallent pam y gwrthodwyd eu cais. Dywedodd rhai o'r ymgeiswyr aflwyddiannus hyn, yn ogystal ag ychydig o rai llwyddiannus, y byddai'n helpu eu hachos yn achlysurol pe byddent wedi cael cyfle i esbonio eu sefyllfa i banel gwneud penderfyniadau pan oeddent yn gwneud cais i ddechrau, yn neilltuol os oedd eu hamgylchiadau'n ymhleth gan na chredent y gallai cais papur ar ben ei hun wneud cyfiawnder i'w hamgylchiadau. Roedd nifer fechan iawn o'r myfyrwyr a gyfwelwyd yn ymwybodol iawn fod y polisïau cais a dyfarnu ar gyfer CAWG yn amrywio o un sefydliad i un arall a theimlent nad oedd hyn yn deg. Er enghraifft, gwyddai un myfyriwr drwy gyfaill mewn prifysgol arall yng Nghymru fod eu cynllun CAWG hwy'n cael ei weinyddu mewn dull haws ac yn cynnig uchafswm mwy nag oedd ar gael yn ei sefydliad ei hun.

#### *11.5.2 Prosesau Gwneud Penderfyniadau*

Nododd nifer o Sefydliadau Addysg Uwch fod staff CAWG yn gyfrifol am asesu ceisiadau yn uniongyrchol. Yn wir, nododd o leiaf dri eu bod wedi gwella eu gweithdrefnau asesu ceisiadau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac y gallent yn awr asesu ceisiadau mewn ffordd llawer symlach. Yn yr achosion hyn roedd staff Sefydliadau Addysg Uwch wedi cael awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau ar unwaith ar geisiadau syml yn unol gyda chanllawiau'r sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys gallu cael cyngor uwch gydweithiwr neu gynghorydd mewn un achos. Dywedwyd fod cyflwyno dull gweithredu o'r fath wedi arwain at wasanaeth cyflymach i fyfyrwyr ac mai dim ond ceisiadau cymhleth ac allan o'r cyffredin a gyfeiriwyd at banel asesu ar gyfer penderfyniad. Cyflwynwyd proses gwneud penderfyniadau ar-lein yn un o'r Sefydliadau Addysg Uwch hyn hefyd lle gellid ateb ceisiadau argyfwng ar y diwrnod y'u cyflwynwyd, hyd yn oed os oedd aelodau'r panel asesu i ffwrdd o'u swyddfa ar y diwrnod hwnnw.

Fodd bynnag, dywedodd rhai bod y prosesau mewn Sefydliadau Addysg Uwch eraill, yn neilltuol mewn sefydliadau traddodiadol, yn dibynnu'n helaeth iawn ar ddefnyddio paneli asesu. Mewn un achos mae panel asesu'n cwrdd yn wythnosol i benderfynu ar geisiadau ac nid oes gan staff unrhyw bwerau dewisol i ddyfarnu grantiau. Mewn Sefydliad Addysg Uwch arall, mae'r panel asesu yn cwrdd bob bythefnos. Ystyriwyd ei bod yn arfer da yn gyffredinol i gynnwys cynrychiolydd myfyrwyr ar y paneli asesu Sefydliadau Addysg Uwch yma. Mae'n werth nodi fod Sefydliadau Addysg Uwch yn gyffredinol yn fwy tebygol na Sefydliadau Addysg Bellach i roi cyngor ar reoli arian i fyfyrwyr gan y bydd cynghorwyr yn trafod cyfriflenni banc ymgeiswyr a'u

gwariant ar eitemau heb fod yn hanfodol.

Mae Sefydliadau Addysg Bellach yn fwy tebygol na Sefydliadau Addysg Uwch i weithredu dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau CAWG. Yn wir mae rhai Sefydliadau Addysg Bellach yn gweithredu un dyddiad cau ym mis Medi tra bod gan eraill hyd at bum dyddiad cau ar hyd y flwyddyn academaidd. Mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Bellach (ond dim Sefydliadau Addysg Uwch) yn derbyn ceisiadau cyn i fyfyrwyr ymrestru ar eu cyrsiau (yn arbennig ar gyfer myfyrwyr presennol) ond nid ydynt fel arfer yn gwneud penderfyniadau tan ddechrau'r tymor. Yn y rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Bellach, caiff pob cais ei asesu gan un aelod o staff gyda'r panel ond yn trin achosion o wrthodiadau neu apeliadau. Dim ond cwpl o Sefydliadau Addysg Bellach sy'n cyfweled â phob ymgeisydd am CAWG (e.e. Grŵp Llandrillo Menai) neu cyfwelir pob ymgeisydd am ddarpariaeth neilltuol megis plant (e.e. Coleg Caerdydd a'r Fro). Yn y Sefydliadau Addysg Bellach eraill, caiff penderfyniadau am geisiadau dan werth neilltuol, yn amrywio o dan £450 yng Ngholeg Sir Benfro i dan £2,000 yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, eu gwneud gan un aelod o staff tra caiff ceisiadau am ddyfarniadau mwy eu hystyried gan banel dyfarniadau. Mae'r paneli hyn yn tueddu i gwrdd yn fwy rheolaidd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd pan wneir y rhan fwyaf o geisiadau.

Mae rhai Sefydliadau Addysg Bellach yn fwy llym nag eraill wrth gydymffurfio â pholisi lle os nad yw myfyriwr yn gymwys na allant wneud cais (ac mewn rhai achosion ni fyddid yn rhoi ffurflen gais i fyfyrwyr ei llenwi). Soniodd un Sefydliad Addysg Bellach yn benodol am brawf cymhwyster ar-lein y gellid ei ddefnyddio i gefnogi hyn. Yn y sefydliadau hyn dadleuwyd fod y gyfradd gwrthod yn eithriadol o isel - neu hyd yn oed dim yn bodoli mewn rhai achosion. Mewn Sefydliadau Addysg Bellach eraill dywedwyd na chaiff ceisiadau heb dystiolaeth ddigonol eu derbyn ac felly na chânt eu doddi ar y system. Nododd ychydig o Sefydliadau Addysg Bellach yn benodol y byddent yn barod i dderbyn ffurflenni cais 'anghyflawn' yn unig lle'r oedd datganiadau ysgrifenedig priodol ar gael gan eiriolwyr proffesiynol, megis yn achos gweithwyr cymdeithasol yn hyrwyddo achos ymadawyr gofal.

Cafwyd amrywiaeth barn am faint o amser a gymerwyd i adolygu eu ceisiadau - yn wir roedd y cyfnod yn amrywio'n sylweddol gyda rhai myfyrwyr yn dweud iddynt gael penderfyniadau ar unwaith i rai o fewn y sector Addysg Bellach yn dal i aros i glywed am y canlyniad ym mis Tachwedd er eu bod wedi cyflwyno eu cais ar ddechrau'r tymor (i raddau helaeth oherwydd bod y gronfa wedi ei dihysbyddu). Roedd yn amlwg fod myfyrwyr mewn nifer fechan o Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach yn llawer mwy negyddol am eu profiad o wneud cais am gyllid a faint o amser a gymerodd iddynt gael penderfyniad. Roedd y prif gonsyrn

ymysg myfyrwyr Addysg Bellach yn ymwneud â'r ffaith na wyddent pryd i ddisgwyl canlyniad eu cais, fel sy'n digwydd gyda'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg er enghraifft. Awgrymodd y myfyrwyr hynny y byddai'n well ganddynt gael strwythur lle'r oedd ganddynt amserlen benodol ar gyfer cyflwyno cais a dyddiad gosod ar gyfer clywed canlyniad y penderfyniad. Yn wir, daethom ar draws un myfyriwr Addysg Uwch nad oedd wedi clywed am ganlyniad aflwyddiannus penderfyniad y Sefydliad Addysg Uwch nes iddo dderbyn llythyr gwahodd i'n grŵp ffocws.

### *11.5.3 Trosglwyddo Dyfarniadau CAWG*

Mae'r dull o dalu i dderbynwyr CAWG yn amrywio gyda Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch yn defnyddio cymysgedd o sieciau, BACS, arian parod a thalebau. Roedd Sefydliadau Addysg Bellach yn fwy tebygol o ddefnyddio taliadau siec tra bod Sefydliadau Addysg Uwch yn defnyddio mwy ar BACS. Bydda'n ymddangos fod Sefydliadau Addysg Bellach yn gwneud mwy o daliadau'n uniongyrchol i ddarparwyr nag a wnaiff Sefydliadau Addysg Uwch, yn neilltuol ar gyfer dibenion gofal plant a theithio. Mae hefyd enghreifftiau o sefydliadau'n gwneud taliadau uniongyrchol i ddarparwyr eraill megis landlordiaid neu ddarparwyr cyfleustodau. Mae'n ddiddorol i gryn nifer o Sefydliadau Addysg Bellach nodi fod nifer fach o fyfyrwyr yn methu casglu eu sieciau pan ddyfarnwyd CAWG. Byddai'r myfyrwyr hyn yn dal i gael eu cynnwys yn ystadegau'r sefydliad a adroddir i Lywodraeth Cymru (er na fyddai'r cyllid a ddyrannwyd yn cael ei adrodd fel gwariant CAWG).

Roedd mwyafrif y rhai a dderbyniodd CAWG yn fodlon gyda'r dull talu a ddefnyddiodd eu sefydliad er, yn ôl y disgwyl, mynegodd rhai anfodlonrwydd. Yn neilltuol, byddai rhai myfyrwyr a dderbyniodd daliad drwy siec yn croesawu trosglwyddo cyllid yn gyflymach. Dywedodd un o'r myfyrwyr hyn: 'mae'r siec yn cymryd braidd yn hir ... roedd gan i angen mawr am yr arian ar y pryd ... mae'n cymryd tua phedwar diwrnod i'r banc i'w brosesu ... felly os ydych chi ar ben eich tennyn i gael arian ...'

Mewn achosion eraill roedd myfyrwyr yn bryderus am amseriad taliadau i ddarparwyr. Er enghraifft, yn achos un myfyriwr Sefydliad Addysg Bellach, mae'r coleg yn talu'n uniongyrchol i'r darparydd gofal plant unwaith y tymor, tuag at ddiwedd y tymor hwnnw, ac roedd yn bryderus y gallai fod perygl y gallai ei phlentyn golli ei le os byddai'n well gael y darparydd gael cwsmer oedd yn talu'n fwy cyson.

Heblaw yn achos Cymraeg i Oedolion, lle caiff cyllid ei ad-dalu'n gyffredinol i fyfyrwyr am gostau a gafwyd, ni welsom unrhyw enghreifftiau o sefydliad oedd yn gofyn i fyfyrwyr am dystiolaeth o wariant lle rhoddwyd cyllid ar gyfer diben penodol megis prynu llyfrau neu offer. Ni wnaethom

ychwaith gyfweld ag unrhyw fyfyrwr (heblaw myfyrwr CiO) oedd wedi gorfod dangos derbynebaw am eu gwariant. Yn wir dywedodd ychydig o fyfyrwr wrthym iddynt gael gafael ar offer rhatach nag a nodwyd gan y sefydliad fel y pris safonol ar gyfer yr offer, a'u bod wedi cael cadw'r gwahaniaeth. Byddai hyn yn cynnwys prynu dillad neu wisg briodol a chadw'r gwahaniaeth bach, a allai yn aml fod tua £20 ac a oedd weithiau hyd at £50.

#### *11.5.4 Apeliadau*

Dangosodd ein gwaith maes fod gweithdrefnau apêl CAWG yn bennaf yn eu lle a dangosodd llawer o sefydliadau eu gweithdrefnau apêl ysgrifenedig i ni. Ymddangasant yn addas i'r diben. Fodd bynnag mae adborth yn awgrymu mai ychydig o ddefnydd a wneir o'r gweithdrefnau apêl hyn, yn neilltuol ar draws y sector Addysg Bellach: 'mae'n beth prin iawn i ni gael apêl'. Roedd cyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi delio gydag apeliadau ffurfiol, er y soniodd nifer mai ddim ond un neu ddau'r flwyddyn a dderbynient. Ar y sail yma ychydig iawn a allai roi sylwadau ar ba mor effeithiol oedd y gweithdrefnau apêl.

Nid oedd mwyafrif y myfyrwr y gwnaethom eu cyfweld wedi gweld gweithdrefn apêl eu sefydliad er iddynt gael gwybodaeth o'r fath ar y dechrau gan fod hyn yn ofyniad y cynllun CAWG. Roedd nifer fechan (yn bennaf mewn Addysg Uwch) wedi apelio yn erbyn y penderfyniad dechreuol - rhai oherwydd y gwrthodwyd cyllid iddynt ac mewn achosion eraill oherwydd y bu lefel y cyllid a ddyfarnwyd yn is na'r disgwyl. Apeliodd myfyriwr yn llwyddiannus yn un o'r achosion hyn - er iddo ddweud y bu'n anodd cael gwybodaeth am y weithdrefn. Un gŵyn gyffredin (a gafwyd gan fyfyrwr Addysg Bellach) oedd yr amserlen fer ar gyfer apelio a dywedwyd fod yn rhaid gwneud cwyn o fewn 14 diwrnod yn y sefydliad dan sylw.

#### **11.6 Monitro ac Adrodd**

Gwelsom enghreifftiau o sefydliadau sy'n cadw'r isafswm o ddata monitro sydd ei angen ar gyfer dibenion adrodd Llywodraeth Cymru tra dywedodd eraill eu bod yn cadw taenlenni electronig, oedd yn cynnwys llawer mwy o fanylion nag oedd eu hangen gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd llawer o'r Sefydliadau Addysg Bellach a'r Sefydliadau Addysg Uwch a gyfwelwyd eu bod yn paratoi adroddiadau rheolaeth yn fisol ar gyfer dibenion adroddiadau manwl ac roedd hefyd yn eithaf cyffredin i'r sefydliadau baratoi adroddiadau crynodeb blynyddol yn rhoi manylion 'pwy gafodd beth'.

Dywedodd nifer fach o sefydliadau hefyd iddynt gynnal arolygon o dderbynwyr CAWG i roi adborth iddynt ar brofiadau myfyrwr o'r gronfa. Cawsom gopïau canlyniadau o'r fath yn cynnwys canfyddiadau arolwg o'r fath ym Mhrifysgol Morgannwg lle'r oedd cyfran fawr o

ymatebwyr wedi nodi y bu'r dyfarniad yn hanfodol iddynt aros yn y Brifysgol - yn wir dywedodd 23 ymatebydd sylw tebyg i 'fyddwn i ddim wedi medru parhau â fy astudiaethau heb CAWG'.

### **11.7 Rhannu arfer da**

Byddai'n ymddangos fod Grwpiau Cynghori CAWG (Addysg Uwch a hefyd Addysg Bellach) yn un yn unig o'r ffyrdd y mae staff Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch yn rhannu arfer da gan fod grwpiau eraill yn cyflawni llawer o'r swyddogaeth yma. Yn wir ni allai llawer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch roi sylwadau ar y naill na'r llall o'r Grwpiau Cynghori hyn gan nad oeddent wedi mynychu dim o'u cyfarfodydd.

Ar lefel Addysg Uwch, credai nifer fechan iawn o'r cyfweleion a fynychodd grŵp cynghori CAWG Addysg Uwch y bu'r grŵp yn weddol effeithiol, er nad oedd wedi cyfarfod ers peth amser. Yn wir, roedd y rhan fwyaf o gyfweleion o'r sector yma'n fwy tebygol o sôn am rannu arfer da a ddynodwyd drwy grwpiau eraill megis grwpiau rhanbarthol NASMA a rhwydweithiau cymorth arweinwyr eraill dan arweiniad Sefydliadau Addysg Uwch. Roedd peth o'r rhannu arfer da penodol a nodwyd yn cynnwys un cyfweleion Sefydliad Addysg Uwch a allodd gyflwyno newidiadau i'w gweithdrefnau apeliadau ar ôl ystyried arferion Sefydliadau Addysg Uwch eraill, cyfeiriodd un arall at ddatblygu canllawiau gan y grŵp ar lwfansau byw cyfansawdd ac un arall a gafodd y gwahanol rwydweithiau yn ddefnyddiol ar ôl iddi gael ei phenodi gyntaf i'w swydd. Yn wir soniodd nifer fechan o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch am werth medru cael mynediad i rwydweithiau o'r fath i drin eu harwahanrwydd: 'mae'n galed pan ydych ar eich pen eich hun ... ar wahân yn y Brifysgol .... i wybod os ydych yn gwneud y peth iawn gyda'r arian'.

Ar draws y sector Addysg Bellach, cyfeiriodd cyfweleion at Grŵp Cynghori CAWG Addysg Bellach a Grŵp Rheolwyr Gwasanaethau Dysgwyr/Myfyrwyr Addysg Bellach fel dau rwydwaith yr oeddent yn eu mynychu'n aml i rannu arfer da. Mae adborth ar Grŵp Cynghori CAWG Addysg Bellach yn tueddu i awgrymu y bu'r grŵp yn neilltuol o ddefnyddiol wrth amlygu gwahanol ymagweddau Sefydliadau Addysg Bellach at CAWG ac roedd llawer o'r cyfweleion yn obeithiol y byddai'r canllawiau cyffredin a ddatblygir yn helpu i fynd i'r afael â'r anghysonderau hyn. Dywedodd cwpl o gyfweleion hefyd eu bod wedi gallu 'mireinio' eu gweithdrefnau eu hunain fel canlyniad i drafod arferion Sefydliadau Addysg Bellach eraill yn y grŵp hwn. Fodd bynnag cododd rhai o'r cyfweleion gwestiwn am werth y grŵp mewn hwyluso dialog uniongyrchol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru gan y teimlid mai anaml y câi'r adborth a roddwyd ei adlewyrchu yn y cynlluniau blynyddol a gyhoeddwyd i'r sector. Yn ddi-ddorol, awgrymodd un o'r cyfweleion fod Grŵp Cynghori CAWG Addysg Bellach a'r grŵp Rheolwyr Addysg Uwch wedi dod braidd yn 'ddifflach' yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd na fu fawr o



newid mewn CAWG mewn blynyddoedd diweddar.

## **12. CYLLID A GWEINYDDIAETH LLYWODRAETH CYMRU**

### **12.1 Cyflwyniad**

Yn yr adran yma trafodwn weinyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r cynlluniau CAWG ac yn neilltuol cyflwynwn yr adborth am y dyraniadau cyllid i sefydliadau (Adran 12.2), amseriad hysbysiadau (Adran 12.3), dewisiadau dros daliadau blynyddol neu daliadau mewn camau (Adran 12.4) yn ogystal â phriodoldeb ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru (Adran 12.5).

### **12.2 Dyraniadau Cyllid**

Yn gyffredinol nid oedd sefydliadau wedi gweld y fformiwla cyllid a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid i sefydliadau unigol, yn arbennig ar draws y sector Addysg Uwch. Er hyn, nid oedd unrhyw ddymuniad neilltuol o'r tu mewn i'r sector Addysg Uwch i ddiwygio dyraniadau cyllid gan y credai'r mwyafrif helaeth eu bod yn cael rhan deg o'r arian. Fodd bynnag, roedd dymuniad cryf ymysg cyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch i'r fformiwla ariannu bresennol gael ei rhannu gyda'r sector a'i gwneud yn dryloyw.

Ar y llaw arall, dywedodd nifer fechan o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach eu bod yn gyfarwydd gyda dull Llywodraeth Cymru o gyfrif dyraniadau Sefydliadau Addysg Bellach unigol. Yn wir, roedd y cyfweleion hyn hefyd yn ymwybodol o drafodaethau blaenorol dan arweiniad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r fformiwla a defnyddio dull mwy gwyddonol. Fodd bynnag ni ddaeth y trafodaethau hyn i ffrwyth gan y cytunwyd y gallai'r effaith tebygol o wneud newidiadau fod yn andwyol i ddyraniadau rhai sefydliadau.

Cafwyd barn fwy cymysg gan y sector Sefydliadau Addysg Bellach ar p'un oeddent yn derbyn eu 'cyfran deg' o gyllid. Roedd tua hanner y Sefydliadau Addysg Bellach yn fodlon gyda'u dyraniadau ond credai nifer o sefydliadau y dylent fod yn cael yn 'sylweddol fwy na'r dyraniad a dderbynient ar hyn o bryd', gan na chredent fod eu dyraniad presennol yn adlewyrchu nifer myfyrwyr a/na natur yr amddifadedd oedd yn eu hwynebu. Ymhellach mynegodd rhai bryderon nad oedd y fformiwla bresennol yn adlewyrchu newidiadau diweddar mewn datblygu system drydyddol tra bod rhai Sefydliadau Addysg Bellach wedi gweld cynnydd yn nifer myfyrwyr chweched dosbarth.

Ni themlid fod y fformiwla ar gyfer cyfrif cyllid yn neilltuol o ymatebol i newidiadau yn amgylchiadau Addysg Bellach/Addysg Uwch na nifer myfyrwyr a dywedwyd fod y ffaith fod lefelau cyllid yn gyffredinol yr un fath flwyddyn ar ôl blwyddyn (heblaw am y toriadau eang i'r sector Addysg Uwch yn fwy diweddar) yn dystiolaeth o hyn. Yn ychwanegol dywedodd

cyfweleion y gallai gymryd dwy flynedd i ddyraniadau blynyddol adlewyrchu unrhyw gynnydd yn y galw a ddangoswyd yn ffurflen CAWG y sefydliad - er enghraifft ni allai Llywodraeth Cymru ond ystyried y data a ddychwelwyd gan sefydliadau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2011/12 wrth gynllunio ar gyfer blwyddyn academiaidd 2013/14.

### **12.3 Amseriad hysbysiadau**

Derbyniwyd yn gyffredinol y caiff manylion cynllun Llywodraeth Cymru a hysbysiad dyraniadau blynyddol i'r sector Addysg Bellach a hefyd y sector Addysg Uwch eu cyhoeddi'n hwyr yn y dydd, gyda nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn nodi mai ym mis Awst y cawsant yr wybodaeth yma yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag dylid nodi i Sefydliadau Addysg Uwch gael eu hysbysu'n anffurfiol gan Lywodraeth Cymru na ddylent ddisgwyl fawr neu ddim newid i'r cynlluniau cyn diwedd y tymor haf dan sylw. Ar gyfer y sector Addysg Uwch, er nad yw'r hysbysiad hwyr yn achosi problemau sylweddol i fwyaf y sefydliadau, fe wnaeth nifer fechan bwysleisio ei fod yn cael effaith sylweddol ar eu cynllunio am y flwyddyn i ddod. Yn wir cydnabu'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch fod yr hysbysiad hwyr yn cael effaith ar weithrediad y cynllun yn cynnwys y cyngor a roddir i fyfyrwyr. Ymhellach dywedodd nifer o Sefydliadau Addysg Uwch eu bod yn cynllunio yn y tywyllwch gan obeithio na fydd unrhyw newidiadau sylweddol yn ymddangos i'r cynllun ac y bydd eu dyraniadau'n aros yr un fath. Prif effaith bod yr wybodaeth ar gael yn hwyr yw bod sefydliadau'n gorfod 'rhuthro' rhai elfennau cynllunio fel diwygio polisi eu sefydliad eu hunain i adlewyrchu'r cynllun a pharatoi eu proffil gwariant am y flwyddyn i ddod cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd. Galwodd rhai cyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch am i'r cynllun a'r dyraniadau blynyddol fod ar gael o fis Mai fan bellaf i alluogi Sefydliadau Addysg Uwch i gynllunio'n effeithlon a gwella eu cyfathrebu i ddarparu fyfyrwyr.

Ar gyfer y sector Addysg Bellach, ymddengys fod amseriad hwyr y cynllun a'r dyraniadau yn achosi mwy o broblem - nododd llawer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach fod eu prif gonsyrn yn ymwneud â delio gyda newidiadau sylweddol i'w dyraniadau ar fyr rybudd (er mewn gwirionedd na fu unrhyw newidiadau o'r fath mewn blynyddoedd diweddar ac, fel yn achos y sector Addysg Uwch, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori Sefydliadau Addysg Bellach na ddylent ddisgwyl unrhyw newidiadau o'r fath cyn diwedd y tymor haf dan sylw). Nododd nifer o'r cyfweleion hyn eu bod yn cynllunio eu dyraniadau CAWG ar sail cyllid y flwyddyn flaenorol yn y disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r sefyllfa fel y mae - yn wir dadleuwyd fod hysbysiad hwyr yn cael effaith sylweddol ar grwpiau neilltuol sydd angen mynediad i gyllid ar unwaith ar ddechrau'r tymor, megis y rhai sydd angen cymorth gofal plant, gan eu bod yn methu rhoi penderfyniad iddynt nes y cadarnhawyd cyllid Llywodraeth Cymru.

Nododd rhai sefydliadau hefyd fod cyllid Llywodraeth Cymru rywfaint yn hwyr yn cael eu trosglwyddo i gyfrif sefydliadau yn ystod 2012/13 er y deellir fod hyn i raddau helaeth oherwydd y gofyniad i sefydliadau lofnodi a derbyn ffurflen cydnabyddiaeth i Lywodraeth Cymru yn derbyn telerau ac amodau'r grant. Gan fwyaf gall Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch ddelio gyda'r materion 'llif arian' hyn ond byddai cyfweleion yn hoffi i gyllid gael ei dalu'n brydlon ar ddechrau'r tymor academaidd yn hytrach nag yn ail neu drydedd wythnos y tymor.

#### **12.4 Taliad blynyddol neu daliad mewn camau**

Ychydig o bwynt a welai'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy am dalu grant CAWG mewn taliadau mewn camau dros y flwyddyn academaidd. Ychwanegodd nifer o gyfweleion y byddai hyn yn rhwym o ychwanegu at faich gweinyddol y sefydliadau a hefyd Lywodraeth Cymru ac y gallai gynyddu ansicrwydd i sefydliadau a myfyrwyr sy'n derbyn. Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi peilota model o'r fath yn y gorffennol ac na fu'r dull yma'n llwyddiannus. Soniodd nifer o Sefydliadau Addysg Bellach hefyd, gan fod y rhan fwyaf o'u cyllid wedi'i ymrwymo yn ystod y semester cyntaf, na ymddangosai fod fawr o bwynt mewn dal symiau bach o gyllid am weddill y flwyddyn academaidd.

#### **12.5 Ffurflenni Monitro Blynyddol**

Drwyddi draw ni chredid fod y gofynion monitro ac adrodd a roddir ar sefydliadau yn neilltuol o feichus nac anghymesur a chredai'r rhan fwyaf o gyfweleion eu bod yn dderbyniol. Yn wir roedd sylw un cyfwelai un Sefydliad Addysg Bellach yn crynhoi barn cyfweleion eraill:

'Mae'n dasg fawr ar y pryd ond rydym wedi'i deall hi'n awr ac mae'r wybodaeth y maen nhw'n gofyn amdani yn ddilys.'

Gwnaed rhai sylwadau am feysydd i'w gwella, ac roedd hyn yn cynnwys yr angen i ffurflenni monitro a gofynion fod ar gael ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a'u dychwelyd ynghynt i Lywodraeth Cymru ar ôl i'r flwyddyn academaidd ddod i ben. Byddai hyn yn helpu sefydliadau i sicrhau eu bod yn casglu'r holl wybodaeth oedd ei hangen ar gyfer adrodd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na chanfod nad oedd data penodol ganddynt ar ôl diwedd y flwyddyn. Awgrymodd rhai hefyd fod angen gwell aliniad rhwng y gofynion monitro a nodir gan Lywodraeth Cymru a'r categorïau a gynhwysir yn y cynllun. Codwyd materion bach eraill gan gyfweleion unigol yn cynnwys problem cofnodi'r ffaith y gallai Sefydliad Addysg Uwch ddsbarthu dyfarniad mewn dau randaliad hyd yn oed er mai dim ond un dyfarniad oedd eto roedd prosesau monitro Llywodraeth Cymru yn golygu eu bod yn gorfod cofnodi pob rhandaliad fel dyfarniad ar wahân.

Yn olaf gofynnodd rhai gwestiynau am werth y penawdau darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y ffurflenni monitro gan nad ydynt yn rhoi argraff ystyrlon o hyn mae CAWG yn ei gyflawni.

## **13. CANFYDDIADAU: EFFAITH CAWG**

### **13.1 Cyflwyniad**

Mae'r adran yma'n trafod y gwahaniaeth a gaiff cyllid CAWG ar ymrestru myfyrwyr (Adran 13.2) a chadw (13.3) o fewn y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ogystal â chyflwyno'r dystiolaeth ar weithgareddau a fyddai wedi digwydd beth bynnag pe na bai cymorth ar gael (Adran 13.4). Mae trafodaeth benodol ar Gymraeg i Oedolion ym Mhennod 10 uchod.

### **13.2 Gwahaniaeth a wnaiff CAWG i ymrestru myfyrwyr**

Dangosodd ein gwaith maes gyda Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch fod argaeledd CAWG yn ffactor llawer pwysicach i fyfyrwyr Addysg Bellach nag yw ar gyfer ymgeiswyr Addysg Uwch yn nhermau effeithio ar eu penderfyniad i ymrestru ar gyfer eu cwrs. Efallai nad yw hyn yn syndod o gofio am ffocws Sefydliadau Addysg Bellach ar gyfathrebu argaeledd y gronfa i ddarpar fyfyrwyr a defnyddio CAWG i alluogi'r rhai sy'n dymuno ymrestru yn y coleg i allu gwneud hynny. Cyfaddefodd un cyn gyfwelai o Sefydliad Addysg Bellach 'rydym yn cael nifer enfawr yn dod i'r coleg am yr arian - mae pobl yn eithaf agored am hynny', bydded am gymorth Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) neu CAWG.

Er na allai'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Bellach feintio effaith CAWG ar dueddiadau ymrestru myfyrwyr, fe wnaeth un awgrymu oni bai am CAWG:-

'Ni fyddai 90% o fyfyrwyr [yn derbyn CAWG] wedi dechrau'r cwrs yn y lle cyntaf'.

Mae adborth gan lawer o fyfyrwyr Sefydliadau Addysg Bellach yn awgrymu fod gan CAWG ran hanfodol yn eu penderfyniadau i ymrestru ar gwrs ac mae'r sylwadau dilynol yn adleisio'r rhai a glywyd mewn llawer o grwpiau ffocws:

'Heb y cyllid yma fyddwn i ddim wedi medru dod i astudio ... fyddwn i ddim wedi dechrau'r cwrs os na fyddwn i wedi cael yr arian'. [Menyw 41 oed mewn Sefydliad Addysg Bellach gyda dau o blant yn derbyn CAWG ar gyfer cymorth gofal plant]

'Fyddwn i ddim yma heb CAWG'. [Myfyriwr 18 oed a dderbyniodd CAWG ar gyfer nifer o ddibenion yn cynnwys prydau am ddim a chymorth gyda chostau teithio ac offer].

Tanlinellodd llawer o fyfyrwyr Addysg Bellach bwysigrwydd canfod ymlaen llaw os byddai cyllid CAWG ar gael iddynt gan fod hyn yn rhoi mwy o sicrwydd iddynt pan oeddent yn ymrestru am astudiaeth. Cadarnhaodd un cyfwelai Sefydliad Addysg Bellach hyn hefyd gan ychwanegu fod 'pobl eisiau gwybod pan maent yn ymrestru os ydynt yn mynd i gael gofal plant, mynd i gael cludiant, mynd i gael hyn a'r llall.'

Er ei bod yn amlwg na fyddai llawer o fyfyrwyr wedi ymrestru mewn Addysg Bellach heb CAWG, mae hefyd yn wir i lawer o fyfyrwyr a gyfwelwyd gydnabod eu bod wedi ymrestru ar eu cwrs yn y gobaith y gallent gael mynediad i gymorth drwy CAWG. Roedd rhai ohonynt yn awyddus iawn i ddweud y bu'n anodd iddynt yn ychydig wythnosau cyntaf y tymor gan na wyddent os byddent yn cael cymorth. Fel enghraifft, dywedodd un fyfyrwraig wrthym ei bod wedi gwneud cais am bas bws drwy CAWG ond iddi fod yn anodd iddi dalu am y costau teithio yn ystod dwy wythnos gyntaf y tymor nes y cymeradwywyd ei chais. Dywedodd:

'Bu'n rhaid i Mam dalu am hyn [am y ddwy wythnos ddiwethaf] ond mae hi newydd gael babi ... wn i ddim sut y byddent wedi ymdopi [heb CAWG], fe fyddai wedi bod yn anodd iawn i mi dalu amdano mewn gwirionedd.'

Roedd eraill yn barod i gyfaddef fod ganddynt drefniadau ar waith ar gyfer darpariaethau amrywiol megis gofal plant neu gostau teithio cyn ymrestru, bod argaeledd CAWG yn golygu y medrid lliniaru rhai pwysau ariannol ac yn achos un myfyriwr a gyfwelwyd, y medrid rhoi trefniadau iawn ar gyfer gofal plant yn eu lle:

'Roedd Nain yn mynd i edrych ar ôl yr un fach i mi pan oeddwn yn mynd i'r coleg, ond pan ddois i yma fe welais y gallwn gael help gyda gofal plant ... felly fe wnes ei rhoi mewn gofal plant am ei bod hi'n haws, oherwydd mae Nain yn mynd yn hen'. [Myfyriwr Addysg Bellach]

Dangosodd adborth myfywrwyr fod argaeledd cyllid ar gyfer darpariaethau neilltuol megis gofal plant, offer a llety yn tueddu i gael dylanwad sylweddol ar benderfyniad myfyriwr i ymrestru am gwrs mewn Sefydliad Addysg Bellach. Barnwyd fod mynediad i ddarpariaethau eraill megis pasiau bws a thalebau cinio yn fwy hanfodol ar gyfer aros ar gyrsiau a'u gorffen. Cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws oedd â phlant oedd yn fwyaf cyffredinol yn fwyaf awyddus i bwysleisio na fyddai gobaith iddynt fod wedi gwneud y cwrs oni bai am CAWG, i raddau helaeth oherwydd bod y symiau cyllid a gafwyd yn llawer uwch. Yn yr un modd, er yn is mewn nifer, roedd rhai a gafodd CAWG at eu costau llety hefyd yn fwy tebygol o bwysleisio na allent fod wedi fforddio eu costau rhent fel arall ac na fyddent felly wedi gallu ymrestru.

Fe wnaethom wrth gwrs hefyd ddod i gysylltiad â myfyrwyr a benderfynodd ymrestru mewn coleg Addysg Bellach heb roi ystyriaeth i CAWG, ac mae hyn yn cynnwys myfyrwyr nad oedd yn gwybod am y cyllid cyn ymrestru. Dywedodd un myfyriwr gweinyddiaeth busnes 19 oed sy'n derbyn lwfans teitho ar gyfer teithiau trên ar hyn o bryd: 'y llynedd roeddwn i'n cerdded [i'r coleg] a byddwn wedi gwneud hynny eleni' onibai am gymorth CAWG.

Yn wahanol i'r sefyllfa ar draws y Sector Addysg Bellach, ni ddywedodd bron unrhyw fyfyrwr Addysg Uwch fod eu penderfyniad i ymrestru yn y Brifysgol wedi dibynnu ar iddynt dderbyn cefnogaeth CAWG, er bod cwpl wedi ymchwilio os oedd ar gael ac yn gobeithio medru cael mynediad iddo.

### 13.3 Gwahaniaeth a wnaiff CAWG i gadw myfyrwyr

#### 13.3.1 Sector Addysg Bellach

Rhoddodd pum Sefydliad Addysg Bellach ddata i ddangos fod cyfradd gadael derbynwyr CAWG yn wir yn is na chyfradd gadael myfyrwyr y sefydliad, er yr ymddengys y gwrthwyneb yn wir mewn pump arall. Cyflwynir y canfyddiadau oedd ar gael yn Nhabl 30 islaw:

Tabl 30: Cyfraddau gadael Myfyrwyr

	Cyfradd gadael derbynwyr CAWG %	Cyfradd gadael gyffredinol %
Coleg Morgannwg	19.5	25
Coleg Merthyr Tudful	7	18
Coleg Penybont	10	11
Coleg Gŵyr Abertawe	21 (G) 24 (B)	11
Coleg Caerdydd a'r Fro	12	10
Coleg Gwent	0.33	10
Grŵp Llandrillo Menai	7.89	8.72
Coleg Castell Nedd Port Talbot	16.6	8.5
WEA De	4.06	4
YMCA	0.9	0.5

Ffynhonnell: Data a gafwyd gan sefydliadau unigol

Mae adborth gan gyfweleion a myfyrwyr Sefydliadau Addysg Bellach yn tueddu i awgrymu mai cyllid ar gyfer gofal plant, cinio a thalebau cinio yw'r pwysicaf wrth gadw myfyrwyr yn y coleg. Yn wir, dywedodd un cyfwelai Sefydliad Addysg Uwch mai'r 'myfyrwyr hynny nad ydynt yn cael y



gofal plant sydd eithaf aml yn gadael.' Ystyriwyd fod darpariaeth lwfansau teithio, pasiau bws neu basiau trên yn hollbwysig wrth sicrhau fod myfyrwyr yn mynychu'n rheolaidd sydd wedyn yn arwain at well cyfle o gwblhau cwrs a chael cymwysterau da. Dywedodd llawer o fyfyrwyr fod cael CAWG wedi gostwng y pwysau arnynt a'u bod fel canlyniad yn gallu canolbwyntio ar eu hastudiaethau. Roedd y sylwadau a wnaed gan fyfyrwyr yn cynnwys:

'Dwi ddim yn gorfod poeni am ddod yma bob dydd nawr. Roedd Dad yn dod â fi yma i ddechrau a dod i fy nôl ond wedyn fe ddechreuodd ofyn am arian i dalu am betrol.'

'Byddai'r teithio fod wedi bod yn rhy ddrud i fod wedi aros.'

'Mae'n gwneud yn siŵr y gallwn ddod yma bob dydd bob wythnos.'

Pan ofynnwyd iddynt os byddent wedi gadael eu hastudiaethau pe na fyddent wedi derbyn cyllid CAWG, gwelir darlun cymysg ar draws y sector Addysg Bellach. Roedd rhai yn neilltuol o gryf wrth ddweud y byddai hynny'n debygol o fod wedi digwydd:'

"Pe na fyddwn i wedi cael yr arian, byddwn i neu fy mhartner wedi gorfod gadael ein cyrsiau.'

'Fe fyddwn i wedi gadael os na fyddwn wedi ei gael .... roeddwn yn meddwl am y peth .... ond nawr mod i wedi cael yr arian gallaf gario ymlaen.'

Dywedodd eraill ei bod yn fwy na thebyg y byddent wedi gorfod cyfaddawdu wrth wneud penderfyniadau anodd am yr hyn i roi blaenoriaeth iddo;

'Fe fyddai rhywbeth wedi gorfod mynd .... bwyd neu filiau mae'n debyg.'

'Fedrwn i ddim fforddio talu fy mil trydan fis diwetha ... rydwi bob amser yn ceisio dal lan'.

### *13.3.1 Sector Addysg Uwch*

Mae adborth gan gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch yn awgrymu fod argaeledd cyllid CAWG yn cael effaith gadarnhaol ar gadw myfyrwyr gan fod cyllid CAWG ar gael ar adeg o galedi ariannol ac yn llacio pwysau a phryderon ymysg myfyrwyr. Dengys ein gwaith maes gyda derbynwyr CAWG, er bod nifer o fyfyrwyr Addysg Uwch yn ystyried gadael eu hastudiaethau pan wnaethant gais am gymorth CAWG, dim ond opsiwn os oedd popeth arall wedi methu oedd gadael cyn gorffen eu cwrs.

Mae'n ychydig o syndod fodd bynnag cyn lleied o ddata y mae Sefydliadau Addysg Uwch yn ei gasglu ar gyfradd gadael derbynwyr CAWG o gymharu gyda phob myfyriwr ac fel rhan o'n gwaith maes dim ond mewn tri sefydliad y bu modd i ni gael mynediad data cyfradd gadael ar gyfer derbynwyr CAWG o gymharu gyda'r gyfradd gadael gyffredinol ar gyfer myfyrwyr. Ym mhob un o'r tri achos hyn, roedd cyfradd gadael derbynwyr CAWG yn is na'r gyfradd gadael gyffredinol (5% o gymharu gyda 8% ym Mhrifysgol Morgannwg, 1.8% o gymharu gyda 5% ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a 2% o gymharu gyda 7% ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd).

Dywedwyd wrthym hefyd fod rhai Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnal arolygon o ymgeiswyr CAWG i gael data o'r fath. Mewn un sefydliad o'r fath, er enghraifft, cytunai tua 70% o'r myfyrwyr a dderbyniodd CAWG fod argaeledd y gronfa wedi effeithio ar eu penderfyniad i aros yn y sefydliad ac roedd yn thema gyffredin yn ein grwpiau ffocws myfyrwyr.

Mae'n amlwg fod profiad myfyrwyr Addysg Uwch, sydd yn bennaf yn sôn am galedi ariannol enbyd, yn amrywiol iawn. Soniodd llawer o'r myfyrwyr am y pwysau yr oedd eu hamgychiadau ariannol yn ei achosi ac mae'r enghreifftiau canlynol yn rhoi awgrym o'r ffordd y mae CAWG wedi gwneud gwahaniaeth:

'Roeddwn dan bwysau mawr, yn bryderus iawn ... wyddwn i ddim sut y byddwn yn ymdopi ... allwn i ddim meddwl am adael y cwrs, ond fedrwn i ddim gweld sut y medrwn ddal ati ... roedd yr help a'r arian a gefais yn golygu y gallwn ddal ati.'

'Fe wnaeth CAWG lacio'r pwysau ... dwi ddim yn poeni mod i'n colli darlithoedd oherwydd na allaf fforddio mynd yno.'

Crynhodd dau fyfyrwr Addysg Uwch deimladau nifer o rai eraill drwy ddweud:

'Does neb ohonom yn siarad am symiau enfawr, ond mae'n gwneud gwahaniaeth.'

'Mae [y swm a dderbyniwyd] yn syndod o ddigon i ymdopi arno.'

Rhoddodd myfyrwyr eraill enghreifftiau ymarferol o sut yr oedd CAWG wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w hamgylchiadau, yn cynnwys:

'Fe wnaeth dalu mis cyntaf y ffi gofal plant yn y feithrinfa i mi .. oedd yn fendith fawr ... fe wnaeth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gawlach o bethau a wnaethom nhw ddim anfon arian tan ddiwrnod cyntaf y mis, ac mae'r feithrinfa angen ei harian erbyn hynny.'

### **13.4 Ffactorau eraill sy'n effeithio ar fyfyrwyr yn gadael cyn gorffen eu cyrsiau**

Byddai'n ymddangos mai dim ond un elfen o pam fod myfyrwyr yn gadael eu cyrsiau yw ffactorau ariannol ac er bod myfyrwyr a wnaeth gais am CAWG yn tueddu i roi mwy o bwysau ar faterion ariannol, roedd gan gynrychiolwyr o Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach farn fwy cytbwys. Awgrymodd mwyafrif y cyfweleion fod y prif ffactorau eraill sy'n effeithio ar fyfyrwyr yn gadael cyn gorffen eu cyrsiau'n cynnwys:

- Materion academaidd megis anfodlonrwydd gyda'r cwrs neu'r sefydliad yn ogystal ag anawsterau academaidd;
- Newidiadau personol yn ymwneud ag amgylchiadau teuluol;
- Materion cysylltiedig ag iechyd.

Heblaw cymorth ariannol drwy CAWG, roedd neges allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein gwaith maes yn ymwneud â chryfder y cyngor a'r cymorth a gynigiwyd gan wasanaethau cefnogaeth myfyrwyr. Nid oes unrhyw amheuaeth fod myfyrwyr a staff yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau hynny wrth helpu i gadw cyfraddau cadw da. Ymysg y sylwadau a wnaed gan fyfyrwyr oedd:

'Pan ydych yn dod yma am gymorth, maen nhw'n deg iawn, yn gwranddo ar eich amgylchiadau ... cefais fy nhrin yn dda iawn ... dwi erioed wedi teimlo'n wael am fy sefyllfa.'

'Dydych chi ddim yn gorfod ffonio rhywun dieithr .. maen nhw'n gwybod beth yw fy nghefnidir ... mae'r cysondeb yna'n wych.'

'Maen nhw yno i gael ateb i'ch problemau, nid dim ond i roi cyngor i chi ... maen nhw'n cysylltu â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn syth pan ydych chi yno ... maen nhw'n dweud wrthyhych chi'n union beth sy'n digwydd oherwydd eu bod nhw'n adnabod y system.'

Yn wir credid fod y cymorth am drin arian fod yr un mor bwysig â'r cyllid ei hunan mewn llawer o achosion, er y medrid holi os byddai myfyrwyr wedi ymateb i gymorth trin arian onibai fod CAWG yn sbardun wrth ddynodi'r angen am help o'r fath.

### 13.5 Tystiolaeth o Ddifuddiant

Er y dystiolaeth gref iawn a gasglwyd fod CAWG yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i rifau ymrestru mewn Addysg Bellach a chadw ar draws Addysg Bellach ac Addysg Uwch, mae'r adborth hefyd yn awgrymu peth tystiolaeth o ddifuddiant. Mae sylwadau gan fyfyrwyr yn dangos hyn:

'Mae'n debyg y byddwn wedi gwneud y cwrs beth bynnag ... dyw sefyllfa ariannol fy rhieni ddim mor dda â hynny ... ond mae fy mam yn rhoi arian i mi.'

'Fe fyddwn wedi cario ymlaen beth bynnag ... fyddai fy rhieni ddim wedi gallu helpu ... mae eu sefyllfa ariannol braidd yn llwm ... efallai y byddai'n rhaid i mi fod wedi cerdded neu ddod o hyd i swydd.'

'Fe fyddwn i wedi dod ... dim ond £20 yw e ac mae'n fy helpu, ond fe allwn fod wedi ymdopi fwy neu lai i'w wneud beth bynnag, oherwydd mod i'n gweithio hefyd.'

Roedd un myfyriwr Addysg Bellach ail flwyddyn yn astudio cwrs iechyd a gwaith cymdeithasol mewn Sefydliad Addysg Uwch yn barod i gyfaddef 'Fe fyddwn wedi ei wneud beth bynnag' er derbyn cinio am ddim, pas bws am ddim ac wedi derbyn £100 tuag at gostau offer. Defnyddiwyd y £100 yma ar gyfer costau dau lyfr cwrs, yn costio £25 yr un a bwriadai'r myfyriwr wario'r gweddill ar ddeunyddiau papur.

Awgrymodd nifer fechan o fyfyrwyr Addysg Bellach hefyd fod y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer offer neu lyfrau'n cael ei wario ar bethau eraill. Er enghraifft, cyfaddefodd dau fyfyriwr Addysg Bellach a gyfwelwyd y bu eu lwfansau ar gyfer offer yn y coleg yn rhy hael ac y byddent yn defnyddio'r gweddill i brynu deunyddiau ar gyfer eu cwrs prifysgol dilynol:

'Fe fyddai i'n cael llwythi o bethau ar gyfer y brifysgol gyda'r gweddill'.

Dyweddodd llawer o gyfweleion na dderbyniodd CAWG wrthym eu bod yn gweithio'n rhan-amser i ariannu eu dysgu ac amheuai nifer nad oeddent wedi derbyn cymorth oherwydd eu bod uwchben y trothwy incwm aelwyd a osodwyd gan eu Sefydliad Addysg Bellach ne na allent arddangos diffyg yn eu Sefydliad Addysg Uwch. Mae'r achos dilynol yn enghraifft dda:

'Roeddwn yn ddi-waith am ddwy flynedd. Fe wnes grant am Grant Dysgu'r Cynulliad ond cefais fy ngwrthod oherwydd bod fy Nhad yn ennill £200 yn fwy na'r uchafswm, ond rydym yn deulu

mawr gyda chwech o blant ... rwy'n byw adre, ond dim ond bwyd a llety mae fy rhieni'n ei roi i mi. Does gen i ddim arian. Dwi angen arian i fynd ar dripiâu a phrynu hwdi ar gyfer fy nghwrs. Fe wnes wario fy nghynilion ar fy offer. Maen nhw wedi dweud wrthyf y byddaf yn methu'r cwrs os na af ar o leiaf ddau drip. Mae'n achosi straen'. [Myfyriwr 21 oed Gwallt a Harddwch y gwrthodwyd ei gais am CAWG]

Dyweddodd nifer fach o fyfyrwyr wrthym fod eu cais wedi ei wrthod oherwydd nad oeddent yn diwallu gofynion preswyliaeth CAWG. Roedd dau fyfyriwr oedd yn astudio yn yr un coleg Addysg Bellach wedi symud yma o dramor i astudio. Mae'r ffaith iddynt fethu cael CAWG wedi golygu fod yn rhaid iddynt weithio oriau hir iawn mewn swyddi i'w cefnogi eu hunain. Fel canlyniad credent fod diffyg cwsg yn golygu eu bod yn gallu canolbwyntio llai ar eu hastudiaethau.

Dyweddodd rhai myfywrwyr Sefydliadau Addysg Bellach wrthym eu bod yn disgwyl derbyn cymorth CAWG, un ai oherwydd y dywedwyd wrthynt yn ystod ymrestru y gallent fod yn gymwys neu eu bod wedi'i dderbyn yn y gorffennol, a bod hyn wedi cyfrannu at eu penderfyniad i ymrestru. Mewn dau achos o'r fath, roedd myfywrwyr wedi talu am eu hoffer cwrs a gwiriad CRB ac yn siomedig canfod na fyddent yn derbyn cyllid CAWG ar gyfer y costau hyn. Ychwanegodd y ddau fyfyriwr hyn er eu bod wedi ystyried gadael y cwrs ond bod y ffaith eu bod 'nifer o wythnosau i mewn i'r cwrs' wedi golygu eu bod wedi penderfynu dal ati.

## **14. DYFODOL CAWG**

### **14.1 Cyflwyniad**

Yn yr adran yma trafodwn yr adborth a gafwyd yn ystod ein gwaith maes ar ddyfodol Cynlluniau CAWG. Canolbwyntiwn yn neilltuo ar y cwestiynau allweddol a ofynnwyd ym manyleb gwerthuso Llywodraeth Cymru os oes dal i fod angen y gronfa (Adran 14.2), p'un ai a ddylai fod yn gynllun dewisol neu'n gynllun statudol (Adran 14.3); p'un ai a ddylai'r gronfa gael ei dyrannu i sefydliadau fel rhan o'u cyllid grant craidd (Adran 14.4) ac os dylai'r cronfeydd gael eu cyfuno (Adran 14.5). Rydym hefyd (yn Adran 14.6) yn trafod materion allweddol eraill cysylltiedig megis cyflwyno uchafswm ar y cyllid sydd ar gael a gofyn i fyfyrwyr wneud cyfraniad tuag at y costau y talir amdanynt.

### **14.2 Angen Parhaus**

Rhoddodd rhanddeiliaid, cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch (yn cynnwys rhai mewn swyddi uwch) a myfyrwyr a gyfwelwyd farn gref iawn y dylai CAWG ddal i fod ar gael mewn gosodiadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach a dylid ei neilltuo o gyllid arall. Dywedwyd y byddai'r angen am CAWG yn dod hyd yn oed yn amlycach yn y blynyddoedd i ddod gan fod cyllid statudol wedi methu cynyddu yn unol â chostau byw. Dywedodd un cyfwelai o Sefydliad Addysg Bellach er enghraifft 'dyw cyllid myfyrwyr ddim wedi codi mewn deng mlynedd ... dylai clychau fod yn canu ... yn arbennig i fyfyrwyr aeddfed nad yw mam a dad yn eu cefnogi'. Teimlid ei bod yn debygol hefyd y byddai'r newidiadau presennol i'r system budd-daliadau a chyflwyno Credyd Cynhwysol ynghyd ag effaith parhaus y dirywiad economaidd yn cynyddu ymhellach yr angen am CAWG. Roedd llawer o gyfweleion yn awyddus i bwysleisio na fyddai unrhyw gyllid caledi neu argyfwng arall ar gael yn lle CAWG pe byddai'n dod i ben. 'Fe fyddwn i'n bryderus iawn os na fyddai gennym ... fyddwn i ddim yn gwybod lle i ddweud wrth fyfyrwyr am fynd wedyn.'

### **14.3 Cronfa statudol neu ddewisol?**

Credai'r holl randdeiliaid a chyfweleion o Sefydliadau Addysg Uwch/Sefydliadau Addysg Bellach y dylai cynlluniau CAWG barhau'n ddewisol, gyda sylwadau un yn adleisio nifer: 'yn bendant ni ddylai ddod yn gronfa statudol'. Fe wnaeth rhai sylweddoli ychydig o fanteision mewn cyflwyno dull statudol (megis dileu effaith 'loteri cod post' presennol y cynlluniau a gwarant o ddarpariaeth cymorth ariannol gan na fyddai cyllid yn dod i ben) ond ni chredid fod hyn yn ddigon mawr i haeddu newid o'r fath.

Rhodddwyd llawer o ddadleuon i gyfiawnhau parhau â chynllun dewisol yn hytrach na chynllun statudol, yn cynnwys y gallu i sefydliadau (yn neilltuol o fewn Sefydliadau Addysg Uwch) i ddarparu cymorth a chanllawiau cynhwysfawr adeg angen: 'nid dim ond yr arian yr ydym yn ei roi, mae'r cymorth i gyd' a fyddai mewn perygl o fynd ar goll pe bai cyllid ar gael ar sail statudol. Ymhellach, dywedodd llawer o gyfweleion fod y gronfa bresennol yn eu galluogi i ddarparu ar gyfer anghenion myfyrwyr mewn modd hyblyg iawn er ei bod yn glir fod llawer o Sefydliadau Addysg Bellach yn defnyddio dull gweithredu unfurf yn seiliedig ar incwm aelwyd:

'Mae myfyrwyr wedi dod yn fwy a mwy amrywiol mewn blynyddoedd diweddar ... dydyn nhw ddim yn draddodiadol yn israddedigion syth o'r ysgol .. maen nhw'n amrywio o ran bod yn ôlraddedigion, dysgu o bell, dysgu seiliedig ar waith ... mae'n llawer mwy cymhleth.'

Dywedodd nifer o gyfweleion hefyd y byddai cyflwyno cynllun statudol yn arwain at wastrafflu mwy o gyllid cyhoeddus - er enghraifft yn y sector Addysg Bellach mae darpariaeth cyllid yn aml yn dibynnu ar lefelau presenoldeb da a chredid y medrai fod perygl y byddai rhai myfyrwyr yn camddefnyddio darpariaeth cyllid drwy'r llwybr statudol.

Credai nifer fechan o gyfweleion y gallai fod cwmpas i ystyried cyflwyno elfennau o'r gronfa drwy ddarpariaeth statudol, yn neilltuol ofal plant a chludiant yn y sector Addysg Bellach, er y cydnabuwyd hefyd y gall fod ffyrdd eraill o ddarparu ar gyfer y gofynion hyn mewn modd mwy cyson y tu allan i'r cynlluniau. Soniwyd yn arbennig am ariannu gofal plant Addysg Bellach gan ei fod yn alw anghymesur ar gyllid CAWG (yn nhermau maint y dyfarniadau unigol a wnaed). Ymhellach dadleuodd un cyfwelai Sefydliad Addysg Uwch y gall fod cwmpas i ddarparu'n well ar gyfer anghenion myfyrwyr Addysg Uwch incwm aelod canol is drwy'r llwybr statudol yn hytrach na defnyddio CAWG ar gyfer y diffygion presennol. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, bernid fod y mater yn ymwneud mwy â'r angen i adolygu'r ddarpariaeth statudol ar gyfer y grŵp neilltuol hwn o fyfyrwyr.

#### **14.4 Cyflwyno CAWG o fewn cyllid grant craidd?**

Ni welsom lawer o gefnogaeth ar gyfer dyrannu cyllid CAWG i sefydliadau fel rhan o'u cyllid grant craidd, yn bennaf gan yr ofnai cyfweleion o du mewn y sector y byddai cyllid yn cael ei 'gollu' o fewn eu sefydliad a bod perygl y byddai amcanion cyffredinol CAWG yn cael eu lleihau. Roedd barn un o'r cyfweleion yn adleisio sylwadau llawer o rai eraill y byddai 'perygl y byddai'n cael ei lyncu gan flaenoriaethau eraill'.

Dywedodd nifer fechan o gyfweleion, pe byddai'n dod i hynny, y gallai eu sefydliad drin newid o'r fath a derbyn cyllid CAWG fel rhan o'u cyllid craidd gan ychwanegu y gallent fanteisio o gyhoeddiad cynharach o ddyraniadau ac y byddai mwy o sicrwydd flwyddyn ar flwyddyn y byddai cyllid ar gael.

#### **14.5 Cyflwyno un cynllun CAWG?**

Ni allai mwyafrif y rhai a gyfwelwyd roi sylwadau ar y thema o uno cynlluniau CAWG Addysg Uwch ac Addysg Bellach a gan fod eu profiad wedi'i gyfyngu i un ai'r sector Addysg Uwch neu Addysg Bellach, nid oedd ganddynt farn gref y naill ffordd na'r llall. Fodd bynnag mynegodd yr ychydig o gyfweleion eraill farn gymysg am uno'r cyllid ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Dywedodd rhai sefydliadau, yn arbennig Sefydliadau Addysg Uwch oedd yn gweinyddu cynlluniau CAWG Addysg Bellach a hefyd Addysg Uwch, y byddai'n fanteisiol i uno'r ddau gynllun gan y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt drin un pot cyllid yn hytrach na dau. Er enghraifft, mewn un achos neilltuol dywedodd cyfwelai Sefydliad Addysg Uwch y byddai'n eu galluogi i drin cyllid mewn modd mwy holistig ac y dylai unrhyw danwariant ar lefel Addysg Uwch gael ei ddyrannu i'r galw mewn Addysg Bellach (yn hytrach na'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru). Fodd bynnag, derbyniodd y rhan fwyaf o gyfweleion y byddai'r gwahaniaethau amlwg rhwng y ddau gynllun ar hyn o bryd yn ei wneud yn anodd iawn i'w uno a'i reoli.

#### **14.6 Cyflwyno cap ar gyllid?**

Cytunodd y rhan fwyaf o gyfweleion mewn egwyddor y byddai'n dderbyniol (ac yn wir yn ddefnyddiol) i gyflwyno cap mynegol ar faint o gyllid y gallai unrhyw un myfyriwr gael mynediad iddo gan y byddai hyn yn eu galluogi i gadw eu hyblygrwydd a'u disgresiwn ar lefel leol. Yn wir, nododd y rhan fwyaf o gyfweleion Sefydliadau Addysg Uwch eu bod yn dal i weithredu cap cyllid o £3,500 (fel y nodir yng nghanllawiau blaenorol Llywodraeth Cymru) ond roeddent yn falch i gael yr hyblygrwydd a'r disgresiwn lleol i fynd yn uwch na'r terfyn yma fel a phryd yr oedd angen hynny. Yn yr un modd credai llawer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach fod cyflwyno cap cyllid mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn dderbyniol yn ddamcaniaethol ond yn cydnabod yr anawsterau am ei weithredu. Awgrymwyd y gallai fod yn well ar draws y sector Addysg Bellach i gyflwyno cap ar ddarpariaethau penodol megis offer.

#### **14.7 Cyfraniad ariannol gan fyfyrwyr**

Yng ngoleuni'r pwysau ar gyllid CAWG mewn blynyddoedd diweddar, nododd llawer o gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach eu bod wedi cyflwyno polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr wneud cyfraniad ariannol o ryw fath at wahanol ddarpariaethau: roeddent felly o'r farn na ddylai gosod gofyniad o'r fath yn unrhyw gynllun gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol



achosi gormod o broblemau. Yn yr un modd yn y sector Addysg Uwch, dadleuwyd fod myfyrwyr yn gorfod dangos eu bod wedi defnyddio'r holl adnoddau posibl, yn cynnwys eu hincwm eu hunain bydded hynny ar wedd incwm gwaith rhan amser neu gyfleusterau gorddrafft, cyn y gwneir dyfarniad. Fodd bynnag roedd nifer fechan o gyfweleion yn nerfus am hyn a dywedodd cyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach yn neilltuol fod ganddynt fyfyrwyr na allai fforddio gwneud cyfraniad o'r fath. Dadleuodd un o'r cyfweleion 'rydym eisiau canolbwyntio ar ddiwallu angen. Nid ydym eisiau cael tŷ hanner ffordd lle'r ydym yn hanner ateb angen'.

Yn yr un modd mynegodd myfyrwyr farn gymysg gyda rhai'n dweud eu bod eisoes yn gorfod gwneud cyfraniad o'r fath a chredai eraill y byddai'r gofyniad i wneud cyfraniad ariannol, dyweder ar gyfer teithio neu ofal plant, wedi bod fwy neu lai'n amhosibl.

#### **14.8 Defnyddio CAWG i roi cymhorthdal ar gyfer cyfleusterau gofal plant?**

Dim ond nifer fach o gyfweleion a gredai y dylid defnyddio CAWG i roi cymhorthdal at eu cyfleusterau gofal plant eu hunain yn y dyfodol gan nad oedd hyn ond yn ymestyn y polisi presennol yn eu sefydliadau. Heb gyllid CAWG yn sylfaen i gost y cyfleusterau hyn, roedd yn glir y byddent yn dod i ben. Anghytunai'r mwyafrif helaeth fodd bynnag a dweud na ddylai CAWG roi ffafriaeth i gyfleusterau gofal plant sefydliad dros ddewis y myfyriwr. Yn wir yn eu profiad hwy roedd yn glir fod polisiâu Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach wedi symud ymaith mewn blynyddoedd diweddar o gefnogi cyfleusterau gofal plant oedd yn gwneud colled ac na ddylai fod yn addas disgwyl i CAWG eu cynnal. Ymhellach dywedwyd er ei bod yn addas defnyddio cyllid cyhoeddus i gefnogi marchnad oedd yn methu, nad oedd yn addas i'w ddefnyddio i gefnogi sefydliad busnes oedd yn methu.

#### **14.9 Effaith strwythur ffioedd newydd ar CAWG**

Ni chredai'r rhan fwyaf o gyfweleion y byddai cyflwyno strwythur newydd ar ffioedd myfyrwyr yn cael effaith sylweddol ar weinyddu CAWG gan na roddir ystyriaeth i ffioedd myfyrwyr wrth gyfrif os ydynt yn gymwys am gymorth: 'dydyn ni ddim yn ystyried ffioedd pan fyddwn yn cyfrif os yw myfyriwr angen CAWG'.

Er hyn nododd nifer o gyfweleion y gallai'r strwythur ffioedd newydd atal unigolion rhag mynd i brifysgol, yn arbennig drwy'r broses glirio, gan y byddai angen iddynt gyfrannu cyfran fawr o ffioedd ymlaen llaw ar ddechrau eu cwrs. Yn naturiol gallai hyn arwain at fwy o alw am CAWG i roi benthyciadau mwy i fyfyrwyr sy'n derbyn taliadau benthyciad hyfforddiant yn hwyr.

## 15. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

### 15.1 Casgliadau

Wrth gloi, dychwelwn i ystyried amcanion cyffredinol y gwerthusiad sydd â'u ffocws ar effeithiolrwydd ac effaith CAWG ac ystyried yn benodol os dylai CAWG ddod yn gynllun statudol yn hytrach na dewisol a ph'un ai a ddylid uno cynlluniau CAWG.

Credwn fod rhesymeg glir dros roi cymorth ariannol dewisol i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch ar adegau neilltuol o angen yn ystod eu hastudiaethau a bod amcanion cyffredinol cynllun CAWG yn ategu'r cyllid sydd ar gael drwy ddulliau statudol gan fwyaf. Fodd bynnag mae dystiolaeth i awgrymu y defnyddir CAWG i 'lenwi' bylchau neilltuol o fewn darpariaeth statudol ar draws y sector Addysg Uwch megis yn achos darpariaeth gofal plant ac ar gyfer myfyrwyr GIG. Mae hefyd dystiolaeth i ddangos y defnyddir CAWG i gael gwared ag anghysonderau yn y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr mewn gosodiadau Addysg Bellach o gymharu gyda'r rhai mewn chweched dosbarth ysgol, yn fwyaf arbennig, ddefnyddio CAWG i dalu am gostau teithio myfyrwyr ac, er i raddau llai, i roi talebau cinio iddynt.

Yn wir, mae'n drawiadol yn y sector Addysg Bellach, na chaiff CAWG ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer 'anghenion argyfwng' ond yn hytrach mewn ffordd systemig i dalu am rai costau y medrir eu rhagweld yn gysylltiedig gydag astudio ar gyfer rhai categorïau o fyfyrwyr (yn gyffredinol yn gysylltiedig ag incwm aelwyd). Nid yw hyn yn golygu nad yw CAWG yn 'addas i'r diben': yn wir, mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiad yn awgrymu fod hyn yn erfyn pwysig wrth alluogi recriwtio a chadw unigolion a allai fel arall gael eu heithrio o gyfleoedd addysgol. Fodd bynnag ymddengys fod ei weithrediad yn cyfateb yn eithaf agos i gynlluniau megis y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) a gellid dadlau nad yw'n cyd-fynd yn arbennig o dda gyda chynllun Llywodraeth Cymru na ddylid defnyddio CAWG i 'gefynogi myfyrwyr sy'n dod o fewn band incwm neilltuol heb ystyried anghenion y myfyriwr unigol'.

Ar yr un pryd, credwn fod nerth yn y ddadl y caiff cyllid ei ddsbarthu'n fwyaf priodol yn lleol gan bob sefydliad; mae hyn yn galluogi sefydliadau i ymateb i'r amgylchiadau penodol sy'n wynebu eu corff myfyrwyr (e.e. yng nghyswllt cludiant) ac i sicrhau y caiff hawliadau eu prosesu'n amserol ac yn bwrpasol (ac mewn rhai achosion, gyngor ac arweiniad i fynd gydag ef). Ymhellach, yn achos CAWG Addysg Bellach, caiff cymorth ei deilwra'n weddol agos gydag anghenion ac amgylchiadau unigol.

Ar draws y sector Addysg Uwch ni chredwn y dylai CAWG ddod yn gynllun statudol gan fod manteision darparu cymorth ariannol (yn aml am symiau llai) ar bwynt angen yn un o nodweddion allweddol y cynllun. Fodd bynnag credwn y byddai ffyrdd mwy effeithlon o ariannu rhai o'r darpariaethau a gynhwysir ar hyn o bryd drwy CAWG ar draws y sector Addysg Bellach a fyddai'n rhoi ystyriaeth i'r symudiad graddol tuag at system drydyddol mewn ardaloedd. Byddai hyn yn cynnwys ymchwilio dulliau amgen o ariannu costau cludiant myfyrwyr Addysg Bellach (un ai drwy gyllid statudol neu gyllid strwythurol arall) gan fod gan bolisiâu awdurdodau lleol ddylanwad uniongyrchol ar ddefnydd CAWG ar gyfer y diben hwn.

Credwn hefyd y gallai fod dulliau mwy effeithlon o ddarparu ar gyfer costau gofal plant mewn Addysg Bellach o gofio fod y galw am gymorth ariannol gofal plant wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar. Ymddengys yn awr fod cyllid ar gyfer plant yn gosod galw anghymesur (hyd yn oed yn fwy na chyllid mewn rhai achosion) ar lefel Addysg Bellach a gall hyn fod ar draul talu am anghenion cyllid eraill. Yn wir, mae nifer o Sefydliadau Addysg Uwch wrthi'n ymchwilio opsiynau ar gyfer sicrhau gwell cydbwysedd rhwng cefnogi anghenion myfyrwyr gydag ymrwymadau gofal plant ar y naill law ac anghenion myfyrwyr eraill ar y llaw arall. Ar lefel Addysg Bellach mae hwn yn un maes a allai fanteisio o ddarpariaeth drwy ddarpariaeth statudol (yn yr un ffordd ag ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch) er y byddai goblygiadau ariannol gwneud hynny yn sylweddol fwy nag ar sail ddewisol.

Mae'r dystiolaeth o'n gwaith maes yn dangos yn glir fod y ddau gynllun a weithredir dan faner CAWG yn neilltuol: yn wir, mae'r gwahaniaethau rhwng y cynlluniau ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn fwy na'r tebygrwydd rhyngddynt. Mae'r dull gweithredu ar draws Addysg Bellach yn seiliedig i raddau helaeth ar gyllid ymlaen llaw ar gyfer myfyrwyr ar gyfer darpariaethau a ddiffiniwyd ymlaen llaw yn seiliedig ar brawf modd; tra mewn Addysg Uwch mae'r gronfa yn bennaf ar gael i fyfyrwyr presennol Addysg Uwch sy'n dangos diffyg ariannol. Fel canlyniad ni chredwn y byddai'n ymarferol uno'r cynlluniau ac y byddai'r anfanteision yn fwy nag unrhyw fanteision gwneud hynny.

Ymhellach un o ganfyddiadau mwyaf trawiadol y gwerthusiad yw'r gwahaniaethau sylfaenol a ddefnyddir gan sefydliadau unigol yn nhermau eu polisiâu CAWG (yn neilltuol ar draws y sector Addysg Bellach) ac er y gwerthfawrogwn fod y polisiâu hyn yn aml yn adlewyrchu amgylchiadau lleol a galw, mae rywfaint yn syndod canfod cynifer o anghysonderau rhwng un sefydliad a'r llall yn y ffordd y gweithredant gynllun Cymru-gyfan. Gellid dadlau fod hyn yn arwain at annhegwch a 'loteri cod post'. Deuwn i'r casgliad felly y byddai gwerth sylweddol mewn annog sefydliadau i symud at ddull mwy cyffredin, yn neilltuol o ran sut y caiff myfyrwyr eu hasesu am ddibenion

cymhwyster (e.e. defnyddio asesiadau incwm aelwyd ar draws y sector Addysg Bellach sy'n seiliedig ar drothwy cyffredin a sefydlu canllawiau ar ba fyfyrwyr sydd yn gymwys a pha rhai nad ydynt yn gymwys am gymorth fel y'i diffiniwyd gan statws Lwfans Cynhaliaeth Addysg/Grant Dysgu'r Cynulliad neu statws rhan-amser a llawn-amser) a phrofiad myfyrwyr o ymgeisio am gyllid yn fwy cyffredinol. Credwn hefyd y byddai'n werth i bob Sefydliad Addysg Bellach alinio cyllid gyda phresenoldeb da gan fyfyrwyr, fel sy'n digwydd ar gyfer dosbarthu cyllid y Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Yn olaf, deawn i'r casgliad hefyd fod angen trin rhai o'r gwahaniaethau ehangach a sylfaenol ar draws polisïau awdurdodau lleol ar ddarpariaeth cludiant ar gyfer rhai 16-18 oed gan fod gan y rhain effaith sylweddol ar ddefnyddio CAWG ar gyfer costau cludiant ar draws Sefydliadau Addysg Uwch.

Credwn hefyd y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru roi mwy o dryloywder i'r fethodoleg y mae'n ei defnyddio ar gyfer dyfarnu cyllid i sefydliadau unigol a chynnal adolygiad sylfaenol o hyn gan nad yw ar hyn o bryd yn rhoi ystyriaeth i rai o'r newidiadau allweddol sy'n digwydd ar draws y sector yn nhermau uno neu newidiadau i nifer myfyrwyr ym mhob sefydliad. Drwy wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei fod yn rhoi digon o amser i sefydliadau ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau i'w dyraniadau gan ei bod yn debygol o gael effaith ddybryd ar rai sefydliadau. Ymhellach credwn hefyd y byddai manteision i'r sector dderbyn eu hysbysiadau blynyddol a manylion cynlluniau blynyddol yn gynharach yn y flwyddyn, erbyn mis Mai o leiaf, ond ni chredwn ei bod yn angenrheidiol gwneud taliadau i sefydliadau yn amlach nag unwaith y flwyddyn. Yn olaf credwn y gellir gwneud mân newidiadau i'r gofynion monitro ac adroddiadau a nodir gan Lywodraeth Cymru yn nhermau cynnwys (h.y. fel eu bod yn adlewyrchu'n well y canllawiau a anfonir i sefydliadau) ac amseriadau (drwy i sefydliadau gael y templedi ar gyfer adroddiadau yn llawer cynharach yn y flwyddyn).

Yn nhermau'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r adborth o'r tu mewn i'r sector yn awgrymu yr ymddengys fod y cynllun presennol ar grwpiau blaenoriaeth a gofynion preswyliaeth yn synhwyrol a derbyniol - ac yn hynny o beth ni chredwn fod angen eu newid, heblaw ymchwilio'r posibilrwydd o gynnwys gofalwyr fel grŵp blaenoriaeth ychwanegol. Cytunwn gyda barn mwyafrif helaeth y cyfweleion na ddylai'r cynllun gyfyngu CAWG i fyfyrwyr yn hanu o Gymru gan na fyddai hynny'n cyd-fynd gyda darparu darpariaeth deg i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru.

O ran canllawiau am *ba ddarpariaethau* ddylai gael eu hariannu yna credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi arwydd cliriach i sefydliadau dyfarnu ar sut y dylid rhoi blaenoriaeth i'r darpariaethau hyn ond derbyniwn y ffaith fod angen i sefydliadau allu cadw eu disgrisiwn er mwyn darparu ar

gyfer amrywiadau lleol sylweddol yn nhermau polisiau awdurdodau lleol a ffactorau eraill megis costau llety a gofal plant.

Credwn y dylid cadw'r hyblygrwydd y mae cynllun Llywodraeth Cymru yn ei roi ar hyn o bryd yn nhermau sut y dylai sefydliadau weinyddu eu cynlluniau. Fodd bynnag, credwn y dylai sefydliadau ddefnyddio arfer effeithlon a da o'r tu mewn i'r sector i wella eu gweinyddiaeth ac mae'r gwerthusiad yma wedi dynodi llawer o ddulliau gweithredu yn ystod ein gwaith maes. Yn neilltuol byddai'n arfer da i sefydliadau (yn arbennig Sefydliadau Addysg Bellach) ariannu costau gwirioneddol yn hytrach na chostau tybiannol neu amcangyfrif yn ogystal â nodi y byddai'n *ddymunol* (ond nid yn hanfodol) i fyfyrwyr sy'n derbyn cyllid CAWG wneud cyfraniad tuag at y costau gan na fyddai hyn ond yn adlewyrchu'r arferion cyfredol a ddefnyddir gan sefydliadau.

Credwn ei bod yn briodol i ffi weinyddol fod ar gael i sefydliadau tuag at y costau o weinyddu'r cynlluniau CAWG gan fod angen adnoddau sylweddol i drin y cynllun. Mae lefel presennol y cyllid (uchafswm o 3% neu £525 pa bynnag sydd uchaf) yn bell o fod yn ddigonol i dalu am y costau'n gysylltiedig gyda rheoli'r cynllun ond caiff ei werthfawrogi gan sefydliadau fel cyfraniad bach tuag at gostau gwirioneddol rheoli'r cynllun ac felly dylid eu cadw. Er bod y lefel bresennol o gyllid yn annigonol ni chredwn y dylai gael ei gynyddu gan y byddai hyn yn gostwng y cyllid a ddsberthir i fyfyrwyr sydd angen cymorth ariannol.

Gan droi i drafod y defnydd o CAWG gan fyfyrwyr a ariannir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae'n glir fod y grŵp yma'n rhoi galw anghymesur ar gyllid y cynllun ar lefel Addysg Uwch, a bod y galw wedi cynyddu ers y gwnaed newidiadau i ddarpariaeth statudol ddechrau 2012/13. Cytunwn gyda barn y mwyafrif y rhai a gyfwelwyd y dylai'r grŵp yma o fyfyrwyr fedru parhau i gael mynediad i CAWG ond awgrymwn fod y sector yn cysylltu gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd o fewn y sector GIG i drafod p'un ai allai unrhyw ddiffygion yng nghefnogaeth ariannol GIG ar gyfer ei fyfyrwyr gael eu hariannu'n well drwy ddarpariaeth statudol, yn neilltuol alinio'r rheolau ar gymorth gofal plant gyda'r Grant Gofal Plant. Dywedodd cynrychiolwyr yr Asiantaeth y byddent yn barod i gymryd rhan mewn trafodaeth o'r fath yn ystod ein gwaith maes gwerthuso.

Yng nghyswllt Cymraeg i Oedolion, mae'r rhesymeg dros wneud cyllid ar gael yn uniongyrchol i Ganolfannau CiO yn llai clir ac mae gormod o gyllid ar gael o'i asesu yn erbyn galw myfyrwyr. Ni chawsom ein darbwylllo am yr angen i neilltuo cyllid ar gyfer y grŵp arbennig yma o fyfyrwyr fodd bynnag credwn y dylent gael mynediad i gymorth CAWG os gallant fodloni gofynion y

cynllun. Yn yr ystyr yma gall fod yn fanteisiol ymchwilio os gallai anghenion myfyrwyr CiO gael eu cynnwys o fewn arian CAWG eu sefydliadau lletya (yn wir fel y mae rhai myfyrwyr Addysg Bellach sy'n astudio mewn rhai Sefydliadau Addysg Uwch eisoes yn ei wneud) neu fel arall fabwysiadu dull mwy canoledig fel y gellir darparu yn well ar gyfer galw myfyrwyr.

Mae'r gweithgareddau marchnata a hyrwyddo a ddefnyddir gan sefydliadau'n ymddangos yn addas ond mae cwmpas ar gyfer defnyddio proses gais fwy cyson lle mae sefydliadau, er enghraifft, yn defnyddio ffurflenni cais mwy safonol ac yn gofyn i fyfyrwyr gyflwyno tystiolaeth debyg. Yn wir, yn achos y sector Addysg Bellach, mae cwmpas i lacio'r baich ceisiadau a roddir ar fyfyrwyr a all fod eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth debyg ar gyfer cyllid arall, yn neilltuol y Lwfans Cynhaliath Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch), fel yw'r arfer presennol mewn rhai sefydliadau. Mae cwmpas i nifer fach o Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch wella sut y maent yn trin ceisiadau er mwyn cwtogi'r amserlenni gwneud penderfyniadau a gwella cyfathrebu i fyfyrwyr.

Yn olaf, ein casgliad yw bod CAWG yn bennaf yn addas i'r diben yn y sector Addysg Bellach a hefyd y sector Addysg Uwch, er mewn ffyrdd gwahanol iawn, gan fod sefydliadau'n defnyddio cyllid i gyflawni amcanion a nodir gan Lywodraeth Cymru. Dangosodd ein gwaith maes gwerthuso fod y cyllid yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad a chadw myfyrwyr. Yn achos y sector Addysg Bellach mae'r gronfa'n gwneud gwahaniaeth i ymrestru, presenoldeb a chadw myfyrwyr a chadw myfyrwyr ac mae'r adborth gan gyfweleion Sefydliadau Addysg Bellach a myfyrwyr yn rhoi tystiolaeth o hyn. Mewn Addysg Uwch, mae'r dystiolaeth yn dangos fod CAWG yn ddull effeithlon o gadw myfyrwyr a lle'r oedd tystiolaeth ar gael gallai Sefydliadau Addysg Uwch ddangos fod cyfraddau gadael y rhai a dderbyniodd gyllid CAWG yn is na'r cyfraddau cyffredinol ar gyfer gadael cyrsiau. Fodd bynnag mae'n glir, yn fwy felly mewn Addysg Uwch, fod darpariaeth cyngor ac arweiniad ariannol yr un mor bwysig i'r myfyrwyr â'r cyllid ei hunan a chyfaddefodd llawer o fyfyrwyr a gyfwelwyd mai dim ond pan oedd popeth arall wedi methu yr oedd gadael eu cwrs yn opsiwn.

Er y dystiolaeth lethol a gasglwyd i ddangos fod CAWG yn gwneud gwahaniaeth, nid oes amheuaeth fod y cynlluniau'n creu rhywfaint o ddi-fuddiant. Ymhellach, mae nifer o fyfyrwyr, yn neilltuol o fewn y sector Addysg Bellach, yn ymwybodol iawn fod cyllid ar gael cyn ymrestru ar eu cwrs ac felly mae'n aml yn anodd gwahaniaethu pa effaith a gafodd CAWG ar eu gallu i ymrestru a chwblhau eu cyrsiau.

## 15.2 Argymhellion

Gwnawn gyfanswm o 16 argymhelliad sy'n canolbwyntio ar y newidiadau allweddol sydd eu hangen.

**Argymhelliad 1:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu cynlluniau CAWG ar draws y sector Addysg Bellach a hefyd y sector Addysg Bellach, tra'n cydnabod fod ffocws ei chynllun fel y'i defnyddir ar hyn o bryd o fewn Sefydliadau Addysg Bellach ar ddiwallu anghenion rhagweladwy grwpiau penodol o fyfyrwyr yn hytrach nag ar argyfyngau. Dylai cyllid barhau i fod ar gael yn uniongyrchol i sefydliadau unigol i'w gweinyddu ar sail ddewisol.

**Argymhelliad 2:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu'r fethodoleg sylfaenol ar gyfer darparu cyllid i sefydliadau unigol ac yn ei addasu ac y gallai fod ei angen i adlewyrchu'n well niferoedd y myfyrwyr a ragwelir ar gyfer y dyfodol, demograffeg myfyrwyr, natur wledig a lefelau amddifadedd ym mhob sefydliad. Dylid ymgynghori'n drwyadl ar unrhyw newidiadau posibl i ddyraniadau gyda'r sefydliadau dan sylw oherwydd y gallent fod ag oblygiadau ar gyfanswm nifer y myfyrwyr y gall sefydliad eu recriwtio. Dylid cyhoeddi unrhyw newidiadau i'r symiau y cytunir arnynt yn y diwedd ddigon ymlaen llaw i alluogi'r sefydliadau i addasu'n unol â hynny. Mae hefyd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall y fethodoleg ddarparu ar gyfer uniadau yn y dyfodol rhwng prifysgolion, colegau ac ehangu modelau addysg drydyddol ôl 16.

**Argymhelliad 3:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cadw dau gynllun CAWG ar wahân ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach ac na ddylai'r rhain gael eu huno.

**Argymhelliad 4:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi hysbysiadau mwy amserol o gylchlythrau blynyddol cynllun CAWG a hefyd ddyraniadau ariannol i Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch, yn ddefnyddol erbyn mis Mai bob blwyddyn.

**Argymhelliad 5:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthbwysu rhai o gostau Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch wrth weinyddu cynlluniau CAWG a chadw'r cyfraddau ffioedd presennol.

**Argymhellwn 6:** Argymhellwn yn yr hirdymor bod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad gyda'i phartneriaid yn ymchwilio dulliau eraill o ariannu darpariaethau teithio ar gyfer myfyrwyr 16-18 oed lle caiff hyn ei dalu drwy'r Cynllun CAWG Addysg Bellach ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 7:** Credwn y byddai'n well yn yr hirdymor i ddarparu ar gyfer costau gofal plant myfyrwyr Addysg Bellach drwy ddarpariaeth statudol fel sy'n digwydd gyda myfyrwyr Addysg Uwch. Yn y cyfamser argymhellwn fod y sector Addysg Bellach yn cydweithio mwy i gael dull cyson i ddyfarnu cyllid gofal plant gyda golwg ar sicrhau nad yw anghenion myfyrwyr Addysg Bellach eraill dan anfantais oherwydd galw cynyddol am gostau gofal plant.

**Argymhelliad 8:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cadw'r grwpiau blaenoriaeth a ddynodwyd o fewn y cynllun ond yn rhoi mwy o eglurder ar rai ohonynt. Argymhellwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys 'gofalwyr' fel grŵp blaenoriaeth newydd.

**Argymhelliad 9:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, mewn trafodaeth gyda Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch, yn ystyried os byddai anghenion myfyrwyr Addysg Bellach gyda ffransais yn astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn well yn cael eu darparu'n lleol yn y Sefydliad Addysg Bellach ei hunan ac os felly, cael ei ariannu'n unol â hynny.

**Argymhelliad 10:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei gynllun CAWG y dylai pob Sefydliad Addysg Uwch a Sefydliad Addysg Bellach gael eu cynrychioli ar Grwpiau Ymgynghori CAWG Addysg Uwch ac Addysg Bellach a bod y camau gweithredu a gynigir yn y grwpiau hyn yn cael eu mabwysiadu'n fwy cyffredinol ar draws y sector.

**Argymhelliad 11:** Argymhellwn fod Sefydliadau Addysg Bellach yn cydweithio gyda Grŵp Ymgynghori CAWG yn ogystal â NASMA lle'n berthnasol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i gydweithio wrth ddatblygu dull gweithredu mwy cyson ar gyfer CAWG yn arbennig yn nhermau asesu cymhwyster myfyrwyr a phrosesau cais. Yn yr un modd argymhellwn fod Sefydliadau Addysg Uwch yn cydweithredu yn yr un modd i sicrhau dull gweithredu mwy cyson ar gyfer cynllun CAWG, gan dderbyn y bydd amgylchiadau lleol a chyllidebau sefydliadau unigol yn cael dylanwad ar y canlyniad hwn.

**Argymhelliad 12:** Argymhellwn fod y sector yn cysylltu gydag Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i drafod sut y gellid darparu'n well ar gyfer gofynion cymorth ariannol myfyrwyr a ariannir gan y GIG un ai drwy ddarpariaeth statudol neu drwy i'r Asiantaeth wneud cyfraniad priodol tuag at gyllidebau CAWG ar lefel sefydliadau unigol er mwyn llacio'r pwysau ar CAWG ar gyfer y gofynion hyn.

**Argymhelliad 13:** Argymhellwn fod y model presennol o ddarparu cyllid wedi'i neilltuo i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion unigol yn cael ei ddileu a bod anghenion y myfyrwyr hynny un



ai'n cael eu diwallu drwy arian CAWG y sefydliad cynnal neu drwy ddull canoledig wedi'i ariannu'n llai hael. Credwn y dylai'r Canolfannau CiO gytuno rhyngddynt pa opsiwn fyddai orau ar gyfer anghenion eu myfyrwyr.

**Argymhelliad 14:** Argymhellwn fod sefydliadau'n symud tuag at fabwysiadu arfer da drwy ddweud y byddai'n *ddymunol* i'r rhai sy'n derbyn CAWG wneud cyfraniad tuag at y costau a gaiff eu hariannu drwy CAWG gan y byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y rhan fwyaf, ond nid y cyfan, o Sefydliadau Addysg Uwch yn gweinyddu cyllid CAWG ar hyn o bryd ar y sail fod myfyrwyr yn gwneud cyfraniad goblygedig eisoes. Yn yr un modd ar draws y sector Addysg Bellach, mae rhai Sefydliadau Addysg Bellach wedi cyflwyno polisi'n ddiweddar yng ngoleuni pwysau ariannol cynyddol ar eu cyllidebau CAWG. Mewn modd tebyg argymhellwn fod sefydliadau'n mabwysiadu arfer o ariannu gwir gostau yn hytrach na chostau tybiannol neu amcangyfrif o gostau darpariaeth lle mae'n ymarferol gwneud hynny.

**Argymhelliad 15:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn annog Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch drwy'r ddau Grŵp Cynghori i fabwysiadu uchafswm lefel mynegol o gyllid fesul myfyriwr drwy'r cynllun CAWG.

**Argymhelliad 16:** Argymhellwn na ddylai Sefydliadau Addysg Uwch yn arferol ariannu'r rhan 15% o'r costau y mae'r Grant Gofal Plant yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei wneud ond yn hytrach wneud cyfraniad o'r fath lle mae diffyg ariannol clir yng nghyllideb yr ymgeisydd.